# RHOI DIODDEFWYR YN GYNTAF

## YMATEBION MWY EFFEITHIOL I YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Swyddfa Gartref

Mai 2012

# RHOI DIODDEFWYR YN GYNTAF: YMATEBION MWY EFFEITHIOL I YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref
trwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Mai 2012

Cm 8367

£16.00

**© Hawlfraint y Goron 2012**

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng, dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostiwch:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Ble rydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan ddalwyr yr hawlfraint dan sylw.

Dylai unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon inni ar public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan hefyd yn http://www.homeoffice.gov.uk/publications/crime/antisocial-behaviour-responses/.

# Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref

Ni ddylai fod rhaid i neb dderbyn graffiti ar eu waliau, meddwdod cyhoeddus ar eu strydoedd nag aflonyddwch a bygythion ar eu trothwy eu hunain. Ond i ormod o gymunedau yn y wlad hon mae'r fath droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aros fel un o ffeithiau bywyd bob dydd. Er gwaethaf blynyddoedd o fentrau, targedau a chynlluniau o'r brig i lawr gan y Llywodraeth ganolog, cofnodir mwy na thri miliwn o ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan yr heddlu bob blwyddyn, â'r tebygolrwydd y bydd llawer mwy'n mynd heb eu hadrodd. Ac fel mae achosion trasig diweddar wedi dangos, yn aml y bobl fwyaf hyglwyf yn ein cymdeithas sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Mae'n eglur nad yw'r hen ymagwedd yn gweithio; mae angen ffordd newydd arnom i fynd i'r afael â'r broblem ddifrifol hon.

Camgymeriad y gorffennol oedd meddwl bod y Llywodraeth yn gallu trwsio'r broblem â model 'un maint yn addas i bopeth'. All hi ddim. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem leol yn y bôn, un sy'n edrych a theimlo'n wahanol ym mhob ardal, ym mhob cymdogaeth ac i bob dioddefwr. Mae'r atebion yn gorwedd mewn asiantaethau lleol sy'n ymateb i anghenion dioddefwyr a chymunedau. Dylent gymryd y broblem o ddifri, gael y rhyddid i wneud yr hyn maent yn gwybod y bydd yn gwneud gwahaniaeth, a meddu ar y pwerau cywir i weithredu.

Mi wn fod yr heddlu, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol yn gwneud cryn dipyn i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol - mae angen iddynt gynnal a chyflymu eu gwaith, a chanolbwyntio mwy ar yr effaith mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei chael ar ddioddefwyr. Dylai rôl y Llywodraeth fod i gefnogi'r asiantaethau lleol hyn a rhoi iddynt y pwerau sydd eu hangen er mwyn gwneud hwn. Gwyddom nad yw'r pwerau presennol yn gweithio gystal ag y dylent. Erbyn hyn torrir ar fwy na hanner y Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO's) o leiaf unwaith a thorrir ar y rhai hynny a dorrir fwy na phedair gwaith ar gyfartaledd.

Fel rhan o'n hymgynghoriad yn y flwyddyn ddiwethaf gofynnon ni i ddioddefwyr beth oeddynt am weld yn digwydd. Dywedon nhw dri pheth wrthym. Yn gyntaf, maent eisiau i'w problem gael ei chymryd o ddifri. Yn ail, maent eisiau gwasanaeth effeithlon ac ymateb cyflym. Ac yn drydydd, maent eisiau i'r broblem ddod i ben ac iddi beidio â digwydd eto. Nod y Papur Gwyn hwn yw helpu sicrhau y bydd hynny'n digwydd.

Rydym eisiau grymuso dioddefwyr a chymunedau. Yn rhy aml mae pobl mewn ardal leol yn daer am ddelio â'r ymddygiad sy'n difetha eu cymdogaeth, ond ni wyddant sut i gael yr awdurdodau i weithredu. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu etholedig a chyfarfodydd cylchdaith y gymdogaeth yn helpu, ond byddwn yn cefnogi cymunedau lleol trwy gyflwyno Ysbardun Cymunedol er mwyn gorfodi asiantaethau i ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson. Rydym yn gweithio gyda nifer o ardaloedd lleol blaenllaw, yn cynnwys Manceinion, Gorllewin Lindsey a Brighton a Hove er mwyn treialu'r ysbardun eleni.

Rydym eisiau cefnogi'r Heddlu ac asiantaethau eraill er mwyn deall yn well yr effaith y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol ei chael ar ddioddefwyr. Dyna pam rydym wedi gweithio gydag wyth heddlu lleol i'w helpu wrth flaenoriaethu'r dioddefwyr sy'n wynebu'r perygl uchaf a'r rhai mwyaf hyglwyf. Mae'r gwaith hwnnw wedi amlygu i swyddogion yr heddlu y niwed y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol ei achosi i fywydau dioddefwyr.

Byddwn yn cyflwyno pwerau cyflymach a mwy effeithiol er mwyn atal ymddygiad peryglus a hwliganaidd y rhai hynny sy'n peri bod bywydau dioddefwyr yn ddiflas. Byddwn yn disodli 19 o bwerau presennol cymhleth â chwech newydd sy'n syml. Bydd y pwerau'n cynnwys gorchymyn llys newydd a fydd ar gael ar ôl euogfarn a fydd yn atal ymddygiad yr unigolion mwyaf dinistriol a mynd i'r afael ag achosion gwaelodol yr ymddygiad hwnnw - yn mynd i'r afael ag un o brif fethiannau'r ASBO. Bydd gwaharddeb sifil newydd y gall asiantaethau ei defnyddio'n uniongyrchol er mwyn gwarchod dioddefwyr a chymunedau; bwerau symlach i gau safleoedd sy'n denu trafferth; a phŵer mwy effeithiol i'r heddlu i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus. Hefyd byddwn yn helpu cyflymu'r broses o droi allan tenantiaid gwrthgymdeithasol er mwyn atal 'cymdogion hunllef' sy'n dinistrio bywydau'r bobl o'u cwmpas.

Hefyd byddwn yn gwneud mwy i helpu'r heddlu ac asiantaethau lleol wrth iddynt ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn anffurfiol. Rwyf yn cefnogi'n gryf y syniad bod swyddogion heddlu'n defnyddio eu gwybodaeth a phrofiad proffesiynol i ddelio â phroblem yn y modd maent yn meddwl ei fod yn addas. Mae ein rhaglen i ddiwygio'r heddlu'n helpu adfer y disgresiwn hwnnw. Er mwyn cefnogi gwaith asiantaethau lleol, byddwn yn canolbwyntio adnoddau cenedlaethol ar atal y problemau sy'n gyrru llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel goryfed mewn pyliau, defnyddio cyffuriau, problemau ynghylch iechyd y meddwl, cefndiroedd teuluol trafferthus a pherchnogaeth anghyfrifol o gŵn.

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol o hyd yn dinistrio gormod o fywydau ac o hyd yn niweidio gormod o gymunedau. Mae'n amser i ddechrau rhoi dioddefwyr yn gyntaf ac mae'n amser i roi terfyn ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS**
**Ysgrifennydd Cartref**
**Mai 2012**

# Cynnwys

**CRYNODEB GWEITHREDOL** .......... 6

**CYFLWYNIAD** .......... 8

**1. RHOI DIODDEFWYR YN GYNTAF: CANOLBWYNTIO'R YMATEB AR ANGHENION DIODDEFWYR** .......... 10

Helpu asiantaethau i adnabod a chefnogi dioddefwyr mewn perygl uchel .......... 10

Rhyddhau proffesiynwyr i gefnogi dioddefwyr yn gyflym .......... 15

Gwella ein dealltwriaeth o anghenion dioddefwyr .......... 16

**2. GRYMUSO CYMUNEDAU:** GWARCHOD DIODDEFWYR .......... 18

Rhoi'r hawl i ddioddefwyr a chymunedau i fynnu bod asiantaethau'n gweithredu .......... 18

Arddangos y niwed a achosir i gymunedau gan ymddygiad gwrthgymdeithasol .......... 19

Helpu cymunedau a busnesau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwarchod dioddefwyr .......... 21

Rhoi cyfle i ddioddefwyr a chymunedau roi eu barn ar gyfiawnder yn y gymdogaeth .......... 22

**3. CAMAU GWEITHREDU CYFLYM AC EFFEITHIOL: RHOI'R OFFER ANGENRHEIDIOL I BROFFESIYNWYR IDDYNT WARCHOD DIODDEFWYR** .......... 23

Delio ag unigolion gwrthgymdeithasol - gwarchod eu dioddefwyr .......... 24

Gwarchod cymunedau - gwella ansawdd bywyd .......... 26

Troi allan cymdogion hunllef .......... 31

**4. DATRYSIADAU HIRDYMOR: MYND I'R AFAEL Â GYRWYR YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL** 34

Mynd i'r afael ag yfed trafferthus .......... 34

Atal defnydd anghyfreithlon o gyffuriau .......... 35

Mynd i'r afael â'r problemau a achosir gan deuluoedd â phroblemau .......... 35

Mynd i'r afael ag anghenion iechyd y meddwl ac anghenion iechyd eraill .......... 36

Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy annog perchenogaeth gyfrifol o gŵn .......... 37

Atodiad A CRYNODEB O YMATEBION YR YMGYNGHORIAD .......... 40

Atodiad B CRYNODEB O BWERAU SYMLACH NEWYDD .......... 46

Atodiad C PWERAU NEWYDD - CYNIGION MANWL .......... 48

Atodiad D TROSOLWG O'R BROSES YMGYNGHORI .......... 55

# Crynodeb gweithredol

Mae'r ymadrodd 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' yn cynnwys amrediad o niwsansau, anhrefn a throseddau sy'n effeithio ar fywydau pobl ar sylfaen ddyddiol: o fandaliaeth a graffiti; i ymddygiad meddwol neu swnllyd o flaen y cyhoedd; i fygythion ac aflonyddwch. Mae pob un yn cael effeithiau anferth ar fywydau miliynau o bobl yn y wlad hon. Nid oes un sy'n dderbyniol.

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymiedig i atal y boen, yr ofn, a'r niwed a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae rhaid mai'r effaith mae ymddygiad yn ei chael ar ddioddefwyr yw'r man cychwyn.

Gwyddom beth mae dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol eisiau i ddigwydd. Yn gyntaf oll maent eisiau i'r ymddygiad ddod i ben, ac i'r tramgwyddwyr gael eu cosbi am yr hyn maent wedi'i wneud. Maent eisiau i'r awdurdodau gymryd eu problem o ddifri, i ddeall yr effaith ar eu bywydau ac i'w gwarchod rhag niwed pellach. Maent eisiau i'r broblem gael ei thrafod yn gyflym ac maent eisiau iddi beidio â digwydd.

Camgymeriad y gorffennol oedd meddwl bod y Llywodraeth yn gallu diwallu'r gofynion hyn â model 'un maint yn addas i bopeth'. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem leol, sy'n edrych a theimlo'n wahanol ym mhob ardal, ym mhob cymdogaeth ac i bob dioddefwr. Nid yw model sengl, canolog yn briodol ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem fwyaf lleol hon, er y gall neges gref fod rhaid ei chymryd o ddifri ddod o'r canol. Mae angen i asiantaethau lleol ymateb i anghenion dioddefwyr, weithio gyda'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu, a chael y rhyddid i wneud yr hwn maent yn gwybod y bydd yn gwneud gwahaniaeth. O fis Tachwedd, bydd Comisiynwyr etholedig yr Heddlu a Throseddu yn chwarae rôl allweddol.

Mae gan y Llywodraeth rôl hanfodol wrth gefnogi asiantaethau lleol er mwyn cwrdd â'r her hon ac er mwyn sicrhau bod gan asiantaethau a'r cyhoedd yr holl wybodaeth a phŵer angenrheidiol i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol unwaith ac am byth.

Yn gyntaf oll, **mae rhaid i asiantaethau lleol ganolbwyntio eu hymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol ar anghenion dioddefwyr** a byddwn yn eu cefnogi i wneud hwn gan:

- **Helpu asiantaethau i adnabod a chefnogi dioddefwyr mewn perygl uchel**, yn arbennig trwy'r gwaith rydym wedi'i wneud gydag wyth ardal i sicrhau bod yr heddlu a'u partneriaid yn cael pethau'n iawn cyn gynted ag y mae galwad yn dod i mewn a'u bod yn adnabod a rheoli dioddefwyr mewn perygl uchel yn effeithiol gan gymryd eu problemau o ddifri. Mae'r canlyniadau wedi bod yn galonogol, gyda lluoedd yn dangos gwasanaeth gwell i'r dioddefwr a dechrau symudiad o ran diwylliant, gyda thrafodwyr galwadau'n ymateb i anghenion y dioddefwr, yn hytrach na thicio blychau yn unig.

- **Rhoi mwy o ryddid i broffesiynwyr ar y rheng flaen**, yn atal rhag dweud wrth arbenigwyr sut i wneud eu swyddi ond eu cefnogi wrth iddynt ddefnyddio eu disgresiwn a synnwyr cyffredin, gan gynnwys defnyddio mesurau anffurfiol, er enghraifft yn defnyddio ymagweddau adferol neu atgyweiriol, neu Gontractau Ymddygiad Derbyniol ble fo'n briodol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y mesurau hyn yn gweithio i'r mwyafrif o dramgwyddwyr ac yn darparu gollyngdod cyflymach i ddioddefwyr. Byddwn yn annog asiantaethau i wneud mwy o ddefnydd ohonynt i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyflym ac effeithiol; a

- **Gwella ein dealltwriaeth o brofiadau dioddefwyr**, er enghraifft trwy wella'r ffordd y mesurir ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr Arolwg Troseddu i Loegr a Chymru[1] – yn symud i ffwrdd o fesur a seilir ar ganfyddiadau i un a seilir ar brofiad gwirioneddol pobl. Bydd hwn yn darparu darlun cywirach o'r hyn sy'n digwydd ar draws y wlad, a dealltwriaeth well o'r effaith mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei chael ar ansawdd bywyd dioddefwyr.

Yn ail, rydym am gefnogi pobl a chymunedau wrth sefydlu'r hwn sy'n dderbyniol a'r hwn nad yw'n dderbyniol yn lleol ac wrth ddal asiantaethau i gyfrif, ac rydym am helpu pobl i deimlo'n fwy grymus i wneud hynny trwy:

---

1 O'r blaen galwyd yr arolwg yr Arolwg Troseddu Prydain, a newidiwyd yr enw o 1 Ebrill 2012 er mwyn adlewyrchu cwmpas yr arolwg yn well.

- Roi'r pŵer i ddioddefwyr a chymunedau i sicrhau y cymerir camau gweithredu - yn rhy aml mae rhai dioddefwyr yn eu cael eu hunain yn symud o gwmpas mewn cylchoedd wrth geisio cael asiantaethau i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus. Er mwyn mynd i'r afael â hwn rydym yn cyflwyno'r Ysbardun Cymunedol, a fydd yn rhoi'r hawl i ddioddefwyr a chymunedau i fynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd ble nad aethpwyd i'r afael â phroblem barhaus. Rydym yn gweithio gyda Manceinion, Gorllewin Lindsey a Brighton a Hove er mwyn treialu'r ysbardun eleni; a

- Sicrhau ei fod yn haws i arddangos y niwed a achosir i ddioddefwyr a chymunedau gan ymddygiad gwrthgymdeithasol, er enghraifft trwy'r Datganiadau Niwed Cymunedol newydd a fydd yn sicrhau bod lleisiau cymunedau brawychedig yn cael eu clywed yn y llys gan hysbysu penderfyniadau asiantaethau ynghylch y camau gweithredu y dylent eu cymryd.

Yn drydydd, byddwn yn sicrhau bod gan broffesiynwyr y pwerau sydd eu hangen arnynt i ddelio â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus sy'n achosi niwed difrifol i ddioddefwyr neu eu cymuned gan:

- **Gyflwyno pwerau ffurfiol cyflymach, fwy effeithiol**. Ar gyfer yr unigolion nad ydynt yn ymateb i fesurau anffurfiol, neu sy'n achosi niwed difrifol, byddwn yn disodli 19 offeryn cyfredol gyda chwech yn unig, er mwyn rhoi i broffesiynwyr ar y rheng flaen lond llaw o bwerau cyflymach, fwy effeithiol i ddisodli'r pecyn cymorth chwyddedig a chymhleth sydd ganddynt yn awr. Bydd y pwerau newydd yn gwella gallu asiantaethau i ddelio ag unigolion gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus. Byddwn yn cyflwyno:

  – Gwaharddeb sifil y gall asiantaethau ei defnyddio ar unwaith er mwyn gwarchod dioddefwyr a chymunedau cyn bod unigolyn yn achosi niwed difrifol;

  – Gorchymyn llys newydd ar gyfer yr unigolion mwyaf gwrthgymdeithasol, ar gael ar ôl euogfarn, sy'n caniatáu i'r llysoedd fynnu iddynt roi terfyn ar eu hymddygiad ac yn mynd i'r afael â'i achosion sylfaenol;

  – Pwerau symlach i ddelio â throseddu 'ansawdd bywyd' ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac i gau safleoedd sy'n denu trafferth; a

  – Pŵer mwy effeithiol i'r heddlu i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus.

- **Cyflymu'r broses o droi allan tenantiaid gwrthgymdeithasol** - mae'r bygythiad o gael eich troi allan o dai gosod yn ysgogiad nerthol iawn i atal 'cymdogion hunllef' sy'n dinistrio bywydau'r bobl o'u cwmpas. Fodd bynnag tanseilir y bygythiad hwnnw gan broses a all gymryd llawer o fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd. Byddwn yn darparu llwybr cyflymach at droi allan ar gyfer yr ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol mwyaf difrifol, er mwyn dod â rhyddhad i ddioddefwyr a chymunedau yn gyflymach.

**Yn olaf, byddwn yn canolbwyntio ar ddatrysiadau hirdymor i ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy fynd i'r afael â'r** problemau sy'n gyrru llawer ohono yn y lle cyntaf - goryfed mewn pyliau, defnyddio cyffuriau, problemau ynghylch iechyd y meddwl, cefndiroedd teuluol trafferthus a pherchnogaeth anghyfrifol o gŵn.

# Cyflwyniad

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn derm llydan a ddefnyddir i ddisgrifio'r digwyddiadau ddydd-i-ddydd o droseddu, niwsans[2] ac anhrefn sy'n peri bod bywydau llawer o bobl yn y wlad hon yn ddiflas - o sbwriel a fandaliaeth, i feddwdod cyhoeddus neu gŵn ymosodol, i gymdogion swnllyd neu ddilornus. Mae'r fath amrediad eang o ymddygiadau'n golygu y rhennir cyfrifoldeb am ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol rhwng nifer o asiantaethau, yn arbennig yr heddlu, cynghorau a landlordiaid cymdeithasol.

Ceisiodd y Llywodraeth ddiwethaf fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Trwy fwy na deg darn gwahanol o ddeddfwriaeth, cyflwynon nhw lawer o bwerau newydd. Fodd bynnag, arweiniodd hyn at amrywiaeth o offer tebyg iawn yn cael eu datblygu i ddelio â phroblemau a oedd ond ychydig yn wahanol, gan greu pecyn cymorth chwyddedig sy'n gymhleth i ymarferwyr a'r cyhoedd ill dau.

Mae llawer o'r pwerau hyn wedi profi dros gyfnod o amser i fod yn araf ac aneffeithiol, ac erbyn hyn fe'u defnyddir llai a llai. Er enghraifft mae'r nifer o Orchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO's) a gyhoeddwyd wedi disgyn i 1,664 yn unig yn 2010 o gymharu â 4,122 yn 2005. A thorrir ar dros hanner yr ASBO's o leiaf unwaith, gyda 42% o'r rhain yn cael eu torri fwy nag unwaith. Mewn rhai ardaloedd lleol, mae'r ffocws yn ormod ar "reoli" unigolion sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol o hyd, yn hytrach na gweithio'n gyflym i atal problemau sy'n achosi niwed difrifol i ddioddefwyr. Fel y canfyddodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC), mae cylchoedd diddiwedd o gyfarfodydd partneriaeth a'r oedi canlynol yn golygu nad eir i'r afael ag anghenion dioddefwyr yn ddigon cyflym.

Er gwaethaf yr holl weithgarwch hwn, mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aros yn ystyfnig o uchel. Yn 2010/11, cofnodwyd 3.2 miliwn o ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan yr heddlu - sy'n debygol o fod yn bigyn y rhewfryn yn unig gan yr adroddir am lawer o ddigwyddiadau i asiantaethau eraill neu ddim o gwbl[3] Mae'n ddealladwy bod problemau'n mynd heb eu hadrodd o ystyried y diffyg blaenoriaeth mae rhai asiantaethau'n ei rhoi i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hwn wedi arwain at sefyllfa lle canfyddodd HMIC mai dim ond hanner y dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gymerodd ran yn eu harolwg oedd yn teimlo bod yr heddlu a'u partneriaid yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol yn effeithiol[4].

Mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig i ddiwygiad arwyddocaol o'r ffordd rydym yn delio â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae angen inni sicrhau y newidir yr ymagwedd tuag at ymddygiad gwrthgymdeithasol, er mwyn rhoi dioddefwyr wrth galon yr ymateb; nid targedau biwrocrataidd neu gyfarfodydd dibwrpas. Rydym am i'r ymateb gael ei yrru'n lleol, yn cael ei oruchwylio gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a etholir yn uniongyrchol. Er mwyn gwella'r ymateb rydym am weld:

- Asiantaethau'n adnabod dioddefwyr hyglwyf ac ad-ddioddefwyr yn gynt, ac yn ymateb ar yr awgrym cyntaf o drafferth, drwy gofnodi galwadau a rheoli achosion yn well.

- Pecyn cymorth symlach, ag 19 o bwerau wedi'u lleihau i chwech yn unig, yn cynnwys gwaharddeb y gellir ei chael mewn ychydig o oriau'n hytrach na misoedd, er mwyn atal yr ymddygiad cyn ei fod yn gwaethygu;

- Gorchmynion gwydn a all ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol os yw'n cynyddu i fod yn droseddoldeb, sy'n ddigon hyblyg i ddelio ag amrediad o ymddygiad hwliganaidd yn cynnwys cŵn afreolus, meddwdod cyhoeddus, mini-motos ac eraill;

- Y gymuned yn cael ei chynnwys wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, er enghriafft trwy gyfrannu at Ddatganiad ar Niwed Cymunedol er mwyn amlygu effaith yr ymddygiad ar eu bywydau dyddiol i'r llys; ac

2 Yma a thrwy gydol y ddogfen, rydym yn cyfeirio at ddiffiniad y geiriadur, yn hytrach na diffiniad cyfreithiol penodol o 'niwsans'. Er enghraifft, nid ydym yn golygu niwsans fel a ddiffinir yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

3 Arolwg Troseddu Lloegr a Chymru 2004/05 wedi'i adrodd yn Upson 200Y adroddiad y Swyddfa Gartref 21/06.

4 Plismona ymddygiad gwrthgymdeithasol: persbectif y cyhoedd. Adroddiad ymchwil wedi'i baratoi ar ran HMIC gan Ipsos MORI 2010.

- Asiantaethau'n cael eu dal i gyfrif yn lleol gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a etholir yn uniongyrchol, a gan ddioddefwyr trwy ein Ysbardun Cymunedol newydd.

Hefyd mae'r Papur Gwyn hwn yn amlygu uchafbwyntiau'r amrediad o waith sy'n cael ei wneud ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â gyrwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn cynnwys mynd i'r afael â goryfed mewn pyliau, cyffuriau a pherchenogaeth anghyfrifol o gŵn, yn ogystal â delio â phroblemau ynghylch iechyd y meddwl, a thrawsffurfio bywydau 120,000 o deuluoedd â thrafferthion. Hefyd mae'n crynhoi'r ymateb yn fanwl i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref llynedd ar bwerau newydd yn Atodiad A ac yn darparu manylion ar y ffordd rydym yn argymell cyflawni'r newidiadau ym mhennod dair ac Atodiadau B ac C.

# 1. Rhoi Dioddefwyr yn Gyntaf: Canolbwyntio'r ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol ar anghenion dioddefwyr

1.1 Mae'r Llywodraeth hon wedi cyflwyno'n glir ymagwedd newydd tuag at droseddu, plismona a diogelwch cymunedol, un a seilir ar newid sylfaenol o atebolrwydd biwrocrataidd i ddemocrataidd trwy Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a etholir yn uniongyrchol, fwy o dryloywder, a disgresiwn proffesiynol cynyddol. Mae'r bennod hon yn amlinellu sut mae'r Llywodraeth ganolog ac asiantaethau lleol yn atgyweirio'r holl system o ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) er mwyn rhoi anghenion dioddefwyr yn gyntaf.

1.2 Mae hwn yn nodi newid penderfynol o'r ymagwedd brig i lawr, cyfarwyddiadol yn y gorffennol. Nid yw'n gwneud synnwyr i swyddogion yn Whitehall benderfynu ar flaenoriaethau ASB lleol, neu a ddylai asiantaethau ymateb i broblemau penodol a sut y dylent wneud hwnnw. Yn yr un modd, mae gosod targedau bras i leihau ASB neu i ymateb i ddigwyddiadau o fewn cyfnod penodol o amser ar brydiau wedi achosi canlyniadau croes, ag asiantaethau'n canolbwyntio ar broblemau nad oeddynt yn flaenoriaeth i'r rheini a oedd angen help a gwarchodaeth fwyaf. Mae hwn wedi golygu bod rhai ardaloedd wedi methu adnabod anghenion dioddefwyr a'u bod wedi methu cymryd y camau gweithredu cywir er mwyn atal ymddygiad niweidiol yn gyflym ac effeithiol.

1.3 O ran yr ymddygiad ei hunan, bydd yr hwn a welir fel 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' yn amrywio fesul ddioddefwr a fesul gymdogaeth. Bydd yr ymateb cywir ym mhob achos yn dibynnu ar amrediad o ffactorau, ond yn bwysicach oll, ar anghenion y dioddefwr a'r effaith mae'r ymddygiad yn ei chael ar eu bywydau. O ganlyniad, mae angen i ddatrysiadau gael eu datblygu ar y cyd gan asiantaethau lleol, bob un â'i dealltwriaeth ei hunan o'r sefyllfa a chyd-destun, yn cydweithio gyda dioddefwyr a chymunedau. Mae rhaid i broffesiynwyr rheng flaen fod yn rhydd i ddefnyddio eu barn ynghylch y ffordd orau i gwrdd ag anghenion y dioddefwr a'r gymuned, yn hytrach na dilyn ymagwedd 'un maint yn addas i bopeth'.

.4 Mae, fodd bynnag, rôl hanfodol i'r Llywodraeth Ganolog wrth gefnogi ardaloedd ac asiantaethau lleol er mwyn lleihau ASB a gwarchod dioddefwyr. Mae rhagor y gallwn ei wneud ac y dylem ei wneud i hwyluso arloesi, ac i rannu enghreifftiau o'r hwn sydd wedi gweithio (a nad yw wedi gweithio) fel y gall pobl eraill ddysgu ganddynt. O Dachwedd 2012, bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a etholir yn uniongyrchol hefyd yn gallu adeiladu ar ein gwaith yn y maes hwn, yn rhannu llwyddiant ac arfer gorau o fewn ardaloedd eu lluoedd.

1.5 Mae'r bennod hon yn rhannu gwybodaeth am y ffyrdd gorau i adnabod a chefnogi dioddefwyr mewn perygl uchel ac arddangos effaith ASB ar fywydau pobl. Mae'n amlinellu'r hwn mae'r Llywodraeth ganolog yn ei wneud i ryddhau proffesiynwyr i gefnogi dioddefwyr yn gyflym ac effeithiol, yn cynnwys defnyddio ymagweddau anffurfiol fel Contractau Ymddygiad Derbyniol. Hefyd mae'n amlinellu'r ffordd rydym yn gwella'n dealltwriaeth o brofiadau dioddefwyr trwy wella'r ffordd y mesurir ASB yn Arolwg Troseddu Lloegr a Chymru.

## HELPU ASIANTAETHAU I ADNABOD A CHEFNOGI DIODDEFWYR MEWN PERYGL UCHEL.

1.6 Mae gan y Llywodraeth rôl bwysig wrth gefnogi a helpu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a etholir yn uniongyrchol ac asiantaethau lleol i weithio'n fwy effeithiol. Rydym yn gwneud hwn mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft trwy gefnogi Gwobrau Tilley sy'n cydnabod prosiectau lleol arloesol; lansio hwb 'Arfer Effeithiol' newydd ar wefan y Swyddfa Gartref er mwyn helpu asiantaethau lleol i rannu syniadau; a defnyddio ymagweddau newydd i dreialu ffyrdd newydd o weithio. Mae'r adran hon yn amlinellu ffyrdd effeithiol i adnabod a chefnogi dioddefwyr sydd mewn perygl uchel o ASB, er mwyn helpu sicrhau yr adnabyddir dioddefwyr yn gynnar ac y'i gwarchodir yn gyflym.

## Adnabod a chefnogi dioddefwyr mewn perygl uchel: Treialon trafod galwadau ASB a rheoli achosion

1.7 Mae ASB ailadroddus neu a dargedir yn achosi gofid i fywydau pobl. Ac, fel a ddangoswyd gan achosion diweddar, gall ymateb sy'n diystyru pryderon, yn trosglwyddo cyfrifoldeb rhwng asiantaethau, neu nad yw'n ymgyfuno achosi canlyniadau trasig. Mae angen i'r heddlu ac eraill gael hwn yn iawn ar y cyfle cyntaf. Fodd bynnag, dangosodd adroddiad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn 2010 mai ond ychydig o luoedd oedd wedi trefnu systemau cywir, ac felly mae'r Llywodraeth hon wedi treialu ffyrdd newydd i sicrhau y cymerir y mesurau cywir, syml, ymarferol. Mae hwn yn nodweddiadol o'n ffocws ar symud i ffwrdd o fentrau sy'n gafael yn y penawdau ac yn lle rydym yn gweithio gydag arbenigwyr ar y manylion ynghylch yr hyn sy'n gweithio.

1.8 Gweithion ni gydag wyth heddlu[5] a'u partneriaid lleol, a wirfoddolodd i drealu ffyrdd newydd i drafod galwadau ASB gan y cyhoedd. Mae'r treialon wedi profi ffyrdd i adnabod dioddefwyr hyglwyf yn gynt, a dod ag asiantaethau ynghyd er mwyn rheoli achosion o risg uchel trwy gyflwyno pump egwyddor, a amlinellir yn fanylach yn y blwch isod. Bwriadwyd yr egwyddorion hyn i ganolbwyntio ymateb asiantaethau ar adnabod ac atal niwed i'r dioddefwr neu gymuned, yn hytrach nag ar gategoreiddio'r ymddygiad ei hunan. Er mwyn sicrhau bod y treialon yn wirioneddol 'gwaelod i fyny', rhoddwyd hyblygrwydd llwyr i'r cyfranogwyr i weithredu'r pump egwyddor mewn ffordd a oedd yn addas i'w hamgylchiadau, ac i addasu eu hymagwedd yn ystod y treialon mewn ymateb i faterion neu broblemau a oedd yn datblygu.

1.9 Mae'r canlyniadau o'r heddluoedd wedi bod yn galonogol, a chyhoeddwyd y casgliadau mewn adroddiad yn Ebrill 2012[6]. Mae'r heddluoedd a oedd yn cymryd rhan wedi adrodd am adnabod dioddefwyr yn well, gweithio'n agosach ag asiantaethau lleol eraill wrth ddelio â'r achosion risg uchel hynny a gwasanaeth gwell i ddioddefwyr. Fodd bynnag mae rhai wedi nodi bod tuedd o hyd ymhlith rhai swyddogion i danbrisio difrifoldeb potensial ASB. Mae o hyd rhagor i'w wneud i sicrhau bod yr heddlu, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill yn rhoi'r dioddefwr wrth galon eu hymateb, ond mae'r ymagwedd newydd yn y treialon ynghylch trafod galwadau – ble gyrrirr yr ymateb gan asesiad o niwed i'r dioddefwr, yn hytrach nag ymagwedd ticio-blychau tuag at gategoreiddio – yn cynnig camau diriaethol tuag at wneud felly.

5 Avon a Gwlad yr Haf, Swydd Caergrawnt, Swydd Gaerlŷr, Swydd Lincoln, y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, Heddlu De Cymru, Sussex, a Gorllewin Mersia

6 Ffocws ar y dioddefwyr: Adroddiad cryno ar y treialon Trafod Galwadau ASB:www.homeoffice.gov.uk/publications/crime/asb-focus-on-the-victim

**Ffocws ar y dioddefwr: ymagwedd newydd tuag at ddelio ag achosion o ASB.**

Canolbwyntiodd y treialon ynghylch trafod galwadau a rheoli achosion ar gyflwyno bump egwyddor allweddol i'r heddluoedd i gyd. Seiliwyd yr egwyddorion hyn ar adolygiad o ardaloedd lleol a gydnabyddwyd fel rhai a oedd yn darparu gwasanaeth ardderchog i ddioddefwyr ASB, a'r hwn roeddynt yn ei wneud yn wahanol i'r gweddill.

1. Meddu ar system effeithiol o drafod galwadau ar gyfer digwyddiadau ASB, a allai gofnodi gwybodaeth o'r cyswllt cyntaf er mwyn adnabod ad-alwyr ac amlygu achosion risg uchel.

2. Asesu'r risgiau posibl i ddioddefwyr yn gynnar yn y broses o ddelio â galwadau;

3. Defnyddio TG syml, oddi ar y silff i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau lleol a galluogi dull mwy diwnïad o amddiffyn dioddefwyr sydd mewn perygl;

4. Sicrhau bod gan bob asiantaeth sy'n delio ag ASB mewn ardal set o egwyddorion a rennir ynghylch rheoli achosion.

5. Cynnwys pobl leol yn weithgar er mwyn dynodi'r problemau sy'n achosi mwyaf o niwed i unigolion a chymunedau.

O ran system i drafod galwadau'n effeithiol, er bod gan yr holl heddluoedd wahanol ymagweddau tuag at gasglu a rheoli gwybodaeth, roedd yn drawiadol mor syml oedd angen i'r newidiadau gweithdrefnol fod er mwyn gallu adnabod dioddefwyr ailadroddus a hyglwyf. Y cyfan sydd angen i drafodwyr galwadau ei wneud, yw dargandod gan bob galwr:

- Pwy sy'n ei wneud?
- Beth maent yn ei wneud??
- Pam maent yn ei wneud?
- A yw hwn wedi digwydd o'r blaen?
- Pa effaith mae'n ei chael arnoch?

Mae'r cwestiynau hyn, neu fersiwn ohonynt, yn darparu ymagwedd syml ac ysgafn tuag at asesu risg, yn lleihau biwrocratiaeth ac yn mynd yn syth at galon y broblem yn gyflym. Er enghraifft, gan fod graddfeydd adrodd ar gyfer ASB yn isel, mae llawer o bobl eisoes yn ddioddefwyr ailadroddus y tro cyntaf maent yn galw am help. Yn ychwanegol, targedir rhai pobl oherwydd pwy ydynt, ac mae'r ail gwestiwn yn galluogi trafodwr y galwad i ganfod hwn.

Y peth allweddol arall y dylai heddluoedd ei wneud yw sicrhau y cofnodir pob adroddiad, ai i swyddog ar ei rownd, dros y ffôn trwy 101 neu 999, neu i staff yn yr orsaf heddlu, fel y gellir rhannu'r wybodaeth a gweithredu'n gywir. Heb hwn, gallai unigolion barhau i adrodd mewn ffyrdd gwahanol, â chamau gweithredu anghywir, aneffeithiol neu ynysig yn cael eu cymryd mewn ymateb bob tro.

1.10 Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) i annog pob un o'r 43 llu heddlu yng Nghymru a Lloegr i ddefnyddio adroddiad cryno'r Swyddfa Gartref a'r wyth adroddiad ar dreialon i ddatblygu eu hymateb ymhellach i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol bregus a mynych. Hefyd mae HMIC wedi ailadrodd ei archwiliad ASB o'r holl 43 llu heddlu yng Nghymru a Lloegr eleni a dylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi cyn bo hir. Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio yn arbennig ar y gwasanaeth i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol mynych a bregus, a danlinellwyd eto yng ngwaith diweddar yr Arolygiaeth ar gofnodi troseddau. I heddluoedd nad ydynt yn gwneud digon yn y maes hwn o hyd, mae'r adroddiad ar drafod galwadau'n darparu tystiolaeth a gwybodaeth werthfawr ynghylch yr hwn sydd wedi gweithio mewn ardaloedd eraill, a'r hwn nad yw wedi gweithio, er mwyn eu helpu i newid diwylliant ac agweddau tuag at dioddefwyr ASB.

### Astudiaeth achos: Rhoi anghenion dioddefwyr wrth galon ymatebion asiantaethau yn Sussex

Mae'r achos hwn yn ymwneud gweithredoedd o ymddygiad gwrthgymdeithasol tuag at grŵp o hen wragedd oedd yn 91, 82, a 65 oed a oedd i gyd yn gymdogion mewn ffordd dawel. Cychwynnodd y problemau pan wnaeth grŵp o bump o bobl ifanc lleol gerdded heibio un o'r tai a difrodi'r rhosod oedd yn tyfu yng ngardd un o'r gwragedd, wrth ochr y llwybr troed. Heriodd hi'r bobl ifanc, a gofyn iddynt beidio â gwneud hwnnw, oherwydd bod y rhosod wedi eu plannu gan ei gŵr oedd wedi marw ers hynny. Bu'r bobl ifanc yn ymosodol tuag ati, a'r digwyddiad hwn oedd y catalydd ar gyfer yr hyn a ddigwyddodd dros y dyddiau wedyn. Fe wnaeth y bobl ifanc wedyn ddod yn ôl dros y dyddiau nesaf, gan daflu pethau at y tai, difrodi'r addurniadau yn yr ardd ac achosi rhagor o ddifrod i flodau.

Fe wnaeth un o'r bobl ifanc hefyd fygwth "rhoi'r tŷ ar dân", a "llosgi'r dioddefwr wrth bolyn", Fe wnaeth swyddogion y Tîm Plismona Cymdogaeth lleol (NPT) ddynodi yn gyflym bod hyn yn erlid mynych ar bobl fregus ac fe wnaethant ymweld â nhw i gyd, cwblhawyd asesiad risg YGG oedd yn sgorio yn uchel, ac fe wnaeth y swyddogion gychwyn ymchwiliad a rhoi camau diogelu yn eu lle. Fe wnaed yr ardal yn "weithgaredd patrolio dan gyfarwyddyd" i gynyddu gweithgaredd heddlu ar amseroedd allweddol. Y diwrnod canlynol fe wnaeth y bobl ifanc ddychwelyd eto ac achosi rhagor o broblemau, ond y tro hwn fe wnaeth arwain at weld un o'r dioddefwyr yn cael trawiad ar y galon, ac un arall yn cael poenau yn ei brest. Fe wnaeth ambiwlans wedyn fynd yno a mynd ag un o'r dioddefwyr i'r ysbyty. Fe wnaeth swyddogion NPT gyrraedd yn gyflym yno a chadw'r ddau dan amheuaeth gerllaw oedd yn ffitio'r disgrifiad a wnaeth gyfaddef eu bod wedi bod â rhan yn y digwyddiad. Wrth gael eu holi, ac wrth sylweddoli pa mor ddifrifol oedd eu hymddygiad fe wnaethant enwi'r tri unigolyn ifanc arall a oedd wedi cymryd rhan.

Roedd tystiolaeth glir bod yr ymddygiad wedi effeithio ar les corfforol a meddwl y preswylwyr yma a oedd wedi eu dychryn yn fawr gan yr hyn oedd wedi digwydd. Roedd un o'r dioddefwyr wedi tapio'i blwch llythyrau a chloi ei giât oherwydd ofnau am ei diogelwch.

Trefnwyd cyfarfod yn gyflym, a daeth asiantaethau gwahanol yno, a chytunwyd ar nifer o gamau fel rhan o'r cynllun diogelwch. Roedd hyn yn cynnwys cyngor ar atal troseddau, systemau larwm, a dull o ddiogelu blychau llythyrau rhag tân. Arestiwyd y pump oedd dan amheuaeth, yn 14 - 16 oed, a rhoddwyd cyfweliad iddynt ac fe gawsant fechniaeth amodol gan yr heddlu i ddiogelu'r dioddefwyr. Yn dilyn hyn cyhuddwyd tri o'r rhai dan amheuaeth am aflonyddu (maent yn aros am yr achos llys ar hyn o bryd), a derbyniodd un rybudd terfynol.

Fe wnaeth ymyrraeth gyflym yr heddlu wrth ddynodi hwn yn achos risg uchel, cefnogi'r dioddefwyr, a dynodi ag ymdrin â'r tramgwyddwyr, atal unrhyw ddigwyddiadau eraill rhag digwydd ac i'r mater waethygu gyda chanlyniadau mwy trasig.

Mae swyddogion lleol yn cadw cysylltiad cyson gyda'r dioddefwyr, a wnaeth anfon cerdyn diolch yn ddiweddar i'r holl swyddogion a gymerodd ran am yr help a'r gefnogaeth y gwnaethant eu rhoi iddynt wrth drin y digwyddiadau.

## Adnabod a chefnogi dioddefwyr mewn perygl uchel: cefnogi asesiadau cynnar o risg

1.11 Yn ychwanegol at y treialon ynghylch trafod galwadau, hefyd mae gwaith wedi bod ym mhob heddlu i newid yr ymagwedd tuag at gofnodi digwyddiadau ASB. Yn y gorffennol cafodd ASB ei gategoreiddio yn ôl 14 categori gwahanol (er enghraifft problemau ag anifeiliaid, cerbydau gadawedig, cardota/crwydradaeth ac yn y blaen). Roedd hwn yn annog trafodwyr galwadau a thimau ymateb i ganolbwyntio ar yr hwn oedd y digwyddiad, yn hytrach na'r effaith roedd yn ei chael ar y dioddefwr. Yn ychwanegol, yn ddiweddar edrychodd HMIC ar y ffordd roedd yr heddlu'n cofnodi digwyddiadau o ASB[7] gan ganfod bod y ffordd o gofnodi troseddau'n codi o ddigwyddiadau ASB yn amrywio rhwng lluoedd. Gall methiant i adnabod troseddau'n gywir, pan y'i cyfunir â methiant i adnabod

7 HMIC 'Safle'r Trosedd' 2012.

dioddefwyr hyglwyf neu ailadroddus, olygu nad yw dioddefwyr yn cael yr ymateb sy'n addas i'w sefyllfa, gan barhau i ddioddef.

1.12 Er mwyn mynd i'r afael â hwn arweiniodd ACPO, ar y cyd ag Asiantaeth Gwella Plismona Cenedlaethol (NPIA), arolwg o'r ffordd y categoreiddir ASB yn 2010. Yn sgil yr adolygiad hwnnw, symleiddiwyd y ffordd o gofnodi digwyddiadau ASB a newidiwyd y pwyslais o gategoreiddio digwyddiadau i adnabod effaith yr ymddygiad er mwyn adnabod galwyr hyglwyf neu risg uchel. Erbyn hyn dylai heddluoedd ddefnyddio tri chategori'n unig - amgylcheddol, niwsans cyhoeddus a bygythiad personol - gan ei wneud yn rhwyddach i ganolbwyntio ar yr effaith ar y dioddefwr ac i benderfynu ar yr ymateb priodol.

1.13 Ers Ebrill 2011 mae hwn yn golygu mai prif nod y system newydd yw sicrhau yr asesir pob digwyddiad o ran risg ar y cyfle cyntaf, yn arwain at ymateb priodol ac yn ei wneud yn rhwyddach i aseinio asiantaeth arweiniol i achos yn gyflym. Gyda'r wybodaeth o'r treialon ynghylch trafod galwadau, bydd y system newydd hon yn sicrhau bod lluoedd yn canolbwyntio ar anghenion y dioddefwr ar y cychwyn.

## Adnabod a chefnogi dioddefwyr mewn perygl uchel: Cynadleddau Asesiad Risg Amlasiantaethol ASB (MARACs)

1.14 Fel mae nifer o achosion trasig wedi ei arddangos, mae gweithio cydgysylltiedig ar draws asiantaethau a rhannu effeithiol o wybodaeth yn hanfodol wrth ddarparu ymateb effeithiol ar gyfer dioddefwyr. Yn rhy aml, gall rhwystrau rhwng asiantaethau (e.e. o ganlyniad i wahanol systemau o TG, rhannu gwael o wybodaeth neu leoliadau gwahanol) achosi camau gweithredu anhrefnus nad ydynt yn delio â'r broblem yn effeithiol nag yn cefnogi'r dioddefwr. Mae'r treialon a amlinellir uchod yn un ffordd i fynd i'r afael â'r problemau hyn, fel y bydd yr Ysbardun Cymunedol newydd a amlinellir yn y bennod nesaf.

1.15 Trydedd ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r problemau hyn yw trwy reoli achosion yn effeithiol trwy MARACs. Mae'r rhain yn sesiynau â gogwydd at weithredu ble mae asiantaethau'n dod ynghyd er mwyn cytuno ar dasgau penodol i helpu gwarchod y bobl fwyaf hyglwyf ac atal ASB. Ar y cychwyn fe'u datblygwyd fel ffordd i ddelio â thrais domestig, ble roedd asiantaethau gwahanol yn debygol o fod yn gysylltiedig â chefnogi un teulu. Erbyn hyn mae nifer o ardaloedd wedi sylweddoli am eu buddion wrth helpu dioddefwyr risg uchel neu hyglwyf oherwydd, er enghraifft, ASB neu droseddau casineb. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys Blackpool, Manceinion Fwyaf ac Ealing, yn ogystal ag Avon a Somerset a Sussex (yn Brighton a Hove) a ddefnyddiodd yr ymagwedd hwn fel rhan o'r treialon ynghylch trafod galwadau. Rydym am annog mwy o ardaloedd i ddefnyddio'r ymagwedd hwn wrth reoli achosion. Er enghraifft rydym wedi eu hyrwyddo trwy'r adroddiad ar drafod galwadau a byddwn yn parhau i arddangos eu buddion i ardaloedd trwy ein gwaith i amlygu arfer effeithiol.

**Astudiaeth achos: Mynd i'r afael â risg, niwed a hyglwyfder - ASB a MARACs troseddau casineb yn Brighton a Hove.**

Mae Cyngor Dinas Brighton a Hove wedi sefydlu ffordd newydd i reoli ei ymateb aml-asiantaeth i ddioddefwyr mwyaf hyglwyf troseddu, troseddau casineb ac ASB. Nod y broses newydd oedd troi'r cyfarfod ASB rheolaidd yn sesiwn 'gosod tasg' oedd yn canolbwyntio ar y dioddefwr, yn seiliedig ar fodel trais domestig MARAC. Yr asiantaethau a gynhwysir yw diogelwch y gymuned, iechyd yr amgylchedd (tîm sŵn), heddlu'r gymdogaeth, tai cyngor, ymyriad teuluol, darparwyr tai, gwarchod oedolion/gofal cymdeithasol a throseddau ieuenctid.

Yn y cyfarfodydd misol hyn, yn ychwanegol at ganolbwyntio ar gamau gorfodi, mae swyddogion yn edrych yn fanwl ar y deg dioddefwr risg uchaf neu fwyaf hyglwyf (fel sy'n cael eu adnabod ar draws yr holl asiantaethau). Mae'r cyfarfodydd yn gyfle i asesu ac adolygu'r hyn sy'n digwydd ar gyfer y deg unigolyn hynny, gyda'r angen i bob partner fod yn glir ynghylch y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd yn gasgliadol ac yn unigol er mwyn lleihau'r niwed i'r person neu gartref hwnnw. Cefnogir hwn gan system newydd i reoli achosion a seilir ar y rhyngrwyd sy'n galluogi asiantaethau i rannu gwybodaeth yn gyflym, i fod yn glir ynghylch pa wahanol ymyriadau a ddefnyddiwyd a pha mor effeithiol mae'r rhain wedi bod. Mae'r cyfarfod yn dal asiantaethau i gyfrif a'r amcan yw lleihau'r lefelau o niwed a risg drwy gamau gweithredu cydgysylltiedig a chefnogaeth i ddioddefwyr.

Fel un enghraifft, amlygodd cymydog dyn oedrannus gyfres o broblemau ynghylch sŵn ac ASB yn ei gyfeiriad. Datgelodd gwiriadau pellach ac ymchwiliad byr fod y tramgwyddwr yn ddyn 77 oed a oedd yn byw ar ei hunan. Darganfyddwyd fod merch tenant cymdeithas tai yn yr un stryd a'u ffrindiau wedi bod yn camfanteisio ar ei arwahanrwydd trwy ddefnyddio ei gyfeiriad fel rhywle i gymryd cyffuriau ac fel tŷ i gynnal parti, a oedd yn achosi amrediad o bryderon ynghylch ASB i breswylwyr.

Cynhaliwyd asesiad hyglwyfder a amlygodd y dyn fel rhywun mewn perygl mawr. O ganlyniad sefydlwyd amrediad o ymyriadau a oedd yn cynnwys y darparwr tai (yn cynnwys rhybuddion ynghylch camau gweithredu tenantiaeth posibl yn erbyn tenant y gymdeithas tai), heddlu'r gymdogaeth, diogelwch y gymuned a chrëwyd rhybudd gwarchod i berson hyglwyf. O ganlyniad, newidiwyd cloeon ac erbyn hyn mae'r ferch wedi stopio mynd i'r tŷ. Erbyn hyn mae'r mater wedi'i israddio i risg ganolig ond mae 'n parhau i gael ei fonitro gan asiantaethau.

## RHYDDHAU PROFFESIYNWYR I GEFNOGI DIODDEFWYR YN GYFLYM

1.16 Ar ôl i ddioddefwyr ASB gael eu hadnabod yn iawn, mae'n bwysig ein bod yn caniatáu'r rhyddid angenrheidiol i broffesiynwyr iddynt weithredu'n gywir er mwyn atal tramgwyddwyr. Er mwyn gwneud hwn, rydym wedi cael gwared ar dargedau, cynlluniau gweithredu a safonau lleiaf canoledig a fandadwyd o'r canol ar ASB, fel y gall anghenion dioddefwyr mewn ardal leol yrru gweithredoedd asiantaethau lleol, yn hytrach na swyddogion yn Whitehall.

1.17 Rydym am gefnogi proffesiynwyr yn eu penderfyniadau ar y ffordd i ddelio ag unigolion gwrthgymdeithasol er mwyn gwarchod dioddefwyr trwy roi tystiolaeth iddynt ar yr hyn sy'n gweithio. Adnabyddodd ymchwil ddiweddar a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref[8] ddau fath o dramgwyddwr: grŵp mwy yr oedd ei ASB yn 'drosiannol', wedi'i gyflawni pan oedd yr unigolyn yn ymaddasu i newid penodol yn ei fywyd (e.e. llencyndod, symud allan o gartref ei deulu, yn sgil ysgariad)); a'r rheini yr oedd eu hymddygiad yn barhaus a 'sefydlog', yn rhannol o ganlyniad i ffactorau gwaelodol fel camddefnyddio sylweddau, problemau ynghylch iechyd y meddwl neu gefndir teuluol camweithredol.

8 Clarke et al. 2011. Disgrifio ac asesu ymyriadau er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

1.18 Mae tystiolaeth yn dangos bod ymyriad cynnar, ymyriadau anffurfiol, fel trwy ymagweddau adferol ac atgyweiriol, yn llwyddiannus wrth atal yr ASB a gyflawnir gan y mwyafrif mawr o dramgwyddwyr. Er enghraifft, dangosodd arolwg HouseMark diweddar fod 76% o achosion ASB a drafodir gan landlordiaid cymdeithasol wedi'u datrys trwy ymyrraeth gynnar[9]. Un offeryn y gellir ei ddefnyddio'n gynnar yw Contract Ymddygiad Derbyniol (yn adnabyddus hefyd fel Cytundeb Ymddygiad Derbyniol) sy'n cael yr unigolyn i gydnabod eu hymddygiad a'i effaith ar ddioddefwyr, gyda'r nod o'i atal yn gyflym. Mae Contractau Ymddygiad Derbyniol yn gytundebau anffurfiol, gwirfoddol rhwng unigolyn sydd wedi cyflawni ASB, ac asiantaeth leol (ac ar brydiau'n cynnwys y gymuned leol hefyd)). Ar ben hynny, gall rhybuddion llafar neu ysgrifenedig fod yn effeithiol iawn wrth atal pobl rhag ymddwyn yn wrthgymdeithasol ar gam cynnar.

1.19 Trwy roi modd i broffesiynwyr herio pob math o ymddygiad annerbyniol ar unwaith, yn hytrach na mynd trwy broses ffurfiol yn y llys, gall yr offer anffurfiol hyn sefydlu safonau clir o ymddygiad gan atgyfnerthu'r neges na ddioddefir ASB. Mewn llawer o achosion, gall ymwybyddiaeth o effaith yr ymddygiad ar eu cymdogion, a'r bygythiad o offer gorfodi mwy ffurfiol, fod yn ddigon o anogaeth i unigolyn newid ei ymddygiad. Mae rhaid i ardaloedd lleol benderfynu ar bryd a sut i ddefnyddio'r ymagweddau hyn, nid Whitehall, ond hoffem annog proffesiynwyr i ddefnyddio dulliau anffurfiol ble maent yn ystyried eu bod yn briodol.

1.20 Mae'n llawer anos i atal yr ail fath o dramgwyddwr sy'n cyflawni ASB - er enghraifft, canfyddodd ymchwil y Swyddfa Archwilio Genedlaethol na fyddai 7% yn rhoi'r gorau hyd yn oed ar ôl tri ymyriad.[10]. Mae angen am bwerau gwydn ac effeithiol i'r unigolion hyn roi'r gorau i'w hymddygiad yn gyflym, ac i fynd i'r afael ag achosion craidd eu problemau. Dyma un o'r problemau allweddol ynghylch y pwerau ffurfiol cyfredol gan eu bod yn gosod amodau llym i atal ASB yn y dyfodol, heb fynd i'r afael ag achosion gwaelodol. Efallai fod hwn yn egluro i raddau pam bod graddfa uchel o doriadau ar gyfer ASBOs, yn dangos nad yw'r offer hyn yn newid ymddygiad ac felly'n methu gwarchod dioddefwyr a chymunedau ill dau yn yr hirdymor. Dyma rywbeth rydym yn ei drafod yn ein diwygiadau, a amlinellir ym mhennod tri ac Atodiad B.

## GWELLA EIN DEALLTWRIAETH O ANGHENION DIODDEFWYR

1.21 Er mwyn gallu rhoi dioddefwyr yn gyntaf, mae angen inni ddeall mwy am ddioddefwyr ASB, a'r effaith mae ASB yn ei chael ar eu bywydau. Mae rhan o hwn yn amlwg ond mae canlyniadau eraill sydd efallai'n fwy syfrdanol. Gwyddom fod rhai pobl sy'n fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr: bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol llai cefnog yn arbennig y rheini sy'n byw mewn tai cymdeithasol; a phobl sy'n adrodd am anabledd a chyflwr iechyd hirdymor. Ond, er gwaethaf canfyddiadau cyffredin, mae pobl ifanc yn llawn mor debygol â phobl henach i adnabod ASB fel problem leol[11].

1.22 Mae deall dioddefwyr, a'r niwed mae ASB yn ei achosi, yn hanfodol os yw asiantaethau'n mynd i ymateb yn y ffordd iawn, gan atal y broblem yn gyflym ac effeithiol. Fodd bynnag, ni ellir mesur profiad o ASB yn rhwydd yn yr un ffordd â phrofiad o droseddu, gan nad yw'n bosibl ar brydiau i bennu pwy yw'r 'dioddefwr' (gan mai'r gymuned gyfan, efallai, yw'r dioddefwr) nag i adnabod un 'digwyddiad' penodol. O ganlyniad, mae Arolwg Troseddu Lloegr a Chymru[12] (CSEW) wedi mesur canfyddiadau o ASB ers nifer o flynyddoedd, yn defnyddio cwestiynau 'dirprwy' ynghylch faint o broblem yw amrediad o wahanol fathau o ymddygiad yn yr ardal leol (er enghraifft, 'pobl yn eu harddegau yn loetran ar y strydodd' neu 'geir gadawedig').

1.23 Rhwystrir ein dealltwriaeth o anghenion dioddefwyr gan y ffaith nad yw'r cwestiynau hyn yn darparu gwybodaeth fanwl am brofiad gwirioneddol dioddefwyr ASB. Er mwyn trafod hwn, rydym wedi datblygu a pheilota cwestiynau newydd a gynhwyswyd yn y CSEW o Ebrill 2012. Mae'r rhain yn archwilio i brofiadau gwirioneddol y cyhoedd

9 Housemark, arolwg meincnodi ASB 2009/10
10 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Y Swyddfa Gartref: Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2006.
11 Wedi'i gymryd o ymchwil a gynhaliwyd ar ran HMIC gan Brifysgol Caerdydd (yn adeiladu ar ddata Arolwg Troseddu Lloegr a Chymru): Ailfeddwl ynghylch plismona ymddygiad gwrthgymdeithasol (Innes a Weston, 2010).
12 O'r blaen galwyd yr arolwg yr Arolwg Troseddu Prydain, a newidiwyd yr enw o 1 Ebrill 2012 er mwyn adlewyrchu cwmpas yr arolwg yn well.

ynghylch ASB. Bydd y cwestiynau newydd yn darparu ffynhonnell well o wybodaeth gyd-destunol ar brofiadau pobl ynghylch ASB, eu rhyngweithio gyda'r heddlu ac awdurdodau lleol a'r effaith mae'r ymddygiad yn ei chael ar ansawdd eu bywydau. Bydd hwn yn helpu asiantaethau lleol i ddeall yn well y problemau yn eu hardaloedd a sut i addasu eu gwasanaethau er mwyn cwrdd ag anghenion eu cymunedau, a chaniatáu i'r cyhoedd a Chomisiynwyr Yr Heddlu a Throseddu a etholir yn uniongyrchol i'w dal i gyfrif.

1.24 Bydd canlyniadau o'r 12 mis cyntaf o gyfweliadau ar gael i'w cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2012. Erbyn hyn trosglwyddwyd cyfrifoldeb am gyhoeddi Ystadegau Troseddu i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a byddant yn ystyried pryd a sut y cyhoeddir y fath ddata.

## CRYNODEB:

Y pwynt cychwyn ar gyfer ein holl weithredoedd yma, a thrwy gydol y Papur Gwyn, yw **sicrhau bod asiantaethau ac unigolion i gyd yn canolbwyntio ar anghenion dioddefwyr**. Dyma'r newid mawr i sicrhau yr ymdrinir ag ASB yn fwy effeithiol, gydag asiantaethau'n edrych ar anghenion dioddefwyr yn hytrach na bod Whitehall yn penderfynu ar eu hymateb.

Yn arbennig, byddwn yn sicrhau bod ein hymagwedd at fynd i'r afael ag ASB yn canolbwyntio ar anghenion dioddefwyr trwy:

- Sicrhau bod asiantaethau'n adnabod dioddefwyr hyglwyf ac ailadroddus o ASB yn gyflymach trwy welliannau wrth drafod galwadau, rheoli achosion, cofnodi digwyddiadau ac annog asiantaethau i fabwysiadu'r model MARAC er mwyn rhoi'r dioddefwr wrth galon y broses;
- Rhoi mwy o ddisgresiwn i broffesiynwyr i allu ymateb i anghenion y dioddefwr yn y ffordd fwyaf priodol trwy gael gwared ar dargedau a safonau lleiaf a yrrir o'r canol, a rhannu tystiolaeth ar effeithiolrwydd offer anffurfiol fel Contractau Ymddygiad Derbyniol; a
- Rhoi i ardaloedd lleol well ddealltwriaeth o brofiad dioddefwyr ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy gyflwyno cwestiynau newydd i Arolwg Troseddu Lloegr a Chymru.

# 2. 2.Grymuso cymunedau: Amddiffyn dioddefwyr

2.1 Mae unigolion a chymunedau eu hunain yn gwybod yn union pa broblemau maent yn eu hwynebu, ac felly yn aml gallant fod yn effeithiol iawn wrth sefydlu'r hwn sy'n dderbyniol neu beidio yn eu cymdogaeth, ac wrth herio ymddygiad sy'n croesi'r llinell. Rydym am wneud popeth o fewn ein gallu i ddatganoli rheolaeth o wasanaethau cyhoeddus i unigolion a chymunedau, a'u cefnogi wrth ddal yr asiantaethau amrywiol i gyfrif. O ganlyniad, mae'r bennod hon yn amlinellu amrediad o fentrau i helpu dioddefwyr, cymunedau a busnesau wrth iddynt ymgysylltu â thrafod y problemau sy'n bwysig iddynt. Hefyd mae'n amlinellu ein cynigion polisi terfynol ar Ysbardun Cymunedol newydd, a fydd yn gweithredu fel ôl-stop i sicrhau nad anwybyddir dioddefwyr a chymunedau hyd yn oed ar ôl i ymagweddau sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr gael eu trefnu.

## RHOI'R HAWL I DDIODDEFWYR A CHYMUNEDAU FYNNU BOD ASIANTAETHAU'N GWEITHREDU.

2.2 Bydd adnabod a chefnogi dioddefwyr a galluogi cymunedau yn helpu wrth sicrhau bod asiantaethau'n ymateb yn effeithiol i'w hanghenion. Mae llawer o heddluoedd, cynghorau a darparwyr tai eisoes yn gweithio'n galed i ddelio â'r problemau sydd o bwys mawr yn lleol, ond mae gormod o straeon arswyd o hyd ynghylch dioddefwyr yn adrodd am yr un problem drosodd a thro, heb gael ymateb. Gall y problemau hirdymor yma - a'r ymdeimlad o ddiymadferthedd sy'n dod gyda nhw - ddinistrio ansawdd bywyd y dioddefwr a chwalu ymddiriedaeth cymuned yn yr heddlu ac asiantaethau eraill. Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o roi'r pŵer i'r cyhoedd iddynt orfodi asiantaethau i'w cymryd o ddifri.

2.3 Dyna pam rydym wedi cynnig cyflwyno Ysbardun Cymunedol fel rhan o'n diwygiadau i'r offer ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddai'r ysbardun yn rhoi'r hawl i ddioddefwyr a chymunedau i fynnu bod asiantaethau a oedd wedi anwybyddu cwynion ailadroddus am ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) yn gweithredu. Cytunodd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod angen i asiantaethau wneud mwy i amddiffyn dioddefwyr ailadroddus neu hyglwyf o ASB. Dywedodd 41% o'r cyhoedd, yr union bobl mae hwn wedi'i anelu at eu cefnogi, y byddai'r ysbardun yn gwella'r ffordd y trafodir ASB yn eu hardal, o gymharu ag 16% yn unig a oedd yn meddwl y byddai'n peri i bethau waethygu. Fel y sylwodd un aelod o'r cyhoedd:

> "Y maint o atebolrwydd a warantir gan yr ysbardun yw elfen fwyaf derbyniol y cynigion newydd i gyd. Yn awr gorfodir yr Heddlu ac awdurdodau lleol i weithredu ynghylch ceisiadau rhesymol gan y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Credaf y bydd y ffaith bod y cyhoedd yn gwybod bod rhywun yn gwrando ar eu cwynion ac yn gweithredu yn eu cylch yn gwella hyder yn fawr ymhlith cymunedau."

Mae crynodeb manylach o'r adborth o'r ymgynghoriad yn Atodiad A.

2.4 As a result, and with many respondents agreeing that the importance of protecting repeat and vulnerable victims outweighs the various practical issues raised by some agencies, our final proposal is for aUchel level duty on local authorities,Heddlu andIechyd[13] to deal jointly Cwynion raised by members of the community regarding ASB[14] Gweithred action has previously been taken. Private registered providers of social Tai would also have a duty to cooperate with this group, as they play a key role in tackling ASB in local areas. Authorities would be able to reject those Cwynion deemed vexatious or malicious.

2.5 Yn lle, bydd angen i awdurdodau perthnasol (ar lefel cyngor dosbarth neu'n uwch) benderfynu ar drothwyau, meini prawf, proses (gan gynnwys pwynt cyswllt sengl) a mecanwaith adrodd maent yn bwriadu eu defnyddio'n lleol a'u cyhoeddi. Byddai rôl i Gomisiynwyr Yr Heddlu a Throseddu a etholir yn uniongyrchol i sicrhau atebolrwydd democrataidd. Rydym yn rhagweld y defnyddir prosesau a sianeli cyfathrebu presennol ble mae'n bosibl er mwyn minimeiddio biwrocratiaeth a byddem yn sicrhau y gallai ardaloedd gyfuno ar draws ffiniau awdurdodau lleol os oeddynt am wneud felly..

---

13 Ar hyn o bryd hon yw'r Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, ond caiff ei disodli gan Grwpiau Comisiynu Clinigol ar ôl i adran berthnasol Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 gael ei deddfu.

14 Diffinir fel achosi 'aflonyddwch, dychryn neu ofid' i aelodau'r cyhoedd.

2.6 Ar ben hynny byddwn yn pennu y gellir cychwyn yr ysbardun gan drydydd parti (e.e. gofalwr, aelod y teulu) yn achos dioddefwyr hyglwyf, ac hefyd y bydd yn agored i'w ddefnyddio gan fusnesau yn ogystal ag unigolion.

2.7 Bydd fframio'r ddyletswydd fel hyn yn sicrhau y gall asiantaethau gynllunio'r broses i fod yn addas i amgylchiadau lleol gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol. O ystyried yr anawsterau parhaol mae asiantaethau'n eu wynebu wrth rannu gwybodaeth, byddwn hefyd yn pwysleisio yn y ddeddfwriaeth bod dyletswydd ar awdurdodau perthnasol i rannu gwybodaeth, ac hefyd i gyhoeddi data ynghylch pa mor aml y defnyddiwyd yr ysbardun a'r canlyniadau er mwyn cynorthwyo tryloywder.

2.8 Rydym yn gweithio gyda nifer o ardaloedd arweiniol, gan gynnwys Manceinion, Gorllewin Lindsey a Brighton a Hove, er mwyn profi'r ysbardun yn y maes, fel a wnaethom gyda'r treialon ynghylch trafod galwadau. Bydd profi'r ysbardun fel hyn cyn ein bod yn ei weithredu ledled y genedl yn allweddol wrth sicrhau bod ein diwygiadau'n gweithio heb orfodi biwrocratiaeth diangen neu, er enghraifft, feichiau annisgwyl ar fusnesau lleol cyfrifol.

Mae Cyngor Dinas Manceinion Fwyaf, Heddlu Manceinion Fwyaf ac amrediad o bartneriaid eraill yn awyddus i weld sut gallant gydweithio er mwyn gwella'r gwasanaeth maent yn ei gynnig i dioddefwyr a chymunedau sy'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus, a byddant yn profi'r Ysbardun Cymunedol ar draws Dinas Manceinion i gyd.

Y trothwy i'r ysbardun fydd ymddygiad sy'n achosi "aflonyddu, dychryn a gofid", yn seiliedig ar naill ai:

- tri chwyn neu fwy gan un unigolyn am yr un broblem, ble na weithredwyd; neu
- bump unigolyn yn cwyno am yr un broblem ble nad yw asiantaethau perthnasol wedi gweithredu.

Bydd dioddefwyr yn gallu cychwyn yr ysbardun trwy ffurflen seml ar-lein (yn hygyrch ar wefan pob awdurdod perthnasol), trwy lythyr neu ar y ffôn, gan ddisgrifio'r ymddygiad gwrthgymdeithasol maent yn ei brofi, a phryd yr adroddwyd amdano o'r blaen. Byddant yn derbyn llythyr o gydnabyddiaeth o fewn 24 awr, yn cyflwyno amserlen glir ar gyfer yr ymateb.

Os yw'r cwyn yn diwallu'r trothwy, bydd proffesiynwr arweiniol sengl yn cronni gwybodaeth gan bob awdurdod perthnasol er mwyn adeiladu darlun llawn o'r achos gan adnabod unrhyw weithredu a allai ddatrys y broblem, yn cynnwys cefnogaeth i'r dioddefwr(dioddefwyr). Yna bydd Cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ymateb i'r cwynwr, yn cyflwyno'r hyn mae asiantaethau'n bwriadu'i wneud.

## ARDDANGOS Y NIWED A ACHOSIR I GYMUNEDAU GAN YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

2.9 Ar brydiau gall fod yn anodd i asiantaethau ddangos yr effaith mae ASB yn ei chael ar y gymuned gyfan. Er mwyn helpu landlordiaid, ac eraill, i wneud hwn yn fwy effeithiol, ariannwyd Y Sefydliad Tai Siartredig gan Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol i weithio gyda phartneriaid tai allweddol gan gynnwys Grŵp Troseddu a Niwsans Landlordiaid Cymdeithasol (SLCNG), ddetholiad o landlordiaid cymdeithasol, yr heddlu a chyfreithwyr i ddatblygu Datganiadau Niwed Cymunedol i'w defnyddio yn y Llys Sirol[15]. Gellir dod o hyd i'r cyfarwyddyd ar y rhain ar wefan Y Sefydliad Tai Siartredig (www.cih.org).

2.10 Mae'r Datganiad Niwed Cymunedol yn darparu templed cydnabyddedig i gyflwyno tystiolaeth o niwed i gymunedau i'r llys mewn ffordd gyson. Mae'n rhoi llais gryfach i gymunedau trwy helpu sicrhau yr arddangosir

15 Mewn rhai ardaloedd, defnyddir Datganiadau Effaith Gumunedol mewn ffordd debyg mewn gweithrediadau troseddol, i hysbysu'r llys o bryderon a blaenoriaethau cymuned benodol dros gyfnod penodol o amser.

y niwed a achosir gan ASB yn iawn pan yw landlordiaid yn gweithredu. Er enghraifft, gall ddangos i farnwyr yr effaith mae ASB yn ei chael ar y gymuned gyfan, i'w chydbwyso wrth ochr ystyriaethau ynghylch hawliau'r tramgwyddwr.

2.11 Hefyd gellir ei ddefnyddio i gefnogi camau gweithredu anfarnwrol, gwaith achos a gweithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, gall swyddogion ASB ddefnyddio datganiadau i ddangos cost ASB i sefydliad o ran trwsiadau cynyddol, mwy o alwadau am wasanaeth a chostiau staff uwch (e.e. os oes rhaid i swyddogion weithio mewn parau er diogelwch). Mae hwn yn eu galluogi i arddangos y bydd gweithredu'n gyflym i atal ASB yn arbed arian yn yr hirdymor yn ogystal ag amddiffyn dioddefwyr. Hefyd gellir defnyddio datganiadau gan un asiantaeth i arddangos i un arall pam bod angen am gamau gweithredu cynyddol. Er enghraifft, gallai cymdeithas tai ddangos bod preswylwyr mewn un ardal yn profi ASB yn rheolaidd ar adegau penodol, gan ddefnyddio hwn i gynyddu patrolau traed gan dimau plismona'r gymdogaeth. Mae hyn oll yn helpu sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn cynhyrchu camau gweithredu sy'n gwneud gwahaniaeth amlwg i ddioddefwyr a chymunedau, yn hytrach na chyfarfodydd yn unig.

### Astudiaeth achos: Defnydd effeithiol Cyngor Bwrdeistref Taunton Deane o Ddatganiad Niwed Cymunedol i amddiffyn dioddefwyr a stopio ymddygiad gwrthgymdeithasol

Defnyddiwyd y Datganiad Niwed Cymunedol i ddelio ag ASB a achoswyd gan denant a'i gyn-bartner mewn bloc bach o fflatiau. Cwynodd preswylwyr yn y bloc am weiddi, sgrechian, cam-drin geiriol cyffredinol ac eitemau'n cael eu taflu allan o'r ffenestri. Roedd y dadleuon geiriol a chleciadau drysau at ei gilydd mor uchel y gellid eu clywed trwy gydol cyfadeilad y fflatiau. Aeth yr heddlu i'r fflat ar sawl achlysur ac yn aml roedd y tenant a'i gyn-bartner wedi meddwi. Hefyd gwnaeth y tenant gwynion i'r heddlu am ei gyn-bartner ond canfyddodd yr heddlu ei fod wedi ei gwahodd i mewn i'r fflat.

Defnyddiwyd y datganiad i helpu cydgasglu gwybodaeth ar niwed i'r gymuned. Dangosodd fod y bloc yn gymuned fach a oedd yn mwynhau awyrgylch cymdogol, ble roedd yr holl breswylwyr yn gwylio allan dros ei gilydd. Fodd bynnag, roeddynt yn teimlo eu bod wedi'u hynysu gan yr ASB ac nid oeddynt yn mentro y tu allan i'w drysau blaen yn y nos gan eu bod yn ofni cwrdd â'r tenant neu ei gyn-bartner pan oeddynt wedi meddwi, oherwydd y byddent yn dilorni a bygwth preswylwyr.

Dangosodd dadansoddiad o'r digwyddiadau bod niwsans ac annifyrrwch i breswylwyr eraill pan oedd cyn-bartner y tenant yn ymweld â'r fflat yn unig. Nid oedd ganddi ddim "hawliau" i fod yn y fflat. Eglurwyd y problemau yn y datganiad i'r tenant ac, ar ôl wynebu tystiolaeth glir ynghylch effaith ei ymddygiad, cytunodd y tenant i lofnodi Cytundeb Ymddygiad Derbyniol i ddweud na fyddai'n gwahodd ei gyn-bartner i mewn i'r fflat ac na fyddai'n gwneud unrhyw beth i ddigio'i gymdogion na bod yn niwsans iddynt. Ar adeg paratoi'r astudiaeth achos roedd yr ASB wedi dod i ben ac ni thorrwyd ar y cytundeb.

## HELPU CYMUNEDAU A BUSNESAU I FYND I'R AFAEL AG YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL AC AMDDIFFYN DIODDEFWYR

2.12 Mae llawer o gymunedau a gweithredwyr eisoes yn arwain y ffordd gan sefyll yn gadarn yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwneud eu cymdogaethau'n lleoedd gwell i fyw ynddynt. Fodd bynnag, yn rhy aml, roedd yr hen ymagwedd brig-i'r-gwaelod yn ei wneud yn anos, nid yn haws, i bobl wneud gwahaniaeth. Rydym yn archwilio i ffyrdd newydd i'r cyhoedd ymgysylltu a llunio'r ymagwedd i'r problemau sy'n wir bwysig yn eu hardal. Hefyd rydym wedi sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael trwy'r wefan fapio droseddu genedlaethol, www.police.co.uk, fel eu bod yn gwybod beth yw'r problemau hynny mewn gwirionedd a beth mae asiantaethau yn ei wneud amdanynt. Er enghraifft, erbyn Hydref 2012 byddwn yn cyflwyno manylion fesul lys ynghylch y nifer o Orchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBOs) a gyhoeddwyd. Hefyd byddwn yn archwilio i'r posibilrwydd o ddangos toriadau ar dramgwyddau troseddol ASBO ar wahân ar y wefan a byddwn yn gweithio i sicrhau bod y mathau hyn o ddata ar gael hefyd ar yr offer ASB newydd ar ôl iddynt ddod i rym.

2.13 Ar ben hynny, mae rhai cymunedau eisoes yn cydweithio er mwyn herio asiantaethau lleol i ddelio ag ASB yn y ffordd sy'n fwyaf priodol yn eu barn hwy. Er enghraifft, mae pobl ifanc mewn rhai cymunedau wedi herio'r defnydd o ddyfeisiau 'mosgito' sy'n ceisio gwasgaru pobl ifanc yn eu harddegau trwy anfon allan sain uchel y gall plant a phobl ifanc yn unig ei chlywed. Maent wedi herio awdurdodau lleol yn llwyddiannus i fabwysiadu ymagwedd fwy adeiladol tuag at ASB gan bobl ifanc. Mae'r astudiaeth achos isod yn arddangos effaith un enghraifft o'r fath o gamau gweithredu a yrrir yn lleol.

### Astudiaeth achos: Pobl ifanc yn dylanwadu ar y ffordd yr ymdrinir ag ASB yn lleol

Yn sgil ymgyrch lwyddiannus a arweiniwyd gan Harrison Carter, aelod Senedd Ieuenctid y DU dros Sheffield, pleidleisiodd Cabinet Cyngor Dinas Sheffield yn unfrydol yn Ionawr 2011 i roi terfyn ar ddefnyddio dyfeisiau mosgito ar yr holl adeiladau'r cyngor. Hefyd argymhellir fod partneriaid fel yr heddlu'n gweithredu yn yr un modd gan wrthod cymeradwyo'r defnydd o ddyfeisiau mosgito ar draws Sheffield.

Mae Tîmau Cymdogaeth Diogelach Sheffield yn gweithio gyda darparwyr lleol i herio ymddygiad y lleiafrif bach o bobl ifanc a adnabyddwyd fel rhai sy'n achosi, neu sydd mewn perygl o achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hwn wedi gwneud cyfraniad mawr at y lefelau isaf o ymddygiad gwrthgymdeithasol yr adroddwyd amdano ers tair blynedd.

Mae awdurdodau eraill sydd wedi gweithredu mewn modd tebyg yn erbyn y ddyfais fosgito yn cynnwys Swydd Gaerhirfryn (Mai 2007), Knowsley (Mehefin 2007), Caint (Mehefin 2008) a Kirklees (Medi 2010) – bob un o ganlyniad i ymgyrchoedd gan bobl ifanc.

2.14 Hefyd mae rhai busnesau'n gweithio'n agos gydag asiantaethau lleol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er enghraifft, mae rhai awdurdodau lleol wedi sefydlu cynlluniau achredydu gwirfoddol i landlordiaid i helpu landlordiaid preifat i ddarparu gwasanaeth gwell i denantiaid, yn cynnwys mynd i'r afael ag ASB. Mae awdurdodau lleol yn annog landlordiaid i ymuno trwy gynnig cymelliannau fel cymorth uniongyrchol gan swyddogion y cyngor er mwyn helpu delio â thenantiaid trafferthus, yn ogystal â chydnabyddiaeth gyhoeddus bod landlord ac asiant gosod yn berson cyfrifol gan gynnal safonau da yn eu tai. Mae'r bartneriaeth hon yn helpu landlordiaid i ddarparu gwasanaeth gwell i'w tenantiaid, ac hefyd mae'n ei wneud yn haws iddynt weithio gyda'r awdurdod lleol i ddelio ag ASB ac i amddiffyn dioddefwyr.

2.15 Mae ardaloedd eraill wedi cyflwyno 'trwyddedu dethol' mandadol i sicrhau bod landlordiaid preifat yn derbyn cyfrifoldeb am ddelio ag ymddygiad eu tenantiaid. Mewn ardal o drwyddedu dethol gall yr awdurdod lleol gyflwyno trwyddedu ar gyfer yr holl dai a osodir yn breifat. Yna mae rhaid i landlordiaid preifat dalu am drwydded a dangos y gallant reoli eu tai'n iawn, gan gynnwys gweithredu yn erbyn tenantiaid sy'n achosi niwsans. Mae hwn yn sicrhau bod landlordiaid yn gweithredu i ddelio â thenantiaid gwrthgymdeithasol, gan ddarparu seibiant i dioddefwyr a chymunedau sy'n dioddef o ganlyniad i gymdogion o uffern. Mae trwyddedu dethol yn gweithredu mewn nifer o ardaloedd gan gynnwys Salford, Manceinion, Middlesbrough, Gateshead, Burnley, Bolton, Blackburn, Leeds, Hartlepool, Sunderland a Bwrdeistref Llundain Newham. Ar ben yr ymagweddau partneriaeth hyn, bydd ein cynigion ym mhennod tri sy'n cynnwys pwerau newydd i droi allan a gwaharddeb newydd, yn mynd i'r afael ag ASB yn y sector gosod preifat er mwyn amddiffyn dioddefwyr a chymunedau.

## RHOI CYFLE I DDIODDEFWYR A CHYMUNEDAU DDWEUD EU DWEUD O RAN CYFIAWNDER I'R GYMDOGAETH

2.16 Mae Cyfiawnder Adferol yn offeryn hanfodol i roi llais i ddioddefwyr a chymunedau ynghylch y ffordd y dylai troseddwr wneud yn iawn am y trosedd maent wedi'i gyflawni a gorfodi'r tramgwyddwr i wynebu canlyniadau eu gweithredoedd. Defnyddir Cyfiawnder Adferol yn y systemau cyfiawnder i bobl ifanc ac oedolion ill dau ac mae'n fwyaf effeithiol pan yw'n cael ei yrru'n lleol ac felly'n ymatebol i drafod ASB, troseddu ac anhrefn yn yr ardal leol.

2.17 Rydym eisiau i gynrychiolwyr o'r gymuned ymgysylltu fwy wrth gyflawni Cyfiawnder Adferol, ac un o'r ffyrdd rydym yn gwneud hwn yw gweithio gyda nifer o ardaloedd lleol er mwyn sefydlu a phrofi Paneli Cyfiawnder Cymdogaeth. Gellir defnyddio paneli i ddelio â throseddu lefel isel ac ASB, nad yw'n galw am sancsiwn troseddol ffurfiol, ond sy'n cael effaith anffafriol ar gymunedau lleol ac yn achosi niwed i ddioddefwyr. Yn cael eu hwyluso gan gynrychiolwyr o'r gymuned leol, mae paneli'n dod â'r bobl hynny sydd wedi achosi niwed wyneb yn wyneb gyda'u dioddefwyr, ac mae pob parti'n gweithio gyda'i gilydd er mwyn cyrraedd canlyniad cytûn yn cynnwys iawndal i'r dioddefydd. Rydym yn treialu Paneli Cyfiawnder Cymdogaeth mewn nifer o ardaloedd ar draws Cymru a Lloegr er mwyn profi'r ymagweddau hyn a deall sut mae paneli'n galluogi'r gymuned i ymgysylltu fwy â Chyfiawnder Adferol.

## CRYNODEB:

**Byddwn yn awdurdodi cymunedau i amddiffyn dioddefwyr a dal asiantaethau i gyfrif trwy:**

- Roi'r pŵer i gymunedau, gan gynnwys busnesau, i sicrhau y gweithredir trwy'r Ysbardun Cymunedol;
- Esmwytho'r ffordd i arddangos y niwed a achosir i ddioddefwyr a chymunedau gan ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy'r Datganiadau Niwed Cymunedol; a
- Rhoi cyfle i ddioddefwyr a chymunedau ddweud eu dweud ynghylch sut y trafodir ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu lefel isel sy'n effeithio arnynt, trwy dreialu Paneli Cyfiawnder Cymdogaeth mewn nifer o ardaloedd ar draws Cymru a Lloegr.

# 3. Camau gweithredu cyflym, effeithiol: Rhoi'r offer angenrheidiol i broffesiynwyr i amddiffyn dioddefwyr

3.1 Mae ymarferwyr wedi dweud wrthym beth sy'n gweithio[16] o ran trafod ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB). Gwyddant fod ymateb cytbwys, yn corffori elfennau o orfodi ac atal ill dau yn hanfodol wrth stopio ASB, yn arbennig i'r cyflawnwyr mwyaf dyfal. Fel a amlinellir ym mhennod un, mae'n hanfodol bod gan broffesiynwyr ddisgresiwn i ddefnyddio ymagweddau anffurfiol fel Contractau Ymddygiad Derbyniol i fynd i'r afael ag ASB, gan fod y dystiolaeth yn dangos mai dyma'r ymateb iawn yn aml i amddiffyn dioddefwyr.

3.2 Fodd bynnag, wastad bydd lleiafrif o achosion ble na fydd yr ymagwedd anffurfiol yn gweithio, a ble fydd angen am ymyriadau pen-uchel, ffurfiol i stopio ymddygiad peryglus a hwliganaidd rhai unigolion sy'n peri bod bywydau dioddefwyr yn druenus. Mae angen am gamau gweithredu gwydn ar yr unigolion hyn i'w hatal rhag ymddwyn yn wrthgymdeithasol, ac mae angen iddynt wybod y bydd sancsiynau cyflym ac effeithiol os nad ydynt yn stopio.

3.3 Argymhellodd ein hymgynghoriad newidiadau i symleiddio'r system bresennol o gael offeryn penodol ar gyfer pob math o ymddygiad, i offer mwy hyblyg a fydd ar gael i brofesiynwyr gan amrediad o sefydliadau (e.e. landlordiaid cymdeithasol, awdurdodau lleol a swyddogion yr heddlu). Nod ein cynigion yw darparu offer pen-uchel ffurfiol i helpu asiantaethau weithredu'n gyflym ac atal problemau rhag ailddigwydd. Hefyd rydym am adeiladu cefnogaeth i mewn i'r system i newid ymddygiad, ac felly amddiffyn dioddefwyr yn yr hirdymor trwy gyflawni newid parhaol. Bydd ein newidiadau'n golygu ein bod yn torri'r cawl gwyddor presennol o bwerau anhwylus, yn disodli 19 o bwerau presennol cymhleth gyda chwech pŵer newydd sy'n syml, hyblyg ac addasadwy.

3.4 Gan ein bod yn argymell symleiddio amrediad eang o'r gyfraith bresennol, rydym am ystyried yr holl broblemau manwl er mwyn cael pethau'n iawn y tro cyntaf. Yn hytrach na chyflwyno mentrau adweithiol a phwerau cul y naill ar ôl y llall, fel y Llywodraeth ddiwethaf, gwyddom fod angen cynnwys yr arbenigwyr a fydd yn defnyddio'r pwerau hyn yn eu datblygiad. O ganlyniad byddwn yn cyhoeddi ein cynigion deddfwriaethol fel rhan o fil drafft ar gyfer craffu cyn-ddeddfwriaethol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda dioddefwyr, cymunedau, busnesau ac ymarferwyr i lunio'r ddeddfwriaeth fel ei bod yn cynnig y diogelwch gorau bosibl i'r cyhoedd gan adlewyrchu'r effeithiau tebygol ar draws yr amrediad eang o grwpiau mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnynt.

3.5 Bydd y cynigion hyn yn gymwys yn Lloegr a, ble mae'n briodol, yng Nghymru. Er na ddatganolir y mwyafrif o'r materion a drafodir yn y Papur Gwyn hwn, mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig o ran diogelwch cymunedol felly rydym yn gweithio gyda nhw ar weithredu'r diwygiadau hyn yng Nghymru.


## Ymateb i'r ymgynghoriad

3.6 Yn gyffredinol, mae'r ymateb i'r cynigion yn yr ymgynghoriad ASB wedi bod yn gadarnhaol, gyda llawer o gefnogaeth am ein nod cyffredinol o symleiddio'r system gyfredol. Er enghraifft, mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) wedi'u galw'n "ymarferol, cadarnhaol, rhesymol a chytbwys."

3.7 Roedd 57% o ymatebwyr i'r ymgynghoriad sy'n rhanddeiliaid (e.e. awdurdodau lleol, yr heddlu, Partneriaethau, darparwyr tai, y farnwriaeth, a'r sector gwirfoddol) o blaid symleiddio'r offer a'r pwerau, gyda 9% yn unig yn erbyn y cynigion. O'r ymatebwyr cyhoeddus, roedd 40% yn teimlo y byddai'r cynigion yn gwella'r ymateb i ASB a dim ond 9% oedd yn teimlo y byddent yn llai effeithiol na'r system gyfredol. Mae Atodiad A yn rhoi crynodeb manwl o ymatebion i'n hymgynghoriad ar bob un o'r cynigion, ac mae Atodiad B yn darparu tabl yn crynhoi'r offer sy'n cael eu diddymu a'r hyn sy'n mynd i'w disodli.

---

16 Clarke *et al*. 2011. Disgrifio ac asesu ymyriadau er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. A'r Ymgynghoriad ASB: *Ymatebion mwy effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol.*




## DELIO AG UNIGOLION GWRTHGYMDEITHASOL - AMDDIFFYN EU DIODDEFWYR

3.8 Mae llawer o’r hyn a ddisgrifir fel ASB yn droseddol (e.e. fandaliaeth, graffiti, cŵn peryglus, delio mewn cyffuriau ar y stryd a phobl feddw ac afreolus), ond hefyd gall pwerau sifil i ddelio ag unigolion gwrthgymdeithasol fod yn ddefnyddiol gan eu bod yn rhoi dewis arall i’r heddlu heblaw am gyhuddiadau troseddol mewn achosion ble mae’n anodd profi bod trosedd wedi’i gyflawni neu ble mae dioddefwyr yn rhy ofnus i roi tystiolaeth. Os y’i defnyddir yn effeithiol, gallant helpu hefyd i stopio’r math o aflonyddwch parhaol a anelir at ddioddefwyr hyglwyf a welir mewn rhai achosion proffil uchel.

3.9 Ymgynghoron ni ar gynigion i greu **gorchymyn hollol sifil** (h.y. gyda sancsiynau o dan y gyfraith sifil, yn hytrach na’r gyfraith droseddol) y gall asiantaethau eu cael yn gyflym, o fewn dyddiau neu hyd yn oed oriau, er mwyn stopio ymddygiad gwrthgymdeithasol unigolyn ac amddiffyn dioddefwyr. Yn sgil yr ymgynghoriad, rydym yn cynnig cyflwyno **Gwaharddeb Atal Troseddu**, a fyddai’n waharddeb hollol sifil ar gael yn y Llys Sirol ar gyfer oedolion ac yn y Llys Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc 10 i 17 blwydd oed. Byddai hon yn gynt i’w defnyddio na’r Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) a gellid ei defnyddio ar adeg gynharach a’i chael trwy ddefnyddio’r baich profi sifil (h.y. ar bwysau tebygolrwydd yn hytrach nag y tu hwnt i amheuon rhesymol). Byddai toriad yn ddirmyg llys gan dynnu cosbau difrifol, yn cynnwys cyfnod yn y carchar.

3.10 Bydd ein gwaharddeb yn adeiladu ar lwyddiant y Waharddeb ASB y mae landlordiaid cymdeithasol yn ei defnyddio’n effeithiol i stopio problemau ac i amddiffyn dioddefwyr, ac sy’n gyflymach ac yn haws ei defnyddio na’r ASBO. Byddwn yn gwella’r Waharddeb ASB trwy ledaenu’r amrediad o asiantaethau sy’n gallu ymgeisio amdani (er enghraifft trwy gynnwys Amddiffyn GIG sy’n delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn erbyn staff

ysbytai) a sicrhau y gellir ei defnyddio dan amrediad ehangach o amgylchiadau (er enghraifft yn erbyn cymdogion hunllef yn y sector gosod preifat). Byddai angen i ddefnydd o'r waharddeb fod yn gymesur gan ystyried yr effaith ar unigolion hyglwyf.

3.11 Nodwedd newydd arall o'r waharddeb fydd y gallai gynnwys gwaharddiadau ar ymddygiad a gofynion cadarnhaol ill dau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau gwaelodol ac i newid ymddygiad yn yr hirdymor. Mae cynnwys gofynion cadarnhaol yn mynd i'r afael â diffyg mawr ynghylch yr ASBO – trwy ganolbwyntio ar waharddiadau a gorfodi'n unig, mae'r gorchymyn yn methu wrth geisio newid ymddygiad y cyflawnwr, ac felly yn methu wrth atal toriadau ac amddiffyn dioddefwyr. Amlinellir rhagor o fanylion ar y ffordd y byddai Gwaharddeb Atal Troseddu'n gweithio yn Atodiad C.

3.12 Mae'r enghreifftiau dilynol yn arddangos sut y bydd y Waharddeb Atal Troseddu yn galluogi asiantaethau i amddiffyn dioddefwyr yn gyflymach ac yn fwy effeithiol na'r system gyfredol:

- Enghraifft **1:** Unigolyn sy'n galw am ambiwlans tro ar ôl tro ar ôl ffugio poen yn y frest mewn mannau cyhoeddus ac sy'n meddwi'n rheolaidd ac yn ymosodol tuag at barafeddygon ar y ffordd i'r ysbyty. O dan y system bresennol, mae rhaid i awdurdodau ysbyty berswadio'r heddlu neu'r awdurdod lleol i wneud cais am ASBO, sy'n cymryd sawl mis ac y mae rhaid i eraill ei orfodi wedyn. O dan y system newydd, bydd Amddiffyn GIG, y corff sy'n gyfrifol am amddiffyn staff, eiddo ac adnoddau GIG yn erbyn troseddu ac anhrefn, yn gallu gwneud cais yn uniongyrchol am waharddeb i amddiffyn staff ar unwaith, a byddant yn gallu rheoli'r waharddeb eu hunain.

- Enghraifft **2:** Unigolyn yn rhentu eiddo yn y sector gosod preifat a oedd yn defnyddio iaith ddilornus yn rheolaidd tuag at eu cymdogion perchen-feddiannydd a'u bygwth. O dan y system gyfredol gallai asiantaethau lleol dreulio misoedd wrth wneud cais i'r llysoedd i gael ASBO, ac yn ystod yr amser hon byddai cymdogion yn parhau i ddioddef o ganlyniad i ymddygiad cynyddol o fygythiol yr unigolyn. O dan y system newydd, gallai asiantaethau lleol, o fewn ychydig oriau, wneud cais i'r llysoedd sifil i gael gwaharddeb ar yr unigolyn, yn darparu seibiant i'w cymdogion ac yn atal yr ymddygiad rhag gwaethygu..

- Enghraifft **3:** Unigolyn a oedd wedi caniatáu ac annog eu cŵn i frawychu pobl, gan achosi gofid i bobl eraill yn eu cymuned leol ac atal pobl eraill rhag defnyddio parc lleol. O dan y system gyfredol gellid gwahardd yr unigolyn hwnnw rhag defnyddio'r parc trwy ASBO (er y byddai hwn yn cymryd misoedd i'w gael fel arfer). O dan y system newydd, gellid cael gwaharddeb yn gyflym iawn i wahardd yr unigolyn rhag defnyddio'r parc, ond hefyd i fynnu iddynt sicrhau bod mwsel ar eu ci a bod dennyn arno mewn mannau cyhoeddus, ac i fynychu dosbarthiadau hyfforddi cŵn fel eu bod yn deall sut i reoli'u ci.

3.13 Er mwyn rhoi i asiantaethau a chymunedau yr hwn sydd ei angen arnynt i ddelio â'r cnewyllyn caled o unigolion gwrthgymdeithasol parhaus sydd hefyd yn ymhel â gweithgarwch troseddol[17] ymgynghoron ni ar gyflwyno **gorchymyn sifil newydd ar gael wrth ochr euogfarn**. Yn sgil ymgynghori rydym yn argymell y **Gorchymyn Ymddygiad Troseddol**, a fyddai ar gael wrth ochr euogfarn am unrhyw dramgwydd troseddol ac mewn unrhyw lys troseddol. Byddai'r gorchymyn yn meddu ar sancsiynau troseddol gwydn ar ôl cael ei dorri, â mwyafswm o bum mlynedd yn y carchar, er mwyn sicrhau bod canlyniadau difrifol os yw unigolyn yn methu newid eu hymddygiad gan barhau i wneud bywydau dioddefwyr yn druenus.

3.14 Gallai'r llys ddefnyddio'r gorchymyn i wahardd unigolyn rhag pethau penodol er mwyn atal ASB yn y dyfodol e.e. mynd i leoedd penodol neu fod allan ar brydiau penodol. Yn allweddol, byddai hefyd yn caniatáu i'r llys alw ar yr unigolyn i ymgymryd â gweithgareddau cadarnhaol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau gwaelodol a allai fod yn gyrru ei ymddygiad, neu i ddelio â phroblemau fel perchnogaeth anghyfrifol o gŵn. Byddai hefyd yn caniatáu

17 Er enghraifft, yn 2006 canfyddodd Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol mewn sampl o 606 o achosion mewn chwech ardal fod 80% o'r rheini a oedd wedi derbyn ASBO wedi cael euogfarn droseddol o'r blaen, a bod gan y garfan hon o unigolion gyfartaledd o 50 euogfarn droseddol yr un.

i'r unigolyn dalu i fynychu cwrs cymeradwy i fynd i'r afael ag achosion eu hymddygiad, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn cysylltiad â gyrwyr sy'n yfed. Trwy fynd i'r afael ag achosion ymddygiad unigolyn, byddem yn disgwyl i gyfraddau toriadau gwympo yn yr hirdymor.

3.15 Byddwn yn rhoi hyblygrwydd i'r heddlu i ddelio â thoriad cyntaf er mwyn penderfynu ar ei ddifrifoldeb a, ble mae'n ddigon dibwys, i ddelio ag ef ar unwaith naill ai trwy fesurau anffurfiol (er enghraifft ymagweddau trwsiadol ble fydd yn addas) neu gwblhad ffurfiol y tu allan i'r llys. Mae hwn yn adeiladu ar dystiolaeth sy'n awgrymu po hwyaf y bwlch rhwng gweithredu (h.y. toriad) a chanlyniad (h.y. ymddangosiad yn y llys), po isaf yw'r tebygolrwydd y bydd y canlyniad posibl yn rhwystro'r unigolyn yn y lle cyntaf. Trwy gymryd pob toriad o ddifri, a galluogi'r heddlu i ddelio â nhw'n gyflym, byddwn yn arddangos i unigolion bod gan dorri ar orchymyn ganlyniadau gan amddiffyn dioddefwyr trwy atal toriadau yn y dyfodol.

3.16 Mae'r enghreifftiau dilynol yn arddangos sut y bydd y Gorchymyn Ymddygiad Troseddol newydd yn galluogi asiantaethau i ddelio'n fwy effeithiol ag ASB na'r system gyfredol:

- Enghraifft **1:** Mae cardotyn sy'n yfwr stryd parhaus a euogfarnir am fod yn feddw ac afreolus a oedd wedi bod yn aflonyddu pobl yn mynd heibio trwy ofyn am arian a bod yn ddilornus i aelodau'r cyhoedd. O dan y system gyfredol gellid rhoi gorchymyn iddynt wrth ochr yr euogfarn a fyddai'n eu hatal rhag mynd at bobl i ofyn am arian mewn ardal benodol, ond ni ellid gwneud dim i fynd i'r afael â'u problem gydag alcohol. O dan y system newydd, gellid eu hatal o hyd rhag cardota mewn ardal benodol a gellid mynnu hefyd eu bod yn mynychu rhaglenni triniaeth, ymwybyddiaeth, neu cyngor a chymorth alcohol, a fyddai, yn yr hirdymor, yn lleihau'r tebygolrwydd y byddent yn torri'r gorchymyn.

- Enghraifft **2:** Person ifanc a euogfarnir am niwed troseddol ar ôl torri ffenestr tŷ hen berson yn sgil ymgyrch gyfredol o aflonyddwch. O dan y system gyfredol, gellid eu hatal rhag mynd yn agos at dŷ eu dioddefwr, ond o dan y system newydd, gallai'r un gorchymyn hefyd alw arnynt i wneud yn iawn am y niwed i ffenestr y dioddefwr ac ymgysylltu â rhaglen fentora er mwyn mynd i'r afael â'r rhesymau am aflonyddu'r dioddefwr.

- Enghraifft **3:** Unigolyn a euogfarnir am reidio mini-moto heb drwydded ar ffordd ac achosi niwsans i'w cymuned leol oherwydd y sŵn. O dan y system gyfredol gellid rhoi gorchymyn i'r person hwnnw er mwyn eu hatal rhag perchen ar mini-moto yn y dyfodol, ond o dan y system newydd, gallent hefyd ddewis talu i fynychu cwrs ymwybyddiaeth gyrwyr sydd ar gael yn lleol, a fyddai'n dangos effaith eu hymddygiad ar bobl eraill iddynt a lleihau'r tebygolrwydd o doriad.

## AMDDIFFYN CYMUNEDAU - GWELLA ANSAWDD BYWYD

3.17 Mae pawb eisiau byw mewn amgylchedd saff, diogel a chroesawgar heb fod yn ddioddefydd ASB yn eu cymdogaeth. Ymgynghoron ni ar gynigion i symleiddio, atgyfnerthu a chryfhau'r offer sydd ar gael i ddelio ag ASB amgylcheddol seiliedig ar le trwy 'Orchymyn Amddiffyn Cymunedol'. Mae'r ymagwedd hon yn newid y pwyslais o gael offeryn penodol i ddelio â phob math o ymddygiad, yn aml ar gael i unigolion ag arbenigedd neilltuol yn unig, i sicrhau y gall amrediad ehangach o broffesiynwyr ymateb yn effeithiol i amrediad eang o broblemau. Gan y bydd yr amrediad hwnnw o broblemau yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol a achosir gan fusnesau anghyfrifol, byddwn yn gweithio gyda fforymau busnes i sicrhau bod ein hymagwedd newydd yn gosod y beichiau lleiaf ar fusnesau cyfrifol, yn gytun ag economyddion annibynnol ar y Pwyllgor Polisi Rheoleiddiol.

### Amddiffyn cymdogaethau lleol

3.18 Yn sgil yr adborth a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad rydym yn cynnig cyflwyno **Rhybudd Amddiffyn Cymunedol**, a gyhoeddir i unigolyn neu berson cyfrifol o fewn busnes neu sefydliad arall, er mwyn delio â phroblem neilltuol sy'n effeithio'n negyddol ar y gymuned. Gellid ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag amrediad o ymddygiad gwrthgymdeithasol (er enghraifft graffiti, taflu sbwriel, baw cŵn neu ddefnyddio bwrdd sgrialu rywle

nad yw'n briodol). Cyhoeddid y Rhybudd i atal ymddygiad afresymol, parhaus sy'n niweidiol i amwynder y lleoliad neu sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned leol. Byddai'r Rhybudd yn disodli Rhybuddion Clirio Sbwriel, Rhybuddion Rheoli Sbwriel yn y Stryd a Rhybuddion Symud Anharddiad.

3.19 Ni chynllunir y Rhybudd hwn i'w gyhoeddi am un digwyddiad – byddai canllawiau'n egluro y dylid defnyddio mesurau anffurfiol (yn ogystal â sancsiynau lefel-isel fel Rhybudd Cosb Benodedig ble mae'n briodol) yn gyntaf er mwyn ceisio tynnu newid o ran ymddygiad. Dim ond ble mae'r fath fesurau wedi profi'n aneffeithiol y defnyddid rhybudd – erbyn pryd y byddai'r unigolyn wedi derbyn digon o rybudd bod yr ymddygiad yn annerbyniol a maent wedi dewis parhau beth bynnag.

3.20 Gellid defnyddio'r rhybudd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd eraill nas trafodir gan y pwerau mae'n eu disodli'n uniongyrchol, gan ganiatáu i ardaloedd ymateb yn hyblyg i broblemau lleol wrth iddynt godi. Er enghraifft, gall sŵn cymharol lefel-isel, ond parhaus, yn y gymdogaeth fod yn un o nifer o ymddygiadau a all, gyda'i gilydd, gael effaith arwyddocaol o niweidiol ar gymuned.[18] Ar hyn o bryd mae sŵn yn fater i awdurdodau lleol, eto mae llawer o aelodau'r cyhoedd yn galw'r heddlu pan ydynt yn dioddef niwsans sŵn (er enghraifft, galwyd yr heddlu allan i ddelio â sŵn 88,317 o weithiau yn 2008/09). Byddai ein cynigion yn galluogi'r heddlu i gyhoeddi rhybudd i atal yr ymddygiad, gyda sancsiynau troseddol os yw'r unigolyn yn methu i gydymffurfio, yn hytrach na mynychu neu dderbyn galwad a'i gyfeirio ymlaen yn unig, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Byddai hwn yn ymestyn y pwerau sydd gan yr heddlu i ddelio â phroblemau sŵn (oherwydd ar hyn o bryd mae ganddynt bwerau cyfyng yn unig i reoli sŵn gan gerbydau ar y ffordd)[19].

3.21 Mae enghreifftiau o ble y gellid defnyddio'r rhybudd, a sut mae hwn yn wahanol i'r system gyfredol, yn cynnwys:

- Unigolyn sy'n gadael i'w gi fawa mewn gardd gymunedol (ni thrafodir y sefyllfa hon gan rybuddion cyfredol);
- Carfan sy'n dilyn yr un llwybr adref yn rheolaidd yn hwyr yn y nos tra'n feddw, yn achosi sŵn ac yn deffro eu cymdogion (ni thrafodir y sefyllfa hon gan y system niwsans statudol); a
- Siop tecawê sy'n gadael i'w chwsmeriaid ollwng sbwriel ar y pafin y tu allan yn rheolaidd ac yn achosi niwsans sŵn yn hwyr yn y nos, yn gorfod rhoi biniau y tu allan i'r siop a sicrhau bod cwsmeriaid yn gadael yn dawel ar ôl 10yh (gellir defnyddio rhybuddion cyfredol i ddelio ag un math o ymddygiad yn unig).

3.22 Gallai Rhybuddion Amddiffyn Cymunedol gael eu cyhoeddi gan amrediad o broffesiynwyr gan gynnwys yr heddlu a darparwyr cofrestredig preifat dynodedig o dai cymdeithasol, er ein bod yn rhagweld y cyhoeddir y mwyafrif gan awdurdodau lleol. Penderfyniad yr awdurdod lleol fyddai gweithio gyda darparwyr cofrestredig preifat o dai cymdeithasol i gytuno ar ba un (os unrhyw un) ohonynt ddylai dderbyn y pŵer i gyhoeddi rhybuddion yn eu hardal ac i bob awdurdod cymwys perthnasol sicrhau bod y trefniadau cydgysylltu angenrheidiol yn bodoli i osgoi dyblygiad o ymdrech neu gwynion yn cwympo rhwng y bylchau.

3.23 Gallai rhybudd gael ei gyhoeddi dim ond ble mae'r ymddygiad heb esgus rhesymol, ac rydym yn cynnig cael amddiffyniad ar doriad os cymerwyd pob mesur ymarferol i osgoi neu atal y broblem. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun yn canfod bod baban yn crio yn y nos yn cael effaith negyddol ar ansawdd eu bywyd, ond ni fyddai'n rhesymol i asiantaeth roi rhybudd i rywun stopio baban rhag crio felly ni ellid defnyddio'r rhybudd.

18 Byddai'r system niwsans statudol dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn cymryd blaenoriaeth, a hefyd byddwn yn sicrhau nad oes gan y newidiadau unrhyw oblygiadau anfwriadol ar gyfer y system gynllunio, gan gynnwys gorfodi caniatadau cynllunio.

19 Byddai'r baich ar yr awdurdod lleol o hyd i arwain ar sŷn gan mai nhw fyddai'r unig awdurdod o hyd sydd â'r grym i ddefnyddio'r pwerau niwsans statudol dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

3.24 Byddai anghydymffurfiad (neu 'Doriad') yn dramgwydd troseddol, yn gosbadwy â dirwy o hyd at £2,500, neu £20,000 ar gyfer busnesau. Byddai gan ymarferwyr yr opsiwn o gyhoeddi Rhybudd Cosb Benodedig, yn hytrach na mynd am erlyniad, ble mae'n briodol. Ble na chyflawnwyd gofynion i 'wneud yn iawn', gallai'r awdurdod lleol gwblhau'r gwaith a gofyn i'r unigolyn sy'n gyfrifol dalu swm rhesymol am hwn - yn cryfhau'r pwerau sydd gan ardaloedd lleol ar hyn o bryd i ddelio â graffiti ac anharddiad arall. Gallai'r heddlu a'r awdurdod lleol gael gwarant gan y llys i allu mynd i mewn i safle unigolyn er mwyn cymryd eitemau a ddefnyddiwyd i dorri ar y rhybudd.

## Amddiffyn mannau cyhoeddus – yr awdurdod lleol

3.25 Yn sgil yr ymgynghoriad, rydym yn cynnig rhoi pŵer hyblyg i awdurdodau lleol iddynt drefnu cyfyngiadau lleol i fynd i'r afael ag amrediad o broblemau ASB mewn mannau cyhoeddus, ac i atal problemau yn y dyfodol, o'r enw **Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol (man cyhoeddus)**. Byddai hwn yn disodli Gorchmynion Rheoli Cŵn, Gorchmynion Llidiartu, a'r Gorchymyn Man Cyhoeddus Dynodedig (a gynllunir i fynd i'r afael â goryfed mewn pyliau), ond sydd hefyd yn cwmpasu amrediad llawer ehangach o ymddygiadau trafferthus, gan gynnwys y rheini a gwmpasir ar hyn o bryd gan yr is-ddeddfau 'rheolaeth dda a llywodraethu'20. Cyhoeddid y gorchymyn gan yr awdurdod lleol (gan ymgynghori â'r heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a etholir yn uniongyrchol) naill ai i ddelio â phroblemau presennol neu i atal problemau yn y dyfodol.

3.26 Mae enghreifftiau o ble y gellid defnyddio'r gorchymyn yn cynnwys:

- Atal grwpiau rhag defnyddio sgwar cyhoeddus fel parc sglefrfyrddio ac i beidio cefnogi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr un man trwy ei wneud yn drosedd i beidio rhoi cynhwyswyr alcohol drosodd pan ofynnir iddynt wneud felly;

- Atal cŵn rhag bawa mewn parc cyhoeddus neu fynd i mewn i faes chwarae i blant o fewn y parc hwnnw; a

- Chyfyngu ar fynediad y cyhoedd at unrhyw briffordd cyhoeddus, ai am 24 awr y dydd neu ar adegau penodol y dydd neu'r nos yn unig, er mwyn atal troseddu neu ASB rhag digwydd. Er enghraifft trwy lidiartu llwybr yn rhedeg rhwng dau floc o fflatiau ar ystad ble mae llawer o ASB wedi bod a achoswyd gan bobl nad ydynt yn breswylwyr yn loetran yn y llwybr gan achosi niwsans sŵn yn hwyr yn y nos ac yn defnyddio'r llwybr i gymryd cyffuriau.

Byddai hwn yn wahanol i'r sefyllfa gyfredol gan y byddai un gorchymyn yn gallu cwmpasu'r holl broblemau hyn, yn hytrach na gorfod dilyn prosesau gwahanol i bob un. Byddai hwn yn lleihau biwrocratiaeth i awdurdodau lleol, a'i wneud yn haws i fusnesau a chymunedau lleol ddylanwadu ar gyfyngiadau sy'n bodoli yn eu hardaloedd.

3.27 O dderbyn bod y gorchymyn yn effeithio ar y defnydd o ofod cyhoeddus, byddai angen i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r gymuned leol a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a etholir yn uniongyrchol cyn gwneud y gorchymyn, ac i'w gyhoeddi. Byddai methiant i gydymffurfio r cyfyngiadau'n dramgwydd troseddol, â dirwy uchaf o £1,000 ar ôl euogfarn. Eto, byddai ymarferwyr yn gallu cyhoeddi Rhybudd Cosb Benodedig fel dewis amgen i erlyniad.

3.28 Yn unol â dymuniad y Llywodraeth i ddatganoli pwerau i ardaloedd lleol, byddai'r gorchymym yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau heb yr angen i fynd trwy Lywodraeth ganolog. Mae hwn yn darparu mwy o ddisgresiwn lleol nag is-ddeddfau cyfredol ble mae rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol eu cymeradwyo. Yn lle, byddai'r gymuned leol, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu yn eu goruchwylio. Bydd canllawiau ar ymgynghori a chyhoeddi'r gorchmynion hyn, sy'n anelu at daro cydbwysedd rhwng hyblygrwydd a thegwch, yn dilyn deddfwriaeth.

---

20 Dan Adran 235 Deddf Llywodraeth Leol 1972

## Amddiffyn mannau cyhoeddus – yr heddlu

3.29 Ymgynghoron ni hefyd ar roi pŵer newydd i'r heddlu i wasgaru unigolion yn achosi neu debygol o achosi ASB mewn mannau cyhoeddus sy'n cyfuno elfennau mwyaf effeithiol y pwerau cyfredol amrywiol yn bŵer sengl llai fiwrocrataidd i'r heddlu. Cyfyngiad arwyddocaol ynghylch pwerau cyfredol yr heddlu i wasgaru unigolion yn achosi ASB yw bod rhaid cytuno arnynt o flaen llaw a gellir eu defnyddio mewn ardal ragdrefnedig yn unig. Mewn sefyllfa sy'n newid yn gyflym, ble gall carfannau gasglu'n gyflym i achosi ASB neu anhrefn ac yna symud i ardaloedd eraill, mae'r pwerau cyfredol yn aneffeithiol.

3.30 Yn sgil yr ymgynghoriad rydym yn cynnig cyflwyno pŵer hyblyg newydd i'r heddlu sy'n cyfuno elfennau mwyaf effeithiol y pwerau cyfredol amrywiol yn bŵer sengl llai fiwrocrataidd i'r heddlu. Byddai hwn yn galluogi swyddogion yr heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs)[21] i ofyn i berson sydd wedi cyflawni, neu sy'n debygol o gyflawni, ymddygiad gwrthgymdeithasol[22] i adael ardal benodedig heb ddychwelyd am hyd at 48 awr. Ni fyddai angen i ddynodi ardal o flaen llaw. Gallai'r pŵer weithredu mewn unrhyw fan cyhoeddus, ac mewn ardaloedd cyffredin o dir preifat â chaniatâd y tirfeddiannwr. Mae hyn yn golygu y gallai'r heddlu ddelio'n gyflym â mannau trafferthus sy'n datblygu, yn darparu seibiant uniongyrchol i ddioddefwyr.

3.31 Byddem yn cadw'r pŵer cyfredol i'r heddlu i ddychwelyd plant dan 16 i'w cartref neu i le diogel os ydynt yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol heb gwmni oedolyn cyfrifol ar ôl 9yh. Byddwn yn defnyddio'r canllawiau atodol i leddfu'r risgiau a godir gan elusennau plant fel Barnardo's, y gallai hwn gynyddu'r risg i blant hyglwyf (e.e. trwy eu dychwelyd i amgylchedd o gamdriniaeth yn eu cartref). Hefyd rydym yn amddiffyn plant sy'n hyglwyf i gamdriniaeth neu gamfanteisio trwy ein gwaith gwarchod ehangach er mwyn cyflawni ein hymrwymiadau i'r Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (gan gynnwys er enghraifft gwaith gydag ACPO ar hyfforddiant i swyddogion yr heddlu er mwyn sicrhau eu bod yn adnabod yr arwyddion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant).

3.32 Byddai swyddog yr heddlu'n gallu gofyn i unigolyn ildio eitemau sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol (e.e.alcohol). Byddai angen i ddal unrhyw eitemau a gymerwyd i ffwrdd yn yr orsaf heddlu am gyfnod penodol o amser (e.e. 28 diwrnod) i roi cyfle i'r unigolyn ei adennill. Hefyd gall cwnstabl wrthod dychwelyd yr eitem i unigolyn dan 16 oni bai eu bod yng nghwmni rhiant neu oedolyn priodol arall, er mwyn gorfodi cyfrifoldeb rhieiniol.

3.33 Byddai methiant i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd yn dramgwydd troseddol â dirwy mwyaf o £2,500 a/neu dri mis yn y carchar. Byddai methiant i ildio eitemau a gymerwyd i ffwrdd hefyd yn dramgwydd troseddol â chosb o £1,000 a/neu un mis yn y carchar. Mae'r sancsiynau hyn yn unol â phwerau cyfwerth cyfredol, a byddant yn sicrhau bod canlyniadau difrifol yn sgil methiant i gydymffurfio.

3.34 Fel trefniad diogelu i sicrhau y defnyddir y pŵer yn gymesur ac er mwyn amddiffyn hawliau dinesig, rydym yn cynnig y byddai rhaid cyhoeddi'r data ar ei ddefnydd yn lleol. Byddai gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu rôl allweddol ynghylch dal heddluoedd i gyfrif ar hwn er mwyn sicrhau bod swyddogion yn defnyddio'r pŵer yn gymesur. Byddai cyhoeddi'r data'n lleol hefyd yn helpu amlygu unrhyw ardaloedd 'poethfan' a allai angen datrysiad hirdymor (e.e. gweithgareddau gwrthdyniadol ar gyfer pobl ifanc neu gyflwyniad o gamerâu CCTV i helpu 'cynllunio allan' troseddu ac ASB).

---

21 Os dynodir y pŷer (neu elfennau ohono) gan eu Prif Gwnstabl.

22 Y prawf fyddai 'bod gan y cwnstabl seiliau rhesymol i amau bod ymddygiad y person yn cyfrannu at ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddu neu anhrefn yn yr ardal neu'n debygol o wneud hynny a bod cyfarwyddo'n angenrheidiol'

3.35 Gellid defnyddio'r pŵer hwn mewn amrediad o sefyllfaoedd i wasgaru unigolion gwrthgymdeithasol a darparu seibiant uniongyrchol i gymuned leol. Er enghraifft, os oedd rhywun yn reidio mini-moto ar ystad gan achosi gofid i eraill o ganlyniad i'r sŵn, gellid gofyn iddynt symud ymlaen a chymryd eu mini-moto i ffwrdd, ac os oeddynt dan 16 ac roedd ar ôl 9yh, gellid mynd â nhw adref. Neu os oedd carfan o unigolion yn defnyddio eu cŵn i frawychu ac aflonyddu eraill mewn parc cyhoeddus, gellid gofyn iddynt adael heb ddychwelyd am hyd at 48 awr. Ar hyn o bryd, byddai rhaid i asiantaethau fynd trwy'r broses o ddynodi'r ardal fel parth gwasgaru - broses a all fod yn araf iawn - cyn gallu delio â phroblemau fel y rhain, yn gadael dioddefwyr ar drugaredd yr ASB am fisoedd.

## Amddiffyn cymdogaethau lleol - cau tai a ddefnyddir i gynnal ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol

3.36 Mewn rhai cymunedau mae safleoedd neilltuol sy'n ganolbwynt cyson am ASB llym, yn sicrhau bod bywydau pobl sy'n byw gerllaw yn druenus. Er bod pwerau presennol i gau'r tai hyn, maent yn debyg iawn ac yn gorymylu mewn nifer o ffyrdd, sy'n ddryslyd i'r bobl sy'n eu defnyddio, ac i'r dioddefwyr y'u cynlluniwyd i'w hamddiffyn. Rydym yn cynnig cyfuno pedwar o'r pwerau hynny (Adran 161 Rhybuddion Cau; caeadau dros dro awdurdodau lleol ; Gorchmynion Cau Tai Crac; a Gorchmynion Cau Safleoedd ASB) mewn gorchymyn sengl.

## Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol (cau)

3.37 Byddai'r pwerau cau newydd, symlach, yn caniatáu i'r heddlu neu awdurdod lleol amddiffyn dioddefwyr yn gyflym trwy gyhoeddi gorchymyn i gau unrhyw safle dros dro, gan gynnwys safleoedd trwyddededig, busnesau a thai preifat am hyd at 48 awr os oes niwsans cyhoeddus neu os yw'n debygol y bydd anhrefn cyn bo hir ac os oes angen am y caead. Byddai rhaid i'r heddlu neu awdurdod lleol wneud cais i'r Llys Ynadon cyn gynted â rhesymol ymarferol ar ôl i'r gorchymyn ddod i rym i'r llys ystyried y gorchymyn ac unrhyw estyniad. Byddai'r preswylydd arferol, perchennog neu landlord o hyd yn gallu mynd i mewn i safle sy'n destun caead am lai na 48 awr. Byddai toriad ar y caead 48 awr yn tynnu dirwy fwyaf o £5,000 i unigolion, ddirwy fwyaf o £20,000 i fusnesau a/neu hyd at dri mis yn y carchar.

3.38 Gellid defnyddio'r rhybudd mewn amrediad o sefyllfaoedd yn gysylltiedig â safleoedd trwyddedig ac eraill ill dau, gan gynnwys:

- Cau clwb nos, ble mae gan yr heddlu gudd-wybodaeth sy'n awgrymu bod anhrefn yn debygol yn y cyffiniau uniongyrchol ar nos Wener benodol; a
- Chau safle ble mae cerddoriaeth uchel yn cael ei chwarae ar oriau anghymdeithasol mewn ardal breswyl, ble roedd trafodaethau wedi methu datrys y broblem..

3.39 Byddai'r prawf ar gyfer cadw'r safle ar gau am fwy o amser na'r 48 awr yn uwch na'r prawf cychwynnol: bod person wedi ymgysylltu ag anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol ar y safle, a bod y safle'n gysylltiedig ag anhrefn neu niwsans difrifol. Gellid cau safle sy'n destun y fath orchymyn yn gyfangwbl am hyd at dri mis ar y cychwyn, ac hyd at fwyafswm o chwe mis fel cyfanswm. Byddai toriad ar y gorchymyn cau'n denu dirwy fwyaf o £5,000 i unigolion, ddirwy fwyaf o £20,000 i fusnesau a/neu hyd at chwe mis yn y carchar.

3.40 Enghreifftiau o ble y gellid ceisio am orchymyn cau hwy yw:

- Safle a ddefnyddir ar gyfer delio mewn cyffuriau, yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol yn y cyffiniau uniongyrchol;

- Safle ble mae ymddygiad parhaus y preswylwyr (e.e. ymwelwyr yn mynd a dod ar bob amser, partïon swnllyd aml, aflonyddu a brawychu cymdogion) yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol yn y cyffiniau uniongyrchol.

## TROI ALLAN CYMDOGION HUNLLEF

3.41 Dylai'r bobl hynny sy'n camddefnyddio eu tenantiaethau ddisgwyl wynebu'r canlyniadau. Nid yw'n dderbyniol i beri bod bywydau cymdogion yn druenus. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y dylid defnyddio taflu allan fel dull eithriadol yn unig pan yw ymyriadau eraill wedi'u ceisio a methu. Yn rhy aml fodd bynnag, ble mae landlordiaid preifat neu gymdeithasol yn ceisio meddiant pan fetha popeth arall er mwyn darparu seibint i gymunedau ac fel sancsiwn difrifol, gall y broses gymryd gormod o amser.

3.42 Cynigiodd ymgynghoriad diweddar gan Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) gyflwyno llwybr mandadol newydd tuag at feddiant oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel ffordd i leihau'n sylweddol hyd y broses o gael meddiant a darparu seibiant cyflymach i dioddefwyr a chymunedau. Gallai landlordiaid cymdeithasol a landlordiaid preifat ddefnyddio hwn. Gallent ddewis y llwybr mandadol hwn ble roedd ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol cysylltiedig â thai eisoes wedi'i brofi gan lys arall. Ble fyddent yn gwneud hwn byddai angen i'r llys, yn amodol ar y landlord yn dilyn y weithdrefn gywir ac ystyriaethau ynghylch cymesuredd, (ble mae'r landlord yn awdurdod cyhoeddus), roi meddiant. Hefyd mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch cyflwyno'r llwybr mandadol newydd hwn tuag at feddiant yng Nghymru.

3.43 Yn sgil y terfysg eang yn Awst 2011, ymestynwyd yr ymgynghoriad DCLG er mwyn ceisio barnau ymgyngoreion ar ledaenu pwerau presennol landlordiaid i geisio meddiant ar seiliau disgresiwn i gynnwys euogfarnau am dramgwyddau cysylltideig â therfysg, wedi'u cyflawni y tu hwnt i leoliad yr eiddo yn ogystal ag ynddo.

3.44 Dangosodd ymatebion i'r ymgynghoriad raniad a oedd fwy neu lai'n gyfartal ynglŷn â'r cynnig diwethaf hwn. Roedd cefnogaeth eang, yn arbennig gan landlordiaid, ar gyfer cyflwyno llwybr mandadol newydd tuag at feddiant, er bod pwyslais cryf hefyd ar yr angen i ystyried a ddylid defnyddio'r llwybr mandadol ar sylfaen fesul achos ac i sicrhau amddiffyniadau iawn ar gyfer tenatiaid.

3.45 O ystyried ymatebion yr ymgynghoriad ein cynigion terfynol yn Lloegr yw:

- Ymestyn y sail disgresiwn presennol am feddiant i gynnwys euogfarnau tenantiaid neu aelodau eu cartref ar gyfer tramgwyddau a gyflawnir yng ngyhyffiniau terfysg ble bynnag y digwyddodd hwnnw yn y Deyrnas Unedig. Byddai'r tramgwyddau hynny'n cynnwys anhrefn a chynnwrf treisgar a phryfocio trais gan gynnwys trais yn erbyn eiddo yn ogystal â phobl a lladrad;

- Cyflwyno llwybr mandadol newydd tuag at feddiant, wedi'i fodelu ar y broses ar gyfer dod â thenantiaethau cyflwyniadol i ben ar gyfer landlordiaid awdurdod lleol ac ar seiliau mandadol presennol am feddiant (er enghraifft oherwydd dyledion rhent) ar gyfer darparwyr cofrestredig o dai cymdeithasol a landlordiaid yn y sector gosod preifat;

3.46 Gallai landlordiaid ddewis defnyddio llwybr mandadol tuag at feddiant yn hytrach na'r seiliau disgresiwn presennol, ble mae un o'r 'ysbardunau' dilynol yn gymwys:

- Roedd tenant, aelod o'u cartref neu ymwelydd i'r eiddo wedi'i euogfarnu am dramgwydd treisgar neu rywiol, dramgwydd yn erbyn eiddo, cyflenwi cyffuriau, neu gynhyrchu â'r bwriad o gyflenwi cyffuriau, ble roedd y tramgwydd yn dditiadwy ac wedi'i gyflawni yn lleoliad yr eiddo yn ystod y 12 mis blaenoeol;

- Roedd llys wedi penderfynu bod Gwaharddeb Atal Troseddu a gafwyd gan y landlord neu ar ôl ymgynghori ag ef wedi'i thorri gan denant, aelod o'u cartref neu ymwelydd i'r eiddo o fewn y 12 mis blaenorol;

- Roedd yr eiddo wedi'i gau o ganlyniad i lys yn rhoi Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol (cau) am fwy na 48 awr;

- Roedd tenant, aelod o'u cartref neu ymwelydd wedi'i euogfarnu gan lys am dorri ar rybudd atal sŵn, mewn cysylltiad ag eiddo'r tenant, dan y system niwsans statudol.

3.47 Dylai'r ysbardunau hyn ddarparu sylfaen dda ar gyfer sicrhau bod llwybr mandadol tuag at feddiant wedi'i neilltuo i ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol a brofwyd neu drosedd sy'n achosi niwed i'r gymuned leol neu unigolion y tu mewn iddi. Dan yr amgylchiadau cyfyng hyn, ble roedd llys wedi penderfynu eisoes bod ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol neu droseddoldeb wedi digwydd, credwn ei fod yn gywir y dylai proses gyflymach o daflu allan fod ar gael i landlordiaid preifat a chymdeithasol.

3.48 Gellir dod o hyd i grynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a rhagor o fanylion ar y cynigion terfynol yng ngolau'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol.

## CRYNODEB:

**Byddwn yn rhoi'r offer angenrheidiol i broffesiynwyr i Amddiffyn Dioddefwyr yn effeithiol trwy:**

Dorri'r cawl gwyddor presennol o bwerau anhwylus gan dros ddau draean, yn disodli'r 19 o bwerau presennol cymhleth gyda chwech pŵer newydd, syml. Y chwech offeryn rydym yn eu cyflwyno yw:

1. Y Waharddeb Atal Troseddu - waharddeb sydd ar gael i amrediad eang o asiantaethau, y gellir ei defnyddio'n gyflym i amddiffyn dioddefwyr trwy ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan denantiaid preifat a pherchen-feddianwyr, yn ogystal â thenantiaid cymdeithasol (yn trafod beirniadeth o'r Waharddeb ASB bresennol)

2. Y Gorchymyn Ymddygiad Troseddol - orchymyn sydd ar gael ar ôl euogfarn am unrhyw dramgwydd troseddol sy'n caniatáu i lysoedd atodi gofynion cadarnhaol er mwyn sicrhau bod cyflawnwyr yn delio â'r problemau gwaelodol sy'n gyrru eu hymddygiad (yn trafod beirniadaeth o'r ASBO), yn ogystal â chynnwys gwaharddiadau i amddiffyn dioddefwyr ar unwaith.

3. Y Rhybudd Amddiffyn Cymunedol - a gynlluniwyd i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neilltuol sy'n effeithio ar ansawdd bywyd cymuned (er enghraifft i ddelio â sŵn, sbwriel neu graffiti).

4. Y Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol (gofod cyhoeddus) - orchymyn y penderfynir arno'n lleol a allai osod rheolaethau ar ymddygiad mewn mannau cyhoeddus, er enghraifft rheoli yfed mewn mannau cyhoeddus yn ogystal ag atal ymddygiad arall sy'n effeithio ar ansawdd bywyd.

5. Y Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol (cau) - yn symleiddio'r nifer gyfredol gymhleth o bwerau sydd ar gael i gau safleoedd sy'n denu trafferth.

6. Y Pŵer Cyfarwyddo - pŵer symlach a llai biwrocrataidd i alluogi'r heddlu i wasgaru sefyllfaoedd er mwyn amddiffyn dioddefwyr heb yr angen i fynd trwy broses hir ac araf i ddynodi ardal o flaen llaw.

Cyflymu'r broses o daflu allan ar gyfer cymdogion hunllef sy'n peri bod bywydau dioddefwyr yn druenus. I wneud hwn rydym yn cyflwyno llwybr mandadol newydd tuag at feddiant oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer landlordiaid preifat a chymdeithasol ill dau, fel ffordd o leihau'n sylweddol hyd y broses o feddiannu a darparu seibiant cyflymach i ddioddefwyr a chymunedau.

# 4. Datrysiadau hirdymor: Mynd i'r afael â gyrwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol

4.1 Ni ellir mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) yn yr hirdymor trwy ddelio'n adweithiol ag ymddygiad y rhai hynny sydd eisoes â phroblemau ymddygiadol difrifol sydd wedi ymwreiddio Yn unol ag ymagwedd mentrau eraill, fel strategaeth y Llywodraeth ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae rhaid inni hefyd atal ASB rhag digwydd, er enghraifft trwy fynd i'r afael â'r ffactorau risg a all ei yrru ar draws y gymdeithas: o ymyriadau cynnar mewn rhianta ac addysg i ddelio â chamddefnyddio cyffuriau ac yfed trafferthus. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Llywodraeth ac asiantaethau lleol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn.

## MYND I'R AFAEL AG YFED TRAFFERTHUS

4.2 Mae alcohol wedi bod yn yrrwr mawr o droseddu ac anhrefn dros y degawd diwethaf. Mae'r cysylltiad rhwng alcohol a thrais yn gyfarwydd iawn, gyda bron hanner o droseddau treisgar (h.y. oddeutu un miliwn yn 2010/11) yn gysylltiedig ag alcohol. Mae alcohol hefyd yn yrrwr allweddol o ASB, o ran anhrefn eang a waethygir gan alcohol mewn canolau trefi, ac hefyd, er enghraifft, yr ASB mwy parhaus, sydd wedi ymwreiddio, a gyflawnir gan yfwyr ar y stryd. Yn ôl ffigyrau'r Arolwg Troseddu i Loegr a Chymru yn 2010/11, mae oddeutu chwarter y cyhoedd yn meddwl bod pobl yn meddwi neu ymddwyn yn swnllyd mewn mannau cyhoeddus yn broblem fawr iawn neu weddol fawr yn eu hardal leol.

4.3 Mae alcohol yn chwarae rôl allweddol yn ein heconomi, cymuned a bywyd cymdeithasol. Fodd bynnag, mae rheoleiddio heb ei dargedu a methiant unigolion, busnesau, asiantaethau lleol ac yn y pen draw y Llywodraeth i gymryd cyfrifoldeb am y niwed sy'n gysylltiedig ag yfed anghyfrifol wedi arwain at ddiwylliant o dderbyniad a goddefgarwch ynghylch y rhai hynny sy'n gwbl feddw mewn mannau cyhoeddus ac yn achosi niwsans i bobl eraill. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno cynlluniau i newid hwn yn y Strategaeth Alcohol newydd ac mae wedi deddfu trwy'r Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 i roi mwy o bwerau i'r heddlu a chymunedau lleol i weithredu yn erbyn busnesau anghyfrifol.

4.4 Rydym hefyd yn mynd i'r afael ag yfed trafferthus trwy ein diwygiadau i'r offer ASB a phwerau a amlinellir ym mhennod tri. Byddai ein pwerau newydd arfaethedig i ddelio ag unigolion gwrthgymdeithasol yn galluogi'r llysoedd i fynnu bod rhywun yn rhoi'r gorau i yfed, yn ogystal ag eu gwahardd rhag tafarnau penodol. Rydym hefyd yn gwella'r system i awdurdodau lleol a'r heddlu ddelio ag ASB mewn mannau cyhoeddus. Mae hyn yn golygu y bydd yn haws iddynt stopio'r niwsans ac anhrefn a achosir gan bobl sy'n feddw iawn mewn mannau cyhoeddus, ac i atal problemau rhag digwydd trwy, er enghraifft, gymryd alcohol i ffwrdd. Ar ben hynny, rydym yn cynnig symleiddio a chyfuno pwerau i gau safleoedd sy'n achosi problemau, gan gynnwys safleoedd trwyddededig, sy'n peri bod bywydau pobl sy'n byw gerllaw yn druenus.

4.5 Yn ei thrydydd adroddiad fel eiriolydd y Llywodraeth dros gymunedau gweithgar, diogelach, cyhoeddodd y Farwnes Newlove y greadigaeth o Gronfa Alcohol £1m i gefnogi cymunedau lleol wrth iddynt fynd i'r afael â'r troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a achosir gan oryfed mewn pyliau ac yfed dan oed. Bydd y gronfa, a weinyddir gan Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, ar gael i awdurdodau lleol i'w gwario dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae grwpiau cymunedol, preswylwyr lleol, yr heddlu, gweithwyr iechyd, manwerthwyr ac addysgwyr yn gwbl hanfodol wrth adnabod y problemau a chyflawni'r datrysiadau.

4.6 Cyhoeddwyd y deg ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer ariannu yn gynharach yn y mis. Y rhai llwyddiannus yw Dwyrain Bury, Chelmsford, Cernyw, Swydd Durham, Lincoln, Maidstone, Moseley, Newcastle, Swydd Amwythig, Wakefield. Hefyd caiff prosiectau arloesol llai eu hariannu. Dros y ddwy flynedd nesaf bydd y Farwnes Newlove yn gweithio'n agos iawn gyda'r partneriaethau hyn i sicrhau y bydd gweithgarwch lleol a arweinir gan y gymuned yn gyrru ymddygiad gwrthgymdeithasol a achosir gan yfed trafferthus i lawr. Bydd hi'n annog eraill i helpu, daro i lawr y rhwystrau i lwyddiant a biwrocratiaeth diangen, a sicrhau y mabwysiadir y syniadau gorau'n ehangach. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Lleol.

## ATAL DEFNYDD ANGHYFREITHLON O GYFFURIAU

4.7 Gall defnydd anghyfreithlon o gyffuriau chwarae rôl wrth barhau ag ASB (e.e. fel ffactor cyfrannol mewn teuluoedd â phroblemau neu oherwydd effaith camddefnydd sylweddau yr unigolyn ei hunan ar eu hymddygiad). Fodd bynnag, mae mathau penodol o ASB a achosir o ganlyniad i ddefnydd anghyfreithlon o gyffuriau ei hunan.

4.8 Yr amlycaf o'r rhain yw cymryd drosodd tŷ lleol i werthu a chymryd cyffuriau anghyfreithlon, sy'n hysbys fel 'tai crac', er bod hwn yn cynnwys amrediad ehangach o gyffuriau dosbarth A. Gall yr amhariad a gorbryder a achosir i dai cymdogol amrywio o sŵn trwy gydol y dydd a nos a pharaffernalia cyffuriau i ymddygiad bygythiol i sicrhau nad adroddir am y 'tŷ crac' i'r heddlu. Fel a amlinellwyd ym mhennod tri, adolygon ni bwerau cau 'tai crac' fel rhan o'n hadolygiad o'r ddeddfwriaeth ASB, a bydd ein cynlluniau ar gyfer diwygio'n cadw'r elfennau gorau ynddynt, tra'n symleiddio'r nifer o bwerau tebyg iawn sydd ar gael i gau tai.

4.9 Mae Strategaeth Cyffuriau'r Llywodraeth yn bendant bod defnydd anghyfreithlon o gyffuriau'n tanseilio cymunedau. Mae gweithredu cadarn wedi'i gyflawni ar lefel leol gan yr heddlu mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol a'r cymunedau eu hunain yn allweddol wrth fynd i'r afael â'r problemau hyn ynghylch cyffuriau. Un enghraifft o'r ffordd rydym yn gwneud hwn yn y Strategaeth Cyffuriau yw'r rhaglen Dyfodol Positif £10 miliwn, a fydd yn cyflawni gweithgareddau ataliadol a gwrthdyniadol sy'n targedu a chefnogi pobl ifanc rhwng 10-19 blwydd oed er mwyn eu hatal rhag cael eu tynnu i mewn i ASB, troseddu a chamddefnyddio sylweddau. Un arall yw'r ffordd, mewn ardaloedd lleol, mae'r Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau'n parhau i adnabod troseddwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau a'u troi i ffwrdd o droseddu ac i mewn i driniaeth a chefnogaeth wrth wella. Yn 2010-11, rheolodd y Rhaglen bron 63,000 o droseddwyr aeddfed a oedd yn camddefnyddio cyffuriau Dosbarth A i mewn i driniaeth.

## MYND I'R AFAEL Â'R PROBLEMAU A ACHOSIR GAN DEULUOEDD Â PHROBLEMAU

4.10 Mae Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol diweddar y Llywodraeth[23] yn cyflwyno pwysigrwydd y teulu fel y bloc adeiladu cyntaf a phwysicaf ym mywyd plentyn. Mae'n disgrifio sut y bydd pwyslais cynyddol ar ymyrraeth gynnar yn helpu sicrhau y gall teuluoedd gael mynediad at y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn atal problemau sy'n codi a mynd i'r afael â phroblemau cyn eu bod yn cael eu plannu. Mae'r Adran Addysg yn darparu cyllid sy'n werth mwy na £2.2 biliwn y flwyddyn trwy'r Grant Ymyrraeth Gynnar - y gellir ei ddefnyddio i ariannu ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol; ac ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn caffael Sefydliad Ymyrraeth Gynnar a fydd yn darparu trosolwg o'r 'hyn sy'n gweithio' i awdurdodau lleol a chomisiynwyr a gweithredu fel hwb ar gyfer arbenigedd a gwasanaethau presennol yn y maes. Mae hwn wrth ochr buddsoddiad a ymrwymir eisoes i ddarparu cefnogaeth berthynas ar gyfer parau a rhieni i'w helpu cydweithio er lles eu hunain a'u plant.

4.11 Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd rhai teuluoedd y dinistrir eu bywydau gan droseddu, diweithdra, dibyniaeth ar sylweddau, dyheadau isel a methiant addysgol o hyd, hyd yn oed gyda'r ffocws cynyddol ar ymyrraeth gynnar. Yn aml cysylltir cefndir teuluol trafferthus a rhianta gwael gyda phobl ifanc sy'n cyflawni ASB a throseddu o ystyried bod gymaint o'r dylanwadau cynnar ar blentyn yn perthyn i'r sefyllfa deuluol maent yn tyfu i fyny ynddi. Gall llawer o broffesiynwyr amlygu'n gyflym y teuluoedd sy'n achosi problemau'n gyson yn eu cymdogaeth. Dyma pam mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i droi bywydau y 120,000 o deuluoedd mwyaf trafferthus yn Lloegr o gwmpas erbyn diwedd y Senedd hon[24.]

---

23 [1][1] *Cyfiawnder Cymdeithasol: trawsffurfio bywydau,* Mawrth 2012

24 See http://www.communities.gov.uk/communities/troubledfamilies/ am ragor o wybodaeth ac astudiaethau achos.

4.12 Mae'r garfan hon o deuluoedd yn cael effaith anferth ar les y bobl o'u cwmpas gan gostio oddeutu £9 biliwn y flwyddyn i'r trethdalwr, gyfwerth i £75,000 y teulu sy'n cael ei wario i raddau helaeth ar adweithio i broblemau fel delio â'u troseddu ac ASB, yn ogystal â gwarchod plant. Mae plant sy'n byw yn y teuluoedd hyn yn 36 gwaith mwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol a chwe gwaith mwy tebygol o fod mewn gofal neu fod mewn cysylltiad â'r Heddlu[25]. Nid yw hwn yn gost y gallwn fforddio ei ddioddef bellach - naill ai'n ariannol neu mewn bywydau gwastraff.

4.13 Nid yw'r teuluoedd hyn y tu hwnt i help a gellir troi eu bywydau o gwmpas gyda chefnogaeth gydgysylltiedig a dwys. Mae llawer o ardaloedd a gwasanaethau o gwmpas y wlad eisoes yn gweithio'n ddwys gyda'r teuluoedd hyn, fel trwy Brosiectau Ymyrraeth Teuluol (FIP), ble penodir gweithiwr allweddol i deuluoedd i weithio gyda nhw er mwyn cael gafael ar eu problemau ac i gydgysylltu gwaith asiantaethau sy'n ymgysylltu â nhw. Cynhelir y buddsoddiad cynyddol mewn cefnogaeth ddwys gan dystiolaeth[26] sy'n dangos bod FIPs yn effeithiol wrth drafod problemau sydd wedi ymwreiddio a wynebir gan y teuluoedd hyn, gan gynnwys gostyngiad o 58% o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol a gostyngiad o dros 50% o ran triwantiaeth, yn ogystal â gwelliannau arwyddocaol o ran problemau iechyd a chymdeithasol eraill.

4.14 Sefydlwyd Tîm Teuluoedd Trafferthus newydd a leolir o fewn Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol ac wedi'i arwain gan Louise Casey, i gyfuno a gyrru ymlaen ymdrechion ar draws Whitehall ac i ddarparu cymorth arbenigol. Eu nod yw sicrhau y cefnogir y teuluoedd hyn i mewn i addysg a chyflogaeth, ac y trafodir eu troseddu ac ASB. Bydd cyfanswm o £448 miliwn ar gael o gyllidebau presennol chwech Adran i gwrdd â'r ymrwymiad hwn dros y dair blynedd nesaf. Bydd £420 miliwn o hwn yn ariannu gweithredu ac ymyriadau mewn ardaloedd ar draws Lloegr gan awdurdodau lleol a'u partner-asiantaethau, a defnyddir £28 miliwn i roi hwb i gymorth Yr Adran Waith a Phensiynau ar gyfer Teuluoedd Trafferthus.

## MYND I'R AFAEL AG ANGHENION IECHYD Y MEDDWL AC ANGHENION IECHYD ERAILL

4.15 Mae cysylltiadau cryf rhwng ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol ac anghenion iechyd penodol. Mae risg uchel y bydd rhywun â'r anghenion iechyd hynny'n mynd ynghlwm wrth gylch dibaid o droseddoldeb a chosb unwaith mae'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid neu Droseddol. Bydd y cylch hwn yn cael effaith arwyddocaol ar eu cyfleodd mewn bywyd ac ar y bobl a'r gymuned o'u cwmpas ill dau. Cydnabyddir hwn yn *Dim Iechyd Heb Iechyd y Meddwl*, strategaeth canlyniadau iechyd meddwl y Llywodraeth ar gyfer pobl o bob oedran, sydd â'r ddau nod o wella iechyd meddwl y boblogaeth a gwella gwasanaethau iechyd y meddwl.

4.16 Mae'r Strategaeth yn cydnabod y gall problemau ynghylch iechyd y meddwl hefyd gyfrannu at barhau cylchoedd o anghydraddoldeb trwy genedlaethau. Gall ymyrryd yn gynnar, yn arbennig gyda phlant hyglwyf a phobl ifanc, wella iechyd a lles oes gyfan, atal afiechyd y meddwl a lleihau costau a dynnir gan afiechyd, diweithdra a throseddu. Mae'r fath ymyriadau o les nid yn unig i'r unigolyn yn ystod eu plentyndod ac i mewn i oed, ond hefyd gallant wella'u gallu i rianta, felly mae gan eu plant yn eu tro lai o risg ynghylch problemau iechyd y meddwl a'u canlyniadau.

4.17 Fel gyda phroblemau ynghylch iechyd y meddwl, mae problemau ymddygiadol, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, yn aml yn cychwyn yn gynnar mewn bywyd. Mae'r ymagwedd a fabwysiadir gan y strategaeth yn canolbwyntio ar hyrwyddo lles y meddwl, atal afiechyd y meddwl a defnyddio ymyrraeth gynnar cyn gynted â bod problemau'n codi. Ar gyfer pobl ifanc, er enghraifft, cysylltir anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol â risg gynyddol o arbrofi, camddefnyddio a dibyniaeth ynghylch cyffuriau ac alcohol. Dangoswyd bod ymyriadau aml-systemig sy'n cynnwys pobl ifanc, rhieni, ysgolion a'r gymuned yn lleihau anhwylder ymddygiad, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella perthnasau teuluol a lleihau costau i'r systemau gofal cymdeithasol, cyfiawnder ieuenctid, addysg ac iechyd.

25 Tasglu Allgáu Cymdeithasol, Teuluoedd mewn Perygl, Swyddfa'r Cabinet 2007.

26 Monitro a Gwerthuso Prosiectau a Gwasanaethau Ymyrraeth Deuluol hyd at Fawrth 2011.

4.18 Mae'r Adran Iechyd yn gweithio gyda'r Adran Addysg a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i gefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid iechyd i ddatblygu ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pobl ifanc ar fin gwarchodaeth neu ofal, gan gynnwys Therapi Aml-systemig (MST) ac am ymchwil barhaol i ganlyniadau ar gyfer teuluoedd a chymunedau. Ar hyn o bryd mae 17 o dimau MST ar draws Cymru a bwriedir ehangu hwn i 30 o dimau erbyn Ebrill 2013. Mae naw o'r rhain wedi bod yn rhan o Hap-dreial Wedi'i reoli o MST 'START' wedi'i arwain gan Goleg y Brifysgol Llundain. Dylai'r trywydd ymchwil hwn gwblhau recriwtio erbyn haf 2012 gan adrodd yn 2014.

4.19 Mae'r Adran Iechyd a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi bod yn gweithio i ddatblygu system o 'gydgysylltu a dargyfeirio' sy'n edrych i gydbwyso buddiannau'r dioddefydd ac amddiffyniad y cyhoedd ag anghenion y troseddwr. Egwyddor cydgysylltu a dargyfeirio yw asesu anghenion iechyd troseddwr ac unrhyw elfennau hyglwyf cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt ddechrau arddangos ymddygiad troseddol. Mae hyn yn golygu y gall penderfyniadau ynghylch unrhyw driniaeth sydd ei hangen i drafod problemau gwaelodol eistedd wrth ochr penderfyniadau ar gosb briodol, â'r nod yn y pen draw o atal patrwm o droseddu pellach ac amddiffyn y cyhoedd.

4.20 Ar hyn o bryd rydym yn datblygu gwasanaeth cydgysylltu a dargyfeirio ar gyfer oedolion a phobl ifanc mewn nifer o safleoedd o gwmpas y wlad. Mae'r safleodd braenaru hyn yn cael eu defnyddio i adeiladu tystiolaeth ynghylch effaith y gwasanaethau hyn ar ganlyniadau iechyd ac aildroseddu ill dau, â'r nod o gael gwasanaethau'n barod ledled y genedl erbyn Tachwedd 2014. Fel rhan o'r gwaith i ddatblygu model cenedlaethol ar gyfer cydgysylltu a dargyfeirio, rhoddir cyllid datblygu i nifer o safleoedd er mwyn archwilio i ffyrdd o ymyrryd yn gynharach. Mae dau safle sy'n derbyn cyllid o Ebrill 2012 a fydd yn archwilio i'r potensial am ymestyn cydgysylltu a dargyfeirio i'r bobl ifanc hynny y gwyddys eu bod yn ymwneud ag ASB. Bydd y gwaith hwn yn rhedeg am ddwy flynedd a chaiff ei werthuso.

## MYND I'R AFAEL AG YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL TRWY ANNOG PERCHNOGAETH GYFRIFOL O GŴN

4.21 Mae tystiolaeth gref i ddangos bod codiad mawr wedi bod dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ynghylch perchnogaeth anghyfrifol o gŵn. Er enghraifft, mae'r cyfanswm o oedolion a ddedfrydwyd ar gyfer tramgwyddau'n gysylltiedig â chŵn peryglus wedi cynyddu gan 39%, o 855 yn 2009 i 1192 yn 2010[27]. Mae perswadio perchnogion cŵn i dderbyn cyfrifoldeb am eu hanifeiliaid anwes yn allweddol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem gynyddol a achosir i'r cyhoedd gan gŵn sydd allan o reolaeth. Gall perchnogaeth anghyfrifol o gŵn achosi ASB (yn ogystal ag arwain at ymosodiadau treisgar ar brydiau), ac ymatebodd nifer o elusennau cŵn i'n hymgynghoriad yn 2011, gan gynnwys Cartref Cŵn a Chathod Battersea, y Blue Cross, y Dogs Trust, y Kennel Club a'r RSPCA. Pwysleision nhw i gyd y pwysigrwydd o les anifeiliaid a chanolbwyntio ar gefnogi perchnogion cŵn ynghylch gofalu am eu cŵn yn gyfrifol fel un o'r ffyrdd i ddelio ag ASB gysylltiedig â chŵn.

4.22 I helpu annog perchnogaeth gyfrifol o gŵn mae nifer o brosiectau lleol a seilir yn y gymuned yng Nghymru a Lloegr yn gweithredu mewn ardaloedd â lefelau uchel o broblemau gysylltiedig â chŵn. Fel arfer mae'r rhain yn golygu bod yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'r heddlu ac elusennau lles cŵn i ymgysylltu â pherchnogion cŵn trwy amrediad o ddigwyddiadau, er enghraifft gweithdai a gweithgareddau mewn ystadau, clybiau ieuenctid, ysgolion ac yn y blaen. Yn aml cynigir microsglodynnu ac ysbaddu am ddim i berchnogion cŵn. Mae gweithredu rhyngweithiol o'r math hwn yn aml yn atal cŵn rhag naill ai'n mynd yn niwsans neu berygl i'r gymuned neu orfod erlyn perchnogion am dramgwyddau ynghylch lles cŵn. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yn gweithio gyda sefydliadau lles allweddol i edrych ar brosesau gwerthuso a sicrhau ymagwedd fwy cydgysylltiedig rhwng mentrau lleol, i gynnwys rhannu arfer da.

27 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

4.23 I'r perchnogion hynny sydd o hyd yn methu derbyn cyfrifoldeb am eu cŵn, bydd y cynigion a gyflwynir ym mhennod tri'n rhoi'r hyblygrwydd i asiantaethau i ddelio ag amrediad eang o broblemau ac i amddiffyn dioddefwyr:

- Gellir defnyddio ymyriadau anffurfiol fel Contractau Ymddygiad Derbyniol i atal problemau sy'n datblygu cyn eu bod yn gwaethygu, ble mae'r perchennog yn cydnabod yr effaith mae eu hymddygiad yn ei chael ar y gymuned, ac yn deall y bydd parhau'n ysbarduno canlyniadau mwy ffurfiol;

- Ble mae angen am ymateb fwy ffurfiol yn y man a'r lle, bydd y Rhybudd Amddiffyn Cymunedol yn caniatáu i boffesiynwyr fynnu bod perchennog yn rhoi'r gorau i ymddygiad sy'n effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned yn eu barn nhw. Gallai hwnnw gynnwys, er enghraifft, fynnu bod perchennog yn trwsio ffens os yw eu ci'n dianc yn rheolaidd gan ymosod ar gŵn eraill. Ar ben hynny, bydd y Pŵer Cyfarwyddo'n caniatáu i'r heddlu symud perchennog ymlaen os, er enghraifft, oedd eu ci ymosodol yn dychryn rhieni a phlant y tu allan i ysgol.

- Yn yr achosion mwyaf difrifol, gellid rhoi Gwaharddeb Atal Trosedd i berchennog anghyfrifol yn gyflym iawn a allai eu hatal rhag mynd â'u ci i leoliadau penodol ar adegau penodol, fynnu eu bod yn rhoi mwsel ar eu ci mewn mannau cyhoeddus a mynnu eu bod yn mynychu dosbarthiadau hyfforddi cŵn. Neu os euogfarnir unigolyn am gael ci peryglus, gellid rhoi Gorchymyn Ymddygiad Troseddol iddynt a fyddai'n eu hatal rhag perchen ar gi eto yn y dyfodol.

4.24 Mae'r hyblygrwydd hwn yn golygu na chredwn fod angen deddfu am bŵer ci-benodol, fel a allai fod wedi digwydd yn y gorffennol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) ac amrediad o grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau cŵn a'u perchnogion i sicrhau bod ein cynigion terfynol o'r lles mwyaf wrth ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gysylltiedig â chŵn.

4.25 Yn ychwanegol at ddefnyddio'r pwerau ASB hyblyg newydd i amddiffyn dioddefwyr cŵn peryglus, mae'r Llywodraeth yn ystyried bod angen newid y gyfraith ar gŵn peryglus er mwyn hyrwyddo perchnogaeth fwy cyfrifol o gŵn ac i leihau'r nifer o ymosodiadau gan gŵn. Ar hyn o bryd mae Defra'n ymgynghori ar becyn o fesurau i wneud hwn. Yn yr ymgynghoriad mae cynigion ar gyfer microsglodynnu cŵn bach ac ymestyn y gyfraith bresennol ar gŵn peryglus i gynnwys eiddo preifat yn ogystal â chynlluniau eraill i wella safonau perchnogaeth cŵn. Gellir dod o hyd i'r ymgynghoriad ar wefan Defra: www.defra.gov.uk.

## CRYNODEB:

**Byddwn yn mynd i'r afael â gyrwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy:**

- Leihau defnydd o alcohol a throseddu ac ASB gysylltiedig ag alcohol trwy ein pwerau gwell a symlach i fynd i'r afael ag ASB, a thrwy'r mesurau a gyflwynwyd trwy'r Strategaeth Alcohol a'r Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

- Mynd i'r afael â defnydd anghyfreithiol o gyffuriau trwy ein diwygiadau i'r offer a'r pwerau a thrwy'r Strategaeth Gyffuriau, er enghraifft trwy'r rhaglen Dyfodol Positif £10m a'r Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau.

- Mynd i'r afael â'r problemau a achosir gan deuluoedd â phroblemau trwy raglen newydd a arweinir gan Louise Casey i droi bywydau y 120,000 o deuluoedd mwyaf trafferthus yn Lloegr o gwmpas erbyn diwedd y Senedd hon.

- Mynd i'r afael ag anghenion iechyd y meddwl ac anghenion iechyd eraill trwy dreialu ymestyn cydgysylltu a dargyfeirio i bobl ifanc y gwyddys eu bod yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Mynd i'r afael ag ASB a achosir gan broblemau gysylltiedig â chŵn trwy annog perchnogaeth gyfrifol o gŵn a mynd yn llym ar berchnogaeth anghyfrifol o gŵn trwy ein pwerau ASB newydd symlach.

# Atodiad A
# Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

## YMATEBION YR YMGYNGHORIAD AR YR YSBARDUN CYMUNEDOL, GAN GYNNWYS YMATEBION I BWYNTIAU PENODOL

A.1 Cytunodd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod angen i asiantaethau wneud mwy i amddiffyn dioddefwyr ailadroddus neu hyglwyf o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dywedodd 41% o'r cyhoedd a ymatebodd y byddai'r ysbardun yn gwella'r ffordd y trafodir ASB yn eu hardal, o gymharu ag 16% yn unig a oedd yn meddwl y byddai'n peri i bethau waethygu. Roedd barnau gan asiantaethau'n fwy cytbwys, gyda 31% yn dweud y byddai'r ysbardun yn gwella'r ffordd y trafodir ASB a 33% yn dweud y byddai'n gwneud pethau'n waeth. Fodd bynnag, i lawer roedd y pryder yn codi o gred bod y trothwyon a meini prawf a awgrymwyd yn nogfen yr ymgynghoriad yn rhy argymhellol ac na fyddent yn cwrdd ag anghenion pobl yn eu hardal. Dadleuodd rhai fod angen am fwy o hyblygrwydd lleol i sicrhau bod yr ysbardun yn cyrraedd y bobl a oedd ei angen fwyaf.

### Meini prawf

- Ymgynghoron ni ynghylch cywirdeb y meini prawf ar gyfer yr Ysbardun Cymunedol. Derbyniodd hwn ymateb gymysg gyda rhai ymatebwyr yn ystyried bod y trothwy'n rhy isel ac mor agored i'w gamddefnyddio gan y 'ffynnon bryderus'. Roedd eraill yn teimlo eu bod yn rhy uchel ac felly byddent yn llai tebygol o gael eu defnyddio gan y dioddefwyr mwyaf hyglwyf. O'r ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiwn penodol hwn, roedd 17% yn cytuno â'r meini prawf arfaethedig, a 25% yn anghytuno â'r meini prawf arfaethedig.

- Roedd llawer yn teimlo nad oedd y meini prawf arfaethedig yn ddigon hyblyg, ac roedd galwadau i'r ddeddfwriaeth roi'r cwmpas i ardaloedd lleol i ddiwygio'r meini prawf os oedd yn ymddangos nad oeddynt yn gweithio'n effeithiol.

- Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen cyfeirio i ryw raddau at yr amserlenni y derbynid y cwynion ynddynt gan y byddai hwn yn effeithio ar lefel flaenoriaethol yr achosion.

- Hefyd awgrymwyd y dylai fod ddiffiniad eglur o 'weithredu' gan na ddylai hwn olygu o angenrheidrwydd 'gweithredu mae'r cwynwr eisiau ei weld'.

### Effaith ar grwpiau neilltuol

- Yn yr ymgynghoriad, gofynnon ni a oedd y cynnig mewn perygl o anfanteisio grwpiau neilltuol mewn ffordd anghymesur, a pha gamau diogelu y gellid eu trefnu er mwyn lleddfu ar hwn.

- Yn gyffredinol teimlwyd y byddai'r Ysbardun Cymunedol yn effeithio'n cyfartal ar y mwyafrif o grwpiau. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai rhai cymunedau geisio defnyddio'r ysbardun i stopio pobl ifanc rhag 'loetran' oni bai fod y trothwyon cywir yn bodoli.

- Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid datblygu meini prawf llym i warchod yn erbyn cwynion di-sail, gwamal, maleisus neu blagus er mwyn atal unigolion rhag cael eu targedu'n ddiangen trwy'r broses hon. Fodd bynnag, mae rhaid cymryd gofal i sicrhau nad yw'r rhain mor llym na ddefnyddir yr Ysbardun byth (fel Galwad y Cynghorydd am Weithredu).

- Hefyd awgrymwyd y dylai ardaloedd lleol ddatblygu enghreifftiau clir o ffyrdd gwahanol o fyw a beth sy'n golygu ASB a beth nad yw.

- Amlygodd eraill yr angen am adolygiadau rheolaidd ar ddefnydd yr Ysbardun er mwyn penderfynu ar unrhyw dueddiadau lleol, ac unrhyw addasiadau i'w gwneud i'r meini prawf fel sy'n briodol.

## YMATEBION YR YMGYNGHORIAD AR Y GORCHYMYN YMDDYGIAD TROSEDDOL, GAN GYNNWYS YMATEBION I BWYNTIAU PENODOL

A.2 Roedd y canran o ymatebwyr ymhlith rhanddeiliaid a oedd yn meddwl y byddai'r gorchymyn ar euogfarn yn fwy effeithiol wrth fynd i'r afael ag ASB yn 46%, gyda 19% yn meddwl y byddai'n llai effeithiol.

A.3 *Gofynion positif:* Roedd 58% o ymatebwyr yn croesawu cynnwys gofynion positif yn y Gorchymyn Ymddygiad Troseddol (CBO) a'r Waharddeb Atal Troseddu (CPI), a 38% arall yn cefnogi'r syniad ond gyda phryderon ynghylch y ffordd yr ariannid y rhain yn lleol. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn cytuno nad oedd hwn yn rheswm i beidio mynd ar ôl yr opsiwn hwn gan y gwelwyd bod y buddion posibl o ran lleihau aildroseddu a llai o gostau diweddarach yn sylweddol.

A.4 *Adroddiad ar amgylchiadau teuluol:*Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o gynnwys gwybodaeth ar amgylchiadau teuluol person ifanc wrth wneud cais am orchymyn. Fodd bynnag, yn sgil trafodaethau gydag ymarferwyr sy'n defnyddio gorchmynion cyfredol ar euogfarn, teimlwyd y gellid darparu'r wybodaeth gyd-destunol letach hon ar y person ifanc a'u hamgylchiadau teuluol trwy'r adroddiad cyn dedfrydu (o dderbyn yr atodid y gorchymyn i euogfarn troseddol) ac y byddai adroddiad ar wahân y gofynnir amdano gan statud yn dyblygu prosesau sy'n bodoli.

Er mwyn sicrhau y cymerir anghenion y person ifanc i gyfrif, awgrymwyd y dylid ymgynghori â'r Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) cyn gwneud gorchymyn, a gallent hwy ddarparu rhagor o wybodaeth mewn sefyllfaoedd ble nad oedd angen am adroddiad cyn dedfrydu (e.e. ble roedd gorchymyn cymunedol neu ddedfryd o garchar yn anhebygol). Byddwn hefyd yn pwysleisio mewn cyfarwyddyd atodol y pwysigrwydd o gymryd amgylchiadau teuluol y person ifanc i gyfrif, yn ogystal ag unrhyw broblemau ynghylch iechyd y meddwl neu anawsterau dysgu wrth wneud cais am orchymyn.

A.5 O*Gorchmynion sifil eraill y gellid eu cynnwys:*Ynglŷn â gorchmynion eraill y gellid eu cynnwys, yr un a awgrymwyd fwyaf gan ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn oedd y Gorchymyn i Wahardd Yfed. Teimlwyd y dylid ei ymgorffori o ystyried ei debygrwydd i'r Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) a'n nodau o symleiddio'r broses. Gorchmynion penodol eraill a awgrymwyd oedd Gorchmynion Atal, Gorchmynion Gwahardd Pêl-droed a gwaharddebau ar gangiau. Nid ydym yn cynnig cynnwys y rhain yn y CBO hefyd gan y'u hanelir at wahanol fathau o ymddygiad (trais domestig, trais gysylltiedig â phêl-droed a thrais gysylltiedig â gangiau yn eu tro).

A.6 *Cyfnodau lleiaf a mwyaf:*Eto roedd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn am gyfnodau lleiaf a mwyaf ar gyfer y gorchmynion. Yn gyffredinol teimlwyd bod y cyfnod lleiaf presennol o ddwy flynedd yn rhy hir, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc. Rhannwyd y farn ar gyfnodau mwyaf, gyda rhai pobl yn meddwl bod y rhain yn ddefnyddiol, ac eraill yn dadlau bod gorchmynion tan rybudd pellach yn angenrheidiol mewn rhai achosion.

## YMATEBION YR YMGYNGHORIAD AR Y WAHARDDEB ATAL TROSEDDU, GAN GYNNWYS YMATEBION I BWYNTIAU PENODOL

A.2 Roedd y canran o ymatebwyr ymhlith rhanddeiliaid a oedd yn meddwl y byddai'r gorchymyn sifil gyflymach, fwy effeithiol yn fwy effeithiol wrth fynd i'r afael ag ASB yn 42%, gyda 13% yn meddwl y byddai'n llai effeithiol.

A.8 *Prawf:*Ymgynghoron ni ynghylch a ddylai'r prawf am y waharddeb newydd fod yn ymddygiad sy'n achosi 'aflonyddwch, dychryn neu ofid' (fel gyda'r ASBO) neu 'niwsans neu ddicter' (fel gyda'r Waharddeb ASB). Roedd adborth cymysg ar hwn, gyda landlordiaid cymdeithasol yn arbennig yn dadlau dros yr ail, sydd erbyn hyn wedi'i sefydlu'n glir yn y gyfraith achosion. Hefyd gwelwyd y trothwy hwn fel rhywbeth sy'n lleihau gofynion ynghylch tystiolaeth a helpu darparu seibiant i gymunedau'n gyflymach. Er enghraifft datganodd fforwm Cadeirydd y Fainc Genedlaethol, mewn cysylltiad â'r trothwy o 'niwsans neu ddicter' y "Byddai'r manteision yn arbediad arwyddocaol o ran faint o dystiolaeth y byddai rhaid i'r ymgeisydd ei chasglu a gostyngiad o ran gwrandawiadau hir o flaen y llys".

Ar y llaw arall, dadleuodd rhai elusennau plant ac awdurdodau lleol bod y trothwy hwn yn rhy isel. Er enghraifft dadleuodd Liberty "Mewn gwirionedd bydd y CPI yn ASBO cosbol iawn a fydd yn haws cael gafael arno ar gyfer 'ymddygiad' a ddiffinir yn lletach hyd yn oed'." Yn gyffredinol, ymhlith y rheini a atebodd y cwestiwn hwn, dewisodd 64% 'niwsans a dicter' tra bod 25% yn unig eisiau 'aflonyddwch, dychryn neu ofid'.

A.9 *Llysoedd:*Yn yr ymgynghoriad, gofynnon ni a ddylai'r waharddeb gael ei chynnal yn y Llys Sirol neu Lys yr Ynadon, ac roedd ymatebion yn gymysg ar y pwynt hwn gan gyflwyno dadleuon ar y naill ochr a'r llall. Ar gyfer pobl dros 18, dewisodd 46% y Llys Sirol, dewisodd 32% Lys ye Ynadon, ac roedd 9% eisiau CPIs yn y ddau lys. Cawsom adborth cryf iawn gan landlordiaid cymdeithasol, a oedd yn bryderus ynghylch colli'r Waharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol presennol (ASBI), ac y dylai'r CPI gael ei chynnal yn y Llys Sirol gan eu bod yn fwy cyfarwydd â gorchmynion sifil a bod ganddynt fynediad at bwerau dedfrydu uwch am ddirmyg (dwy flynedd yn y carchar, yn hytrach na dau fis). Roedd eraill hefyd yn cefnogi'r safbwynt hwn, er enghraifft datganodd un Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP) "Baswn o blaid y Llys Sirol gan fod eu gwybodaeth am waharddebau'n debygol o olygu bod llai o geisiadau'n methu a maent yn fwy cyfarwydd â'r safon ar gyfer tystiolaeth sifil." Fodd bynnag datganodd Cymdeithas yr Ynadon "dylid delio â'r gwaharddebau hyn o fewn Llysoedd yr Ynadon ac nid mewn unrhyw ffordd arall."

A.10 *Gwaharddebau ar bobl ifanc:*Gan nad yw'r ASBI presennol yn gymwys i bobl ifanc, roedd cwestiwn ynghylch ble y dylid cynnal y CPIs newydd ar gyfer pobl ifanc. Roedd elusennau plant, er enghraifft y Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Annibynnol ar Droseddu Ieuenctid ac ASB yn awyddus y dylid cynnal yr achosion hyn yn y Llys Ieuenctid os oedd y CPI yn mynd i fod yn gymwys i bobl ifanc, gan eu bod yn fwy priodol fel lleoliad llys ar gyfer pobl dan 18. Codwyd pryderon hefyd mewn nifer o ymatebion ynghylch y gost o gynnal achosion ieuenctid yn y Llys Sirol, oherwydd yr angen am ffrindiau ymgyfreitha. Dadleuodd rhai y byddai'n well cynnal achosion ieuenctid yn yr un llys ag oedolion gan y gallai hwn arbed costau mewn sefyllfa ble roedd CPI yn mynd i fod yn gymwys ar gyfer grŵp oedran cymysg. Yn gyffredinol, ar gyfer y rheini a atebodd y cwestiwn hwn ynghylch pobl dan 18, dewisodd 57% y Llys Ieuenctid, dewisodd 15% y Llys Sirol, dewisodd 5% Lys yr Ynadon, pennodd 9% y dylid eu cynnal yn yr un llys ag ar gyfer pobl dros 18 i helpu delio ag achosion yn cynnwys grwpiau o gyflawnwyr.

A.11 *Cyfnodau lleiaf a mwyaf:*Eto roedd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn am gyfnodau lleiaf a mwyaf ar gyfer y gorchmynion. Fel gyda'r ymatebion i'r cwestiynau ar y Waharddeb Ymddygiad Troseddol, yn gyffredinol teimlwyd bod y cyfnod lleiaf presennol o ddwy flynedd yn rhy hir, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc. Gan fod y CPI yn disodli'r ASBI (sydd heb gyfnodau statudol lleiaf a mwyaf ), ac mae wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio ar adeg gynharach, dadleuodd rhai ymatebwyr y dylai adlewyrchu gwaharddebau sifil eraill, ble gadewir hyd yr orchymyn i ddisgresiwn y llysoedd a'r ymgeisydd.

A.12 *Sancsiynau ar gyfer toriad*:Gofynnon ni a oedd ymatebwyr yn cytuno â'r sancsiynau arfaethedig ar gyfer toriad . Roedd rhai o'r ymatebwyr yn bryderus ynghylch colli sancsiwn troseddol ar doriad yn y CPI. Er enghraifft, meddai un awdurdod lleol "mae angen i'r sancsiynau fod yn fwy er mwyn ychwanegu pwysau i'r CPI". Tra oedd eraill yn cefnogi hwn oherwydd y manteision yn y ffaith bod gwaharddeb sy'n gwbl sifil yn gyflymach i'w chael, ac oherwydd y byddent yn gallu gweithredu eu hunain er mwyn mynd i'r afael â thoriadau ar waharddebau maent wedi gwneud cais amdanynt, ac felly'n rheoli'r broses o ben i ben. Er enghraifft, meddai Cymdeithas y Gyfraith "at ei gilydd, mae'n well gennym ddefnyddio rwymedïau seiliedig ar waharddeb ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn golygu cosb sifil yn hytrach nag euogfarn droseddol, ac felly'n osgoi cymysgu prosesau cyfreithiol troseddol a sifil." Fodd bynnag, roedd rhai pryderon ynghylch a fyddai gan farnwyr Llys Sirol ddigon o hyblygrwydd ar ddedfrydu am ddirmyg llys, yn arbennig gan nad oes mynediad ganddynt at orchmynion ailsefydlu neu ddedfrydau cymunedol.

Ar gyfer pobl ifanc, cytunodd 57% â'r sancsiynau toriad CPI ar gyfer pobl dan 18, a dim ond 22% oedd yn anghytuno, gyda 4% yn erbyn unrhyw warchodaeth ar gyfer pobl dan 18. Mewn cysylltiad â'r cwestiwn o warchodaeth ar gyfer pobl dan 18 am dorri ar orchymyn sifil, roedd nifer o elusennau plant yn gryf yn erbyn hwn, ble roedd y mwyafrif o ymarferwyr ASB ar draws yr holl sectorau o'i blaid.

## YMATEBION YR YMGYNGHORIAD AR Y GORCHYMYN AMDDIFFYN CYMUNEDOL, GAN GYNNWYS YMATEBION I BWYNTIAU PENODOL

A.13 Yn gyffredinol mae ymatebwyr wedi croesawu'r symudiad i ad-drefnu pwerau presennol er mwyn delio â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol lle-benodol sy'n effeithio ar ansawdd bywyd, yn dadlau bod y nifer sydd ar gael ar hyn o bryd yn creu dryswch i broffesiynwyr a'r cyhoedd ill dau. Datganodd 51% o randdeiliad (awdurdodau lleol, yr heddlu, CSPs, darparwyr tai, y farnwriaeth, a'r sector gwirfoddol) a ymatebodd eu bod yn meddwl y byddai'r cynnig yn well na'r system bresennol, gydag 11% yn unig yn dweud y byddai'n waeth. Yn neilltuol, mae ymatebwyr wedi amlygu problemau gyda'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd (e.e. ni all yr heddlu ddefnyddio pwerau sŵn niwsans presennol, ond mae rhai timau sŵn awdurdod lleol yn gweithio yn ystod oriau swyddfa'n unig).

A.14 Mae rhai wedi nodi hefyd y byddai'r Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol yn cydfynd â symudiadau cynghorau penodol i ailgyflunio eu gwasanaethau er mwyn darparu mwy o werth am arian, yn symud at gyflawni trwy dimau cymdogaeth croes-swyddogaethol yn hytrach nag arbenigwyr ar wahân. Fodd bynnag, roedd eraill a oedd yn bryderus y byddai agor y pwerau hyn i amrediad ehangach o ymgeiswyr yn achosi dyblygu neu olygu y byddai mwy nag un rhybudd yn cael ei gyflwyno i'r un unigolyn. Mae hwn yn berygl rydym yn cynnig ei leddfu trwy'r ddeddfwriaeth a chanllawiau.

## YMATEBION YR YMGYNGHORIAD AR Y PŴER CYFARWYDDO, GAN GYNNWYS YMATEBION I BWYNTIAU PENODOL

A.15 Mae ymatebion yr ymgynghoriad ar y cynnig hwn wedi bod yn bositif yn gyffredinol, gyda 60% o ymatebwyr o blaid yr ymagwedd newydd, yn meddwl y byddai'n fwy effeithiol wrth leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dim ond 11% o ymatebwyr oedd yn teimlo y byddai'n llai effeithiol na'r pwerau gwasgaru cyfredol.

A.16 Mae llawer o swyddogion yr heddlu'n croesawu'r pŵer hwn i weithredu'n uniongyrchol er mwyn atal ASB lleol, ag ymateb Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) yn datgan "Mae'r cynigion hyn wedi derbyn cefnogaeth arwyddocaol gan eu bod yn cryfhau pwerau'r heddlu i symud pobl i ffwrdd o fannau cyhoeddus oherwydd ymddygiad gwael yn gyffredinol heb ganolbwyntio'n ormodol ar anhrefn gysylltiedig ag alcohol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae gorchmynion Gwasgaru Adran 30 ac Adran 27 ill dau wedi bod yn offer effeithiol iawn a bydd cyfuno'r gorchmynion hyn yn symleiddio eu gweinyddiaeth a dylai leihau costau."

A.17 Roedd ymatebwyr yn hoffi hyblygrwydd y cynnig newydd, yn arbennig, y gallu i ddelio ag achosion fel unigolion yn sefyll ychydig y tu allan i barth gwasgaru. Nododd llawer hefyd y byddai'r symudiad yn "cael gwared ar y staen o labelu ardal fel parth gwasgaru". Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon mewn cysylltiad â dadleoli, diogelu a hawliau sifil, ac amlinellir mwy o fanylion ar y rhain isod.

A.18 *Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs):*Roedd y mwyafrif mawr, 78%, o ymatebwyr yn teimlo y dylai PCSOs yn ogystal â swyddogion yr heddlu fod yn gallu defnyddio'r pŵer hwn gan eu bod yn bwynt cyswllt sylfaenol i'r gymuned yn aml. Fodd bynnag, o ystyried elfennau gwrthdrawiadol posibl rhai agweddau ar y pŵer e.e. cymryd eitemau i ffwrdd, a'u diffyg ynghylch pŵer arestio, rydym yn cynnig galluogi disgresiwn i'r Prif Gwnstabl ynghylch pa elfennau o'r Pŵer Cyfarwyddo (os oes rhai) maent yn dymuno eu dynodi i PCSOs.

A.19 *Dadleoli:*Roedd rhywfaint o adborth y byddai'r pŵer newydd yn golygu bod yr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei ddadleoli i ardal arall. Fodd bynnag, rodd cytundeb cyffredinol bod pwerau gwasgaru presennol yn effeithiol wrth ddiffiwsio sefyllfaoedd a darparu seibiant uniongyrchol i ddioddefwyr. Datganodd un Partneriaeth Diogelwch Cymunedol "Ar hyn o bryd mae rhai o'r offer a phwerau'n cymryd amser i'w sancsiynu a'u gweithredu a gall hwn oedi'r datrysiad o rai elfennau symlach ASB, yn caniatáu iddynt ddatblygu". Ni fwriedir y Pŵer Cyfarwyddo fel datrysiad hirdymor a dylid defnyddio ymagwedd dymor hwy sy'n edrych ar achosion craidd problemau mewn achosion o wasgariadau ailadroddus, naill ai gyda chyflawnydd neilltuol neu ag ardal benodol.

A.20 *Diogelu pobl ifanc:* Roedd rhai grwpiau diddordeb, gan gynnwys Barnardo's (a oedd yn teimlo'n gryf am hwn gan drefnu ymgyrch e-bost a ddenodd oddeutu cant o ymatebion), a rhai o ymatebwyr eraill yn teimlo y gallai'r pŵer newydd gynyddu'r risg i blant hyglwyf (e.e. trwy eu dychwelyd at amgylchedd o gamdriniaeth yn eu cartref, neu eu symud o un ardal i ardal arall a oedd yn llai diogel). Roeddynt yn teimlo y gellid lleddfu'r risg hon dim ond os oedd swyddogion yn gwneud asesiadau risg llawn wrh ddefnyddio'r pŵer. Fodd bynnag, mae hwn yn perthyn gymaint i'r system bresennol ag yw i'n cynnig ni, a byddai trafod y broblem yn y ddeddfwriaeth yn debygol o danseilio ein nod o leihau biwrocratiaeth. O ganlyniad rydym yn bwriadu cwrdd â'r pryderon hyn trwy'r canllawiau atodol a'n gwaith diogelu ehangach er mwyn cyflawni ein hymrwymiadau i'r Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (gan gynnwys er enghraifft gwaith gydag ACPO ar hyfforddiant i swyddogion yr heddlu er mwyn sicrhau eu bod yn adnabod yr arwyddion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant).

A.21 *Goruchwylio a monitro:*Nododd llawer o ymatebwyr y byddai goruchwylio a monitro defnydd y pŵer yn gam diogelu hanfodol, yn arbennig ar ôl symud i ffwrdd yr angen i ddynodi ardal o flaen llaw.

A.22 *Cymryd eitemau i ffwrdd:*Roedd pryder y byddai cymryd eitemau i ffwrdd yn golygu bod y pŵer hwn yn estyniad o 'stopio a chwilio', ac y byddai'n angymesur. Awgrymodd rhai pobl y byddai'n anodd profi bod eitem yn mynd i achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol cyn ei chymryd i ffwrdd. Hefyd codwyd rhai pryderon ynghylch goblygiadau ymarferol hyn oll, er enghraifft beth fyddai'n digwydd i'r eitemau a gymerwyd i ffwrdd.

A.23 *Gweithio mewn partneriaeth:*Roedd pryder hefyd gan Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol y collid llawer o fuddion y gorchmynion gwasgaru presennol. Mae llawer o'r buddion sy'n deillio o orchmynion gwasgaru'n tarddu o'r broses o geisio awdurdodiad a'r gweithgareddau cysylltiedig a ysbardunir, yn hytrach na'r pwerau fel y cyfryw. Mae'r broses o awdurdodi'n creu cyfleoedd i wella cysylltiadau cymunedol yr heddlu ac yn darparu agoredrwydd ac atebolrwydd blaenorol."

Er y bydd y Pŵer Cyfarwyddo'n galluogi'r heddlu i weithredu ar eu hunain i ddarparu seibiant uniongyrchol i ddioddefwyr a chymunedau, byddem yn rhagweld datrysiadau tymor hwy fel rhai priodol gan gynnwys ymyriadau 'cynllunio troseddu allan' er mwyn gwella ardaloedd lleol a gwrthbwyso ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# Atodiad B
# Crynodeb o bwerau symlach newydd

**DELIO AG UNIGOLION GWRTHGYMDEITHASOL**

| | System bresennol | | Cynigion terfynol | Buddion y system newydd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) ar euogfarn | **1** | **Gorchymyn Ymddygiad Troseddol** – ar gael ar euogfarn am unrhyw dramgwydd troseddol, ac yn cynnwys gwaharddiadau a chefnogaeth ill dau i stopio ymddygiad yn y dyfodol sy'n debygol o arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol neu dramgwyddau troseddol pellach. | – Mae'r gorchymyn newydd yn cynnwys cefnogaeth i newid ymddygiad a helpu atal aildroseddu, yn hytrach na gwaharddiadau i stopio'r person rhag gwneud rhywbeth yn unig (e.e. mynd i le neilltuol). Roedd yr ASBO yn cynnwys gwaharddiadau ar ymddygiad yn unig. |
| 2 | Gorchymyn Gwahardd Yfed (DBO) ar euogfarn | | | |
| 3 | ASBO ar gais | **2** | **Gwaharddeb Atal Troseddu** – gorchymyn cwbl sifil â baich profi sifil, yn sicrhau ei fod yn gyflymach a haws i'w chael. Yn gysylltiedig â'r waharddeb hefyd fyddai gwaharddiadau a chefnogaeth ac amrediad o sancsiynau sifil am doriad. | – Mae'r safon sifil o dystiolaeth yn galw am dystiolaeth 'yn ôl pwysau tebygolrwydd' yn hytrach nag 'y tu hwnt i amheuaeth' a fydd yn sicrhau bod gwaharddebau'n gyflymach i'w cael. Mae hyn yn golygu y gellir trafod ymddygiad trafferthus yn gyflymach.<br>– Gall swyddogion yr heddlu a phroffesiynwyr eraill roi tystiolaeth ar ran y gymuned, sy'n amddiffyn tystion hyglwyf.<br>– Mae'r waharddeb newydd yn cynnwys cefnogaeth i newid ymddygiad, yn hytrach na stopio'r person rhag gwneud rhywbeth yn unig Dylai hwn helpu lleihau aildroseddu.<br>– Mae sancsiynau am doriad yn sifil yn hytrach na troseddol, sy'n atal pobl rhag cael cofnod troseddol yn ddiangen. |
| 4 | Gwaharddeb ASB | | | |
| 5 | DBO ar gais | | | |
| 6 | Gorchymyn Cefnogaeth Unigol | | | |
| 7 | Gorchymyn Ymyrraeth | | | |

**DELIO AG YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL YN Y GYMUNED**

| System bresennol | | Cynigion terfynol | | Buddion y system newydd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhybudd Clirio Sbwriel | **1** | **Rhybudd Amddiffyn Cymunedol**Rhybudd a gynllunir i ddelio â phroblemau neilltuol sy'n effeithio'n negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned a allai gyfarwyddo'r person sy'n gyfrifol i stopio achosi'r niwsans a/neu alw arnynt i 'wneud yn iawn'. | – 3.20Gellir defnyddio'r rhybudd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd eraill nas trafodir gan y pwerau mae'n eu disodli'n uniongyrchol, gan ganiatáu i ardaloedd ymateb yn hyblyg i broblemau lleol wrth iddynt godi. (er enghraifft, os nad yw perchennog anghyfrifol yn rheoli'u ci'n iawn).<br>– Bydd y rhybudd hefyd yn ymestyn y pwerau sydd gan yr heddlu i ddelio â niwsans sŵn - ar hyn o bryd mae hwn yn destun rheolaeth Awdurdodau Lleol, lawer ohonynt heb wasanaethau y tu allan i oriau swyddfa. |
| 2 | Rhybudd Rheoli Sbwriel ar y Stryd | | | |
| 3 | Rhybuddion Symud Anharddiad | | | |
| 4 | Gorchymyn Man Cyhoeddus Dynodedig | **2** | **Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol (man cyhoeddus)**Gorchymyn i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus, i weithredu cyfyngiadau ynghylch sut y gellir defnyddio'r man cyhoeddus hwnnw. | – Gellir defnyddio'r rhybudd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd eraill nas trafodir gan y pwerau mae'n eu disodli'n uniongyrchol, gan ganiatáu i ardaloedd ymateb yn hyblyg i broblemau lleol wrth iddynt godi.<br>– 3.28Mae'r gorchymyn yn caniatáu i ardaloedd lleol wneud penderfyniadau heb y baich o fynd trwy'r lywodraeth ganolog, â chymunedau, yr heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n darparu goruchwyliaeth. |
| 5 | Gorchmynion Llidiartu | | | |
| 6 | Gorchmynion Rheoli Cŵn | | | |
| 7 | Gorchymyn Gwasgaru (a30 Deddf ASB 2003) | **3** | **Pŵer Cyfarwyddo** – pŵer i gyfeirio unrhyw unigolyn sy'n achosi neu'n debygol o achosi trosedd neu anhrefn i ffwrdd o fan neilltuol, a chymryd eitemau cysylltiedig i ffwrdd. | – Ni fydd y pŵer newydd yn galw ar yr heddlu i ddynodi parth fel 'parth gwasgaru'. Bydd hwn yn lleihau biwrocratiaeth i'r heddlu gan olygu y gallant weithredu'n gyflymach i drafod problemau mewn ardal. |
| 8 | Cyfarwyddyd i Adael (a27 y Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006) | | | |
| 9 | Gorchymyn Cau Safle | **4** | **Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol (cau)** – Gorchymyn y gellid ei ddefnyddio i gau safle dros dro, neu am hyd at chwe mis. | – Mae cyfuno'r pwerau i gau safle yn symleiddio'r system tra'n cadw buddion y system bresennol gan ddarparu seibiant i gymunedau. |
| 10 | Gorchymyn Cau Tŷ Crac | | | |
| 11 | Gorchymyn Cau Safle Swnllyd | | | |
| 12 | Gorchymyn Cau Adran 161 | | | |

# Atodiad C:
# Pwerau newydd - Cynigion Manwl

## CYNIGION TERFYNOL: GORCHYMYN LLYS I ATAL YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL YN GYFLYM ER MWYN DARPARU SEIBIANT UNIONGYRCHOL I DDIODDEFWYR

C.1 Byddai'r **Waharddeb Atal Troseddu**, yn waharddeb hollol sifil ar gael yn y Llys Sirol ar gyfer oedolion ac yn y Llys Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc 10 i 17 blwydd oed. Byddai'r waharddeb yn disodli amrediad o offer cyfredol gan gynnwys y Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) ar gais, y Waharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBI), y Gorchymyn i Wahardd Yfed ar gais, gorchmynion ymyrraeth a gorchmynion cefnogaeth unigol.

C.2 Byddem yn caniatáu amrediad eang o ymgeiswyr er mwyn osgoi bod y baich yn cwympo ar unrhyw asiantaeth neilltuol i wneud ceisiadau ar ran eraill. Byddai'r asiantaethau dilynol yn gallu gwneud cais: yr Heddlu (gan gynnwys yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig), awdurdodau lleol, darparwyr cofrestredig preifat o dai cymdeithasol[28], Amddiffyn GIG, Transport for London ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

C.3 Yr unig ofyniad ffurfiol am yr ymgynghoriad fyddai i ymgynghori â'r Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) os yw'r gorchymyn ar rywun dan 18, er y byddai angen i'r ymgeisydd gymryd i gyfrif farnau asiantaethau eraill os y'i codir. Byddem hefyd yn argymell mewn cyfarwyddyd y rhoddir y cyfle i'r person ifanc fynegi eu barnau, yn unol â'u hawliau dan Gonfensiwn y CE ar Hawliau'r Plentyn. Byddai ymgynghori â phobl ifanc yn sicrhau y byddai'r ymgeisydd yn deall eu canfyddiad ynghylch y rheswm am eu hymddygiad gwrthgymdeithasol a byddai'n helpu hysbysu unrhyw benderfyniadau ar ofynion positif, er na fyddai'n golygu bod eu barnau'n derbyn blaenoriaeth.

C.4 Gellir rhoi gorchmynion dros dro heb rybudd ac ex parte (h.y. yn absenoldeb y diffynnydd). Ni fyddai angen ymgynghori ar gyfer gorchymyn dros dro.

C.5 Y prawf i gael y waharddeb fyddai bod y person wedi ymwneud ag ymddygiad sy'n gallu achosi niwsans neu ddicter i unrhyw berson a'i fod yn gyfiawn a chyfleus i roi'r waharddeb. Mae hwn yn cydfynd â'r Waharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol bresennol a ddefnyddir yn effeithiol gan lawer o ddarparwyr cofrestredig preifat o dai cymdeithasol ac awdurdodau lleol (mewn cysylltiad â'u swyddogaeth reoli tai) er mwyn stopio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB) yn gyflym.

C.6 Byddai'r waharddeb yn 'ddaliadaeth niwtral', felly gellid ei defnyddio i ddelio ag unrhyw unigolyn gwrthgymdeithasol, heb ystyried ble roeddynt yn byw.

C.7 Gellid cysylltu pŵer i arestio â'r waharddeb os oedd yr unigolyn wedi defnyddio neu fygwth trais, neu os oedd risg o niwed arwyddocaol i'r dioddefydd.

C.8 Gallai'r waharddeb gynnwys unrhyw waharddiadau neu ofynion sy'n cynorthwyo wrth atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dyfodol. Cynllunid y gofynion i ddelio ag achosion eu hymddygiad, a thrwy hynny'n lleihau cyfraddau torri yn yr hirdymor;

C.9 Cyn gwneud unrhyw ofyniad, mae rhaid i'r llys fod yn siwr ei fod ar gael ac yn orfodadwy, ac nad yw'n dyblygu unrhyw orchmynion eraill nag yn gwrthdaro yn eu herbyn (e.e. dedfryd gymunedol).

C.10 Ni chyflwynid cyfnodau lleiaf na mwyaf yn y ddeddfwriaeth, yn unol â mwyafrif y gwaharddebau presennol. Fodd bynnag, gan fod adborth yn y maes hwn yn gymysg yn yr ymgynghoriad, byddwn yn parhau i ystyried a ddylai fod cyfnod mwyaf statudol ar gyfer y gwaharddebau hyn fel rhan o'r broses ynghylch craffu cyn-ddeddfwriaethol.

28 Yn hysbys hefyd fel landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru.

C.11 Byddai toriad gan oedolyn yn ddirmyg llys, yn gosbadwy yn y ffordd arferol yn y Llys Sirol gan hyd at ddwy flynedd yn y carchar neu ddirwy ddiderfyn, fel a amlinellir yn Neddf Dirmyg Llys 1981;

C.12 Byddai toriad gan rywun o'r oedran 10 i 17 yn golygu gofyniad cyrffyw, gweithgaredd neu oruchwyliaeth, neu os fetha popeth arall, gallai toriadau ailadroddus sy'n achosi niwed difrifol olygu gwarchodaeth am hyd at dri mis ar gyfer rhywun o'r oedran 14 i 17. Codwyd cwestiynau yn yr ymgynghoriad ynghylch a yw'n briodol i gael cosb warchodol am doriad o gwbl. O ganlyniad, byddwn yn parhau i geisio barnau unigolion a sefydliadau ynghylch a ddylai dedfryd warchodol fod ar gael am dorri Gwaharddeb Atal Troseddu gan berson ifanc[29]. Mae'r llywodraeth yn ymrwymiedig i sicrhau bod gan y farnwriaeth bwerau gwydn i'w defnyddio ar doriad, ond hefyd i sicrhau y defnyddir gwarchodaeth mewn ffordd gymesur. Mae hwn yn rywbeth y byddwn yn dychwelyd ato fel rhan o graffu cyn-ddeddfwriaethol.

## CYNIGION TERFYNOL: GORCHYMYN LLYS I ATAL YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL YN Y DYFODOL GAN UNIGOLION SYDD AG EUOGFARN TROSEDDOL

C.13 Byddai'r **Gorchymyn Ymddygiad Troseddol** yn orchymyn sifil a fyddai ar gael wrth ochr euogfarn am unrhyw dramgwydd troseddol ac mewn unrhyw lys troseddol. Byddai hwn yn disodli'r Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) ar euogfarn a'r Gorchymyn Gwahardd Yfed ar euogfarn.

C.14 Gallai'r erlynydd wneud cais am y gorchymyn, naill ai ar fenter yr erlynydd, neu yn sgil cais gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol perthnasol. Byddem hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol gyhoeddi'r nifer o geisiadau roeddynt wedi'u gwneud, a faint oedd wedi'u symud ymlaen yn y llys, er mwyn gwella tryloywder.

C.15 Yr unig ofyniad ffurfiol am yr ymgynghoriad fyddai i'r heddlu neu awduedod lleol ymgynghori â'r Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) os yw'r gorchymyn ar rywun dan 18, er y dylid rhoi gwybod i'r erlynydd am farnau asiantaethau eraill os y'i codir a dylai'r erlynydd eu cymryd i gyfrif. Byddem hefyd yn argymell mewn cyfarwyddyd y rhoddir y cyfle i'r person ifanc fynegi eu barnau, yn unol â'u hawliau dan Gonfensiwn y CE ar Hawliau'r Plentyn. Awgrymwn y gellid gwneud hwn naill ai gan y YOT pan gyflwynir yr Adroddiad Cyn Dedfrydu (PSR), neu gan y barnwr yn rhyngweithio'n uniongyrchol gyda'r person ifanc ar achlysur y cais. Byddai ymgynghori â phobl ifanc yn sicrhau y byddai'r ymgeisydd yn deall eu canfyddiad ynghylch y rheswm am eu hymddygiad gwrthgymdeithasol a byddai'n helpu hysbysu unrhyw benderfyniadau ar ofynion positif, er na fyddai'n golygu bod eu barnau'n derbyn blaenoriaeth.

C.16 Byddai gorchymyn dros dro ar gael ar euogfarn (os gohiriwyd y llys ar gyfer dedfrydu).

C.17 Byddai'r pŵer gan y llys i symud ymlaen i wneud gorchymyn yn absenoldeb y diffynnydd os oedd y diffynnydd wedi'i rybuddio o'r blaen gan y llys y gallai hwn ddigwydd

C.18 Er mwyn cael y gorchymyn byddai rhaid dangos y byddai'r gorchymyn yn cynorthwyo wrth atal aflonyddwch, dychryn neu ofid rhag cael ei achosi i unrhyw aelod o'r cyhoedd. Ni fyddai angen i brofi ymddygiad penodol yn y gorffennol (mae hwn yn cydfynd â gorchmynion eraill ar euogfarn).

29 Gan y byddai toriad gan oedolyn yn syrthio dan weithdrefnau Dirmyg Llys hirsefydlog.

C.19 Gall y waharddeb gynnwys unrhyw waharddiadau neu ofynion sy'n cynorthwyo wrth atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dyfodol, a gallai fod yn gysylltiedig ag ymddygiad lletach (perthnasol) na'r ymddygiad a brofwyd trwy'r euogfarn droseddol y byddai'r gorchymyn yn gysylltiedig â hi. Byddwn yn datgan y gallai'r llys ystyried tystiolaeth a arweinir gan yr erlyniaeth a'r amddiffyniaeth, gan gynnwys yr hwnnw a fyddai wedi bod yn annerbyniadwy yn y gweithrediadau troseddol yr euogfarnwyd y troseddwr ynddynt.

C.20 Cyn gwneud unrhyw ofyniad, mae rhaid i'r llys fod yn siwr ei fod ar gael ac yn orfodadwy, ac nad yw'n dyblygu unrhyw orchmynion eraill nag yn gwrthdaro yn eu herbyn (e.e. dedfryd gymunedol)nag yn gwrthdaro yn erbyn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

C.21 Rydym hefyd yn archwilio i'r posibilrwydd y gallai'r unigolyn ddewis mynychu 'cwrs cymeradwy' er mwyn lleihau hyd eu gorchymyn ac er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol eu hymddygiad i yrru cyfraddau torri i lawr ymhellach. Byddai agwedd hon y gorchymyn yn gymwys i bobl o'r oedran 16 neu drosodd yn unig.

C.22 Y cyfnod lleiaf fyddai un flwyddyn ar gyfer pobl ifanc dan 18 a dwy flynedd ar gyfer oedolion, a'r cyfnod mwyaf fyddai tair blynedd ar gyfer pobl ifanc dan 18 a chyfnod amhenodol ar gyfer oedolion.

C.23 Byddai torri ar y gorchymyn yn dramgwydd troseddol, â dedfryd fwyaf o bum mlynedd yn y carchar. Byddai hwn yn arddangos i'r troseddwr a'r gymuned ddifrifoldeb y toriad, a, gan ei fod yn orchymyn ar euogfarn, nid oes risg o droseddoli rhywun am y tro cyntaf oherwydd toriad ar orchymyn sifil.

## CYNIGION TERFYNOL: PŴER NEWYDD I'R HEDDLU I WASGARU UNIGOLION SY'N ACHOSI NEU'N DEBYGOL O ACHOSI YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

C.24 Byddai Pŵer Cyfarwyddo yr heddlu'n galluogi swyddogion i ofyn i berson sydd wedi cyflawni, neu sy'n debygol o gyflawni, ymddygiad gwrthgymdeithasol i adael ardal benodedig heb ddychwelyd am gyfnod penodedig o hyd at 48 awr. Ni fyddai angen am ddynodi nag ymgynghori o flaen llaw.

C. 25 Y prawf fyddai 'bod gan y cwnstabl seiliau rhesymol i amau bod ymddygiad y person yn cyfrannu at ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddu neu anhrefn yn yr ardal a bod cyfarwyddo'n angenrheidiol'.

C.26 Byddai gan swyddogion yr heddlu fynediad at bob elfen o'r pŵer, a gallai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gael mynediad at wahanol elfennau'r pŵer yn ôl disgresiwn y Prif Gwnstabl.

C.27 Cedwid y gallu i ddychwelyd plant dan oedran 16 i'w cartref neu i le diogel os nad ydynt yng nghwmni oedolyn ar ôl 9yh. Codwyd pryderon fel rhan o'r ymgynghoriad, ac yn arbennig gan elusennau plant fel Barnardo's, y gallai hwn gynyddu'r risg i blant hyglwyf (e.e. trwy eu dychwelyd i amgylchedd o gamdriniaeth yn eu cartref). Rydym yn bwriadu lleddfu'r risg hon trwy'r canllawiau atodol a'n gwaith diogelu ehangach er mwyn cyflawni ein hymrwymiadau i'r Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (gan gynnwys er enghraifft gwaith gyda Chymdeithad Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) ar hyfforddiant i swyddogion yr heddlu er mwyn sicrhau eu bod yn adnabod yr arwyddion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant).

C.28 Byddai rhaid rhoi'r cyfarwyddyd mewn ysgrifen, yn datgan enw'r unigolyn (unigolion) sy'n cael eu gwasgaru er mwyn sicrhau eu bod yn deall o ba le maent yn cael eu gwasgaru, a rhag ofn yr herir y cyfarwyddyd nes ymlaen. Gallai'r heddlu dynnu lluniau o'r person heb eu caniatâd hefyd, eto er mwyn cynorthwyo â gorfodi a monitro.

C.29 Gallai'r pŵer weithredu mewn unrhyw fan cyhoeddus, ac mewn ardaloedd cyffredin o dir preifat â chaniatâd y tirfeddiannwr.

C.30 Byddai swyddog yr heddlu'n gallu gofyn i unigolyn ildio eitemau sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol (e.e.alcohol).

C.31 Byddai methiant i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd yn dramgwydd troseddol a byddai'n golygu cosb fwyaf o ddirwy lefel pedwar a/neu dri mis yn y carchar. Byddai methiant i ildio eitemau a gymerwyd i ffwrdd hefyd yn dramgwydd troseddol a byddai'n golygu cosb o ddirwy lefel tri a/neu un mis yn y carchar. Mae'r sancsiynau hyn yn unol â phwerau cyfwerth cyfredol, a byddant yn sicrhau bod canlyniadau difrifol yn sgil methiant i gydymffurfio.

C.32 Byddai angen i ddal unrhyw eitemau a gymerwyd i ffwrdd yn yr orsaf heddlu am gyfnod penodol o amser (e.e. 28 diwrnod) i roi cyfle i'r unigolyn ei adennill. Hefyd gall cwnstabl wrthod dychwelyd yr eitem i unigolyn dan 16 oni bai eu bod yng nghwmni rhiant neu oedolyn priodol arall, er mwyn gorfodi cyfrifoldeb rhieiniol.

3.33 Fel trefniad diogelu i sicrhau y defnyddir y pŵer yn gymesur ac er mwyn amddiffyn hawliau dinesig, rydym yn cynnig y byddai rhaid cyhoeddi'r data ar ei ddefnydd yn lleol. Byddai gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu rôl allweddol ynghylch dal heddluoedd i gyfrif ar hwn er mwyn sicrhau bod swyddogion yn defnyddio'r pŵer yn gymesur. Byddai cyhoeddi'r data'n lleol hefyd yn helpu amlygu unrhyw ardaloedd 'poethfan' a allai angen datrysiad hirdymor (e.e. gweithgareddau gwrthdyniadol ar gyfer pobl ifanc neu gyflwyniad o gamerâu CCTV i helpu 'cynllunio allan' troseddu ac ASB).

## CYNIGION TERFYNOL: Y RHYBUDD AMDDIFFYN CYMUNEDOL

C.34 Bwriedir y Rhybudd Amddiffyn Cymunedol i ddelio â phroblemau neu niwsans neilltuol, cyfredol sy'n effeithio'n negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned trwy dargedu'r person sy'n gyfrifol.

C.35 Bydd y rhybudd yn cyfarwyddo'r unigolyn, busnes neu sefydliad sy'n gyfrifol i stopio achosi'r broblem a gallai hefyd ofyn i'r person sy'n gyfrifol i gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw'n digwydd eto.

C.36 Bwriedir y rhybudd hwn i ddisodli mesurau presennol fel rhybuddion clirio sbwriel, rhybuddion symud anharddiad a rhybuddion rheoli sbwriel yn y stryd. Nis bwriedir i ddisodli'r system niwsans statudol nag i ymyrryd â'r system gynllunio - a ble mae'r ymddygiad o'r fath sy'n golygu niwsans statudol dan adran 79 Deddf Diogelu'r Amgylchedd (EPA), yna dylid delio ag ef fel hwnnw.

C.37 Dylai'r pŵer i gyhoeddi rhybudd fod ar gael i'r heddlu (a PCSOs), bersonau awdurdodedig o fewn yr awdurdod lleol a staff darparwyr cofrestredig o dai cymdeithasol (fel a ddynodir gan yr awdurdod lleol perthnasol)

C.38 Y prawf fydd bod y person awdurdodedig yn credu bod yr ymddygiad yn niweidiol i amwynder y lleoliad a/neu yn cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned leol heb esgus rhesymol.

C.39 Byddem am i'r person awdurdodedig, cyn cyhoeddi rhybudd, hysbysu'r asiantaethau neu bersonau maent yn ystyried eu bod yn briodol (landlord person, neu'r awdurdod lleol) er mwyn osgoi dyblygiad.

C.40 Dylai'r rhybudd ddatgan yn eglur: beth yw'r ymddygiad neu weithred (neu ddiffyg gweithred) sy'n cael effaith negyddol ar y gymuned leol neu sydd fel arall yn niweidiol i amwynder y lleoliad; pa weithredu sydd ei angen; a'r canlyniadau o beidio cydymffurfio.

C.41 Gallai'r gofyniad (gofynion) a gyflwynir yn y rhybudd gynnwys: gofyniad i beidio â gwneud gweithred neu ymddygiad penodedig; gofyniad i wneud ymdrechion rhesymol i wneud yn iawn am unrhyw broblemau sy'n weddill o fewn cyfnod penodol o amser; gofyniad i gymryd camau rhesymol i atal yr ymddygiad neu broblem rhag digwydd yn y dyfodol.

C.42 Byddai torri ar unrhyw ofyniad yn y rhybudd, heb esgus rhesymol, yn dramgwydd troseddol, yn atebol i Rybudd Cosb Benodedig neu erlyniad. Ar euogfarn ddiannod byddai unigolyn yn agored i ddirwy heb fod yn fwy na lefel pedwar ar y raddfa safonol. Mae busnes, sefydliad, ymgymerydd statudol, awdurdod y Goron neu awdurdod addysg yn agored i ddirwy heb fod yn fwy nag £20,000. Ar euogfarn, byddem hefyd yn rhagweld y byddai gan Lys yr Ynadon y pŵer i orchymyn i unrhyw eitem a ddefnyddiwyd wrth gyflawni trosedd gael ei fforffedu a'u ddinistrio.

C.43 Dewis amgen i erlyniad fyddai i'r asiantaeth berthnasol wneud yn iawn ei hunan, ac adennill y costau o wneud hwn gan y person.

## CYNIGION TERFYNOL: GORCHYMYN AMDDIFFYN CYMUNEDOL (MANNAU CYHOEDDUS)

C.44 Bwriedir y Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol (mannau cyhoeddus) i ddelio â niwsans neu broblem neilltuol mewn ardal neilltuol sy'n niweidiol i ansawdd bywyd y gymuned leol, trwy osod amodau ar ddefnydd yr ardal honno sy'n gymwys i bawb. Byddem hefyd yn rhagweld y gellid defnyddio'r gorchymyn i ddelio â phroblemau tebygol yn y dyfodol.

C.45 Dim ond awdurdod lleol a allai gyhoeddi'r gorchymyn, a chyn gwneud hynny, mae rhaid iddynt ymgynghori â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac unrhyw gynrychiolwyr y gymuned leol maent yn ystyried eu bod yn briodol.

C.38 Y prawf am gyhoeddi'r gorchymyn fydd bod yr awdurdod lleol yn credu bod yr ymddygiad yn niweidiol i ansawdd bywyd y gymuned leol, a bod yr effaith yn ddigon i haeddu trefnu cyfyngiadau mewn ardal benodol. Hefyd mae rhaid i'r ymddygiad fod yn gyfredol neu barhaus (neu mae rhaid bod cred resymol y bydd ymddygiad yn y dyfodol yn gyfredol neu barhaus).

C.47 Dylai'r gorchymyn ddatgan yn glir: pa ymddygiad mae'r gorchymyn yn ceisio ei atal; beth yw'r gwaharddiadau neu ofynion yn yr ardal benodedig (mae'r awdurdod lleol yn credu'n rhesymol y byddant yn datrys y broblem); yr ardal benodedig ei hunan; a'r canlyniadau o beidiop cydymffurfio.

C.48 Mae rhaid i'r gorchymyn fod mewn ysgrifen ac mae rhaid ei gyhoeddi. Hefyd byddai gofyniad y gosodir arwyddion rhesymol yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt.

C.49 Gallai'r gorchymyn barhau am hyd at dair blynedd a gellid ei adnewyddu cyn bod y cyfnod o dair blynedd yn dod i ben.

C.42 Byddai torri ar y gorchymyn, heb esgus rhesymol, yn dramgwydd troseddol, yn atebol i Rybudd Cosb Benodedig neu erlyniad. Ar euogfarn ddiannod, byddai unigolyn yn agored i ddirwy heb fod yn fwy na lefel tri ar y raddfa safonol.

C.51 Gellid ofyn i unrhyw berson sy'n torri ar orchymyn yn gwahardd yfed alcohol mewn man cyhoeddus ildio, i unrhyw berson a all gyhoeddi Rhybudd Cosb Benodedig, unrhyw gynhwyswyr neu eitem maent yn credu'n rhesymol eu bod yn cynnwys alcohol. Byddai methu cydymffurfio yn dramgwydd troseddol sydd ar euogfarn ddiannod yn golygu bod unigolyn yn agored i ddirwy heb fod yn fwy na lefel dau ar y raddfa safonol. Os cymerir alcohol i ffwrdd, gall y person a'i gymerodd i ffwrdd gael gwared arno hefyd.

## CYNIGION TERFYNOL - GORCHYMYN AMDDIFFYN CYMUNEDOL (CAU)

C.52 Byddai'r Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol (Cau) yn cyfuno amryw bwerau cau presennol sy'n perthyn i safleodd trwyddededig a'r holl safleoedd eraill sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol.

C.53 Rydym yn rhagweld y bydd y pŵer hwn ar gael i'r heddlu (swyddogion o lefel Arolygydd ac yn uwch) a'r awdurdod lleol (LA) (personau a ddynodir gan y Prif Weithredwr).

C.54 O fewn 24 o gyhoeddi'r gorchymyn, mae rhaid, er mwyn iddo barhau i fod yn ddilys, gael ei lofnodi, yn achos gorchymyn yr heddlu, gan swyddog sydd o leiaf yn Uwcharolygydd ac, yn achos gorchymyn LA, naill ai gan y Prif Weithredwr neu berson a ddynodir ganddynt.

C.55 Cyn cyhoeddi'r gorchymyn, mae rhaid i'r heddlu neu'r awdurdod lleol ymgynghori ag unrhyw berson neu asiantaeth maent yn ystyried eu bod yn briodol, yn ogystal â hysbysu'r perchennog, landlord, daliwr trwydded ac unrhyw un mae'n ymddangos eu bod yn byw ar y safle.

C.56 Y prawf am gyhoeddi gorchymyn fydd bod yr heddlu neu awdurdod lleol yn credu'n rhesymol: bod niwsans cyhoeddus yn bodoli neu ei fod yn debygol y bydd anhrefn cyn bo hir yng nghyffiniau'r safle ac yn perthyn iddo; a bod y gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn atal y fath anhrefn neu ymddygiad rhag digwydd neu ailddigwydd.

C.57 Byddai'r gorchymyn yn effeithiol am hyd at 48 awr - er y byddai angen i swyddog uwch ei lofnodi am fwy na 24 awr. Dylai'r gorchymyn ddatgan yn glir: y gwaharddir mynediad i'r safle i unrhyw berson heblaw am rhywun sy'n byw yn y safle trwy'r amser neu berchennog y safle; bod methu cydymffurfio â'r gorchymyn yn drosedd; manylion ynghylch pryd a ble yr ystyrir y gorchymyn gan Lys yr Ynadon; a gwybodaeth am ddarparwyr cyngor perthnasol (e.e. personau a sefydliadau yn yr ardal sy'n darparu cyngor am faterion ynghylch tai a'r gyfraith)

C.58 Mewn canllawiau byddwn yn egluro bod rhaid i'r heddlu neu'r awdurdod lleol gymryd i gyfrif unrhyw ystyriaethau arbennig sy'n codi o bresenoldeb neu bresenoldeb tebygol unrhyw blant neu oedolion hyglwyf ar y safle.

C.59 Byddem yn rhagweld y bydd gan bersonau awdurdodedig bŵer i fynd i mewn i'r safle, yn defnyddio grym rhesymol os oes angen, er mwyn cyflwyno'r gorchymyn.

C.60 Os yw'r heddlu neu'r awdurdod lleol eisiau ymestyn y gorchymyn y tu hwnt i 48 awr (hyd at dri mis), dylent wneud cais i Lys yr Ynadon cyn gynted â rhesymol ymarferol ar ôl i'r gorchymyn ddod i rym. Gall y llys barhau'r gorchymyn y tu hwnt i 48 awr os yw'n fodlon bod: person wedi ymwneud ag anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol ar y safle; defnydd y safle'n gysylltiedig ag anhrefn neu niwsans difrifol i aelodau'r cyhoedd; a bod angen am y gorchymyn er mwyn atal i'r fath anhrefn neu ymddygiad rhag digwydd neu ailddigwydd eto.

C.61 Cyn bod yr amser a benodir yn y gorchymyn yn dod i ben, gallai'r heddlu neu'r awdurdod lleol wneud cais i Lys yr Ynadon am estyniad pellach ar y gorchymyn os ystyrid bod hwn yn angenrheidiol. Y cyfnod mwyaf y gallai gorchymyn barhau yn gyfangwbl fyddai chwe mis.

C.62 Byddai torri ar y gorchymyn, heb esgus rhesymol, yn dramgwydd troseddol. Ar euogfarn ddiannod, byddai person yn atebol i ddirwy heb fod yn fwy na lefel pump ar y raddfa safonol a/neu dri mis yn y carchar os yw'n torri ar orchymyn a oedd yn parhau am hyd at 48 awr a hyd at chwe mis yn y carchar os yw'n torri ar orchymyn a oedd yn parhau am fwy na 48 awr. Byddai sefydliadau a busnesau'n atebol i ddirwy mwyaf uwch o £20,000.

Swyddfa Gartref

# Atodiad D
# Trosolwg o'r broses ymgynghori

D.1 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar 7 Chwefror 2011. Roedd yn amlinellu cynigion i symleiddio'n sylweddol y pecyn cymorth sydd ar gael i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cyflwynodd nifer o gwestiynau ar draws pum cynnig polisi allweddol sef:

- Y Gorchymyn Ymddygiad Troseddol
- Y Waharddeb Atal Troseddu
- Y Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol
- Y Pŵer Cyfarwyddo
- Yr Ysbardun Cymunedol

D.2 Cymerodd yr ymgynghoriad le dros gyfnod o bedair wythnos ar ddeg. Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref, www.homeoffice.gov.uk/asb-consultation fel dogfen PDF. Fe'i darparwyd yn y Saesneg a'r Gymraeg. Hefyd cynhyrchon ni fersiwn o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer y cyhoedd. Gellid cwblhau ymatebion i'r ymgynghoriad yn ddienw ar-lein, eu cyflwyno trwy e-bost neu eu postio at Y Swyddfa Gartref ar ffurf ysgrifenedig.

D.3 Er mwyn cefnogi'r broses ymgynghori cynhaliwyd chwe diwrnod o ddigwyddiadau rhanbarthol i ganfasio barnau gan ymarferwyr rheng flaen, gan gynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, landlordiaid cymdeithasol, timau troseddau ieuenctid a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol. Nodwyd themâu o'r gweithdai a manylion o'r trafodaethau ac fe'u hadlewyrchwyd yng nghrynodeb yr ymatebion isod.

D.4 Derbynion ni gyfanswm o 547 o ymatebion i'r ddogfen ymgynghori i randdeiliaid (232 wedi'u postio neu eu e-bostio a 315 o sylwadau ar-lein) ac rydym wedi dosbarthu'r rhain yn ôl sector (e.e. yr heddlu, awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol, y farnwriaeth, y sector gwirfoddol ac yn y blaen). Hefyd derbynion ni gyfanswm o 425 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd, y mwyafrif ohonynt wedi'u derbyn trwy'r ffurflen ar-lein, a derbynion ni 102 o e-bostiau fel rhan o ymgyrch a drefnwyd gan Barnardo's.

D.5 Rydym yn ddiolchgar i'r nifer sylweddol o sefydliadau ar draws nifer o sectorau ac unigolion a gymerodd yr amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Nid ydym wedi rhestru'r holl unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad ond cynhwysir rhestr o sefydliadau a ymatebodd ar ddiwedd y ddogfen hon.

D.6 Erbyn hyn rydym wedi ystyried yr holl ymatebion a dderbyniwyd.

D.7 Derbyniwyd 1,074 o ymatebion gan randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd. Mae'r tabl isod yn cyflwyno dadansoddiad llawn o darddiad yr ymatebion:

| Math o ymatebydd | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | 48 |
| Darparwr Tai | 103 |
| Cyfiawnder | 35 |
| Awdurdod Lleol | 147 |
| Amrywiol | 80 |
| Heddlu | 39 |
| Awdurdod Heddlu | 3 |
| Sefydliadau Gwirfoddol a Chymunedol | 42 |
| Ni roddwyd sefydliad | 50 |
| Aelodau'r Cyhoedd | 425 |
| Ymgyrch e-bost Barnardo's | 102 |
| | **1,074** |

D.8 Nid pob ymatebydd a atebodd bob cwestiwn a roedd nifer o ymatebion na ddilynodd strwythur y cwestiynau neu a fynegodd farnau amwys. Felly, seiliwyd yr amcangyfrifon ar gyfer yr holl ystadegau ar nifer yr ymatebwyr i'r cwestiynau perthnasol.